Rhif ymchwil cymdeithasol: 78/2025

Dyddiad cyhoeddi: 11/07/2025

# Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad interim y cam darganfod

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-80633-149-9

Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad interim y cam darganfod

Awduron: Lisa Rutherford, Harry Pearse, Nathan Hudson, Jo d'Ardenne, Aditi Das, Alessandra Radicati, Yasmin Begum

Adroddiad Ymchwil Llawn: Rutherford, L., Pearse, H., Hudson, N., d'Ardenne, J., Das, A., Radicati, A., a Begum, Y. (2025). Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad interim y cam darganfod. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 78/2025.

Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/model-cymdeithasol-o-anabledd-adroddiad-interim-y-cam-darganfod

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid barn Llywodraeth Cymru o anghenraid.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch:

Laura Tolland

Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 3

1.1. Trosolwg o'r cam darganfod ..... 5

1.2. Trosolwg o'r prosiect ..... 5

2. Pecyn gwaith 1: mapio anghenion y defnyddiwr data ..... 7

2.1. Nodau ..... 7

2.2. Adolygiad llenyddiaeth ..... 7

2.3. Gweithdai defnyddwyr data ..... 10

3. Pecyn Gwaith 2: adolygu'r cwestiynau cyfredol ..... 16

3.1. Nodau ..... 16

3.2. Trosolwg o'r dulliau ..... 16

3.3. Crynodeb o'r canfyddiadau ..... 17

4. Pecyn gwaith 3: ymgynghori â phobl anabl ..... 22

4.1. Nodau ..... 22

4.2. Trosolwg o'r dulliau ..... 22

4.3. Crynodeb o'r canfyddiadau ..... 24

5. Cyfuno canfyddiadau'r cam darganfod ..... 33

5.1. Prif ganfyddiadau'r cam darganfod ..... 33

5.2. Argymhellion am ddatblygu holiadur ..... 39

5.3. Cadw'r cwestiynau anabledd cyfredol ..... 41

5.4. Y camau nesaf ..... 41

Atodiad A: safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ..... 44

Atodiad B: Pecyn Gwaith 1 – Gweithdy defnyddwyr data: canllawiau pwnc ..... 46

Atodiad C: Pecyn Gwaith 2 – Adolygiad o'r holiadur: rhestr o'r arolygon a adolygwyd ..... 51

Atodiad D: Pecyn Gwaith 2 – Adolygiad o holiadur: meini prawf ar gyfer adolygu arolygon ..... 53

Atodiad E: Pecyn Gwaith 3 – Ymgynghori: y broses recriwtio a chwotâu ..... 55

Atodiad F: Pecyn Gwaith 3 – Ymgynghori: canllawiau pwnc.................................... 57

Atodiad G: Pecyn Gwaith 3 – Ymgynghori: enghraifft o gwestiwn arolwg y model cymdeithasol.......................................................................................... 80

## 1. Cyflwyniad a chefndir

Yn hanesyddol, mae polisi a deddfwriaeth y DU wedi cael eu dylanwadu gan y model meddygol o anabledd. Wth adolygu llenyddiaeth y model meddygol, gwelwyd bod y model yn ystyried mai'r amhariadau sydd gan unigolion yw achos sylfaenol eu hanfanteision ac mae'n canolbwyntio ar wella neu reoli'r amhariadau drwy ymyriadau meddygol, ac mai'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yw'r arbenigwyr (Crawford et al., 2012[1]; Cockburn et al., 2023[2]). Mae'r meddylfryd hwn wedi'i adlewyrchu hefyd yng nghwestiynau'r arolygon demograffig a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gasglu data am bobl anabl, a ddatblygwyd ar sail y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ac, oherwydd hynny, ar sail y model meddygol.

Yn unol â chanllaw Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, mae dulliau casglu data'r llywodraeth wedi tueddu i gynnwys safonau wedi'u cysoni ar gyfer salwch a chyflyrau iechyd hirdymor, a safonau wedi'u cysoni ar gyfer cyfyngiadau ar weithgareddau er mwyn sicrhau cysondeb wrth gasglu data ac i alinio â'r ddeddfwriaeth berthnasol (Atodiad A). Fodd bynnag, fel y nodwyd hefyd yng nghanllawiau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, efallai nad yw'r cwestiynau hyn yn sicrhau'r wybodaeth gywir am y boblogaeth niwrowahanol; y rhai sy'n derbyn triniaeth neu feddyginiaeth; y rhai sydd â chyflyrau penodol neu gynyddol; a'r rhai sydd wedi cael eu 'gwahardd' gynt gan gyflwr neu amhariad yn y gorffennol.

Yn 2002, cafodd y model cymdeithasol o anabledd ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru; mae hwn yn fodel amgen sy'n ystyried bod anabledd yn ganlyniad i rwystrau cymdeithasol, nid amhariadau unigol. Cafodd y model cymdeithasol ei ddatblygu gan bobl anabl ac mae wedi ei gynnwys yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRDP), y mae'r DU yn un o'i lofnodwyr. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen cael cwestiynau arolwg newydd i sicrhau bod y model cymdeithasol wedi'i adlewyrchu mewn gwaith casglu data, wrth wneud penderfyniadau, ac wrth ddarparu'r gwasanaethau i gyd ledled Cymru.

Yn 2024, cafodd y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) ei chomisiynu gan yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu a phrofi cyfres o gwestiynau ar gyfer arolwg demograffig, opsiynau ymateb a chanllawiau. Mae angen i'r cwestiynau gofnodi

---

[1] Crawford, C., Dinca-Panaitescu, M., Fougeyrollas, P., a Rioux, M. (2012). Towards a statistical model for monitoring the exercise of human rights under the UN Convention on the Rights of Disabled People – Canadian Case Study. Review of Disability Studies: An International Journal, 8(4).

[2] Cockburn, L., Roberts, J., Lee, S., Nganji, J., Ho, N.C.W., a Kuntjoro, A. (2023). Considerations when asking about "disability" in disability inclusive research. Disability and Rehabilitation, 46(21), 5114-5133.

profiadau pobl anabl yn unol â'r model cymdeithasol mewn ffordd gyson a safonol. Bydd y cwestiynau'n addas hefyd i'w defnyddio ochr yn ochr â dangosyddion sy'n angenrheidiol at ddibenion monitro polisi a deddfwriaeth (er enghraifft, Deddf Cydraddoldeb, 2010), ac i gynllunio ar gyfer y galw am y gwasanaeth.

Ar ôl eu cwblhau, bydd y cwestiynau hyn yn cael eu rhannu gyda phobl eraill yn cynnwys cyrff cyhoeddus, y trydydd sector, a chynhyrchwyr ystadegau eraill fel bod modd eu defnyddio'n ehangach. Bydd y dysgu o'r ymchwil hwn yn cael ei rannu gyda Thîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a gwledydd eraill y DU fel bod modd i'r cwestiynau gael eu mabwysiadu'n ehangach ar draws y llywodraeth.

Mae'r nodau ac amcanion ymchwilio ar gyfer yr ymchwil wedi eu rhestru isod.

**Nodau'r ymchwil**

- Datblygu cyfres o gwestiynau arolwg, opsiynau ymateb, a dogfennau arweiniad sy'n adlewyrchu'r model cymdeithasol ac yn galluogi dull o fesur sy'n safonedig a chyson.
- Ymchwilio modelau a ffyrdd eraill o fesur pobl anabl er mwyn asesu a ddylai cwestiynau sy'n seiliedig ar y model cymdeithasol gael eu defnyddio ar eu pennau eu hunain, ochr yn ochr â mesurau eraill, neu wedi eu hategu gan fesurau eraill (er enghraifft, safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth).
- Datblygu cwestiynau sy'n addas i gael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru o leiaf, ac ar draws y DU yn ddelfrydol.
- Datblygu arweiniad a chwestiynau y gellir eu defnyddio ar gyfer oedolion a phlant ar draws amrywiol ddulliau casglu.
- Cynhyrchu'r cwestiynau a'r arweiniad sy'n briodol i bobl sydd ag ystod amrywiol o anghenion hygyrchedd, ac mewn gwahanol ieithoedd a chyd-destunau.

**Amcanion ymchwilio**

- Deall y gwahanol fodelau anabledd a sut mae'r modelau hyn wedi eu hadlewyrchu yn y cwestiynau arolwg a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau'r llywodraeth.
- Deall y gwahanol ffyrdd y mae defnyddwyr data'n defnyddio data arolygon ar hyn o bryd i gynhyrchu ystadegau sy'n berthnasol i bobl anabl, neu bobl ag amhariad, a'r hyn sy'n brin ar hyn o bryd yn y dull presennol.
- Nodi'r ystod lawn o gwestiynau arolwg, opsiynau ymateb a'r arweiniad sy'n bodoli ar hyn o bryd i gasglu data am bobl anabl gan hefyd ystyried y model cymdeithasol o anabledd.

- Os nad oes cwestiynau arolwg priodol yn bodoli, creu, mireinio, profi a gwerthuso cyfres newydd o gwestiynau, opsiynau ymateb a dogfennaeth arweiniad i gasglu data sydd wedi ei seilio ar y model cymdeithasol.

Er mwyn cadw'n gyson â'r Fframwaith Cynllun sy'n Canolbwyntio ar Ymatebwyr (RCDF), roedd y fethodoleg ymchwil yn cynnwys cam 'darganfod', ac yn dilyn hynny gam 'alffa' i ddylunio a phrofi cwestiynau. Cafodd y cam darganfod ei gwblhau ym mis Ebrill 2025 ac mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r canfyddiadau ar draws holl becynnau gwaith y cam darganfod. Dechreuodd y cam alffa ym mis Mai 2025 ac mae wedi'i amserlennu i ddod i ben ym mis Mawrth 2026.

Mae gweddill yr adran hon yn cynnwys trosolwg o becynnau gwaith y cam darganfod a threfniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu'r ymchwil. Mae amcanion, dulliau a chanfyddiadau pob un o 3 pecyn gwaith y cam darganfod i'w gweld yn Adrannau 2 i 4. Yn Adran 5 mae cyfuniad o ganfyddiadau'r cam darganfod a mewnwelediad i gam nesaf yr ymchwil.

## 1.1. Trosolwg o'r cam darganfod

Roedd y cam darganfod yn cynnwys y 3 phecyn gwaith olynol a pherthnasol hyn:

- pecyn gwaith 1 (PG1): mapio anghenion y defnyddiwr data a'r adolygiad llenyddiaeth
- pecyn gwaith 2 (PG2): adolygiad o'r cwestiynau arolwg presennol
- pecyn gwaith 3 (PG3): gweithdai ymgynghori â phobl anabl

Roedd y canfyddiadau o bob pecyn gwaith yn hysbysu camau dilynol yr ymchwil.

## 1.2. Trosolwg o'r prosiect

### 1.2.1. Grŵp llywio'r prosiect

Sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp llywio, oedd yn cynnwys swyddogion polisi, arbenigwyr allanol, a phobl gyda phrofiad byw, i oruchwylio'r ymchwil. Cyfrifoldebau'r grŵp llywio oedd rhoi adborth am ddogfennaeth y prif brosiect, rhoi mewnbwn arbenigol, a chynghori ar broblemau wrth reoli prosiectau â materion yn cynnwys moeseg, hygyrchedd dulliau, ac ymlyniad â GDPR y DU.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp llywio ar ddechrau'r cam darganfod lle rhoddodd y grŵp sylwadau am gynllun ymchwil arfaethedig y cam darganfod. Pan oedd yn ymarferol i wneud hynny, cynhwyswyd argymhellion gan y grŵp yn y cynllun cyn symud ymlaen i'r cam adolygu moesegol.

### 1.2.2. Adolygiad moesegol

Yn ystod proses datblygu ymchwil y cam darganfod, craffwyd ar y prosiect i sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau ymchwil arfaethedig oedd yn eu lle yn gadarn a moesegol, a bod lles cyfranogwyr yr ymchwil wedi'i ddiogelu.

Cwblhawyd rhestr wirio moeseg Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar gyfer y cam darganfod er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei wneud yn unol â 5 egwyddor Sicrwydd Moesegol GSR ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.

Cafodd cam darganfod y prosiect ei adolygu hefyd gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REC) y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol ei hun. Mae gweithdrefnau REC y Ganolfan Genedlaethol yn ateb gofynion y Cod GSR.

Derbyniodd holl staff y prosiect gopi o god moeseg y Gymdeithas Ymchwil Genedlaethol ac roeddent wedi eu clymu ganddo. Cawsant hefyd eu briffio ar arweiniad proffesiynol GSR, a'u cyfarwyddo i gydymffurfio â'r Llyfr Magenta, y Llyfr Gwyrdd, a'r Llyfr Gwyrddlas ym mhob agwedd o'r ymchwil. Rhoddwyd hyfforddiant llawn i'r cyfwelwyr am elfennau sensitif posibl yn y gwaith ymchwil a sut i fynd i'r afael â'r rhain yn rhagweithiol drwy hyrwyddo cysur, dewis a rheolaeth y cyfranogwyr. Cafodd y staff oedd yn gwneud gwaith maes wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

### 1.2.3. Nodyn am derminoleg

Nid oedd yr holl dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod cam darganfod yr ymchwil hwn yn defnyddio iaith oedd yn cyfateb i'r model cymdeithasol. Wrth grynhoi llenyddiaeth, roedd hi'n bwysig adlewyrchu cynnwys yr erthygl y gywir. Mae hyn yn golygu nad yw rhywfaint o'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i iaith y model cymdeithasol. Defnyddir y model hwn i sicrhau nad ydym yn camddehongli neu gamgynrychioli'r ffynonellau sy'n cael eu crynhoi.

Yn yr un modd, cydnabyddir y bydd pobl, wrth weithio gydag aelodau'r cyhoedd, yn amrywio i ba raddau y maen nhw'n defnyddio iaith wedi'i hysbysu gan y model cymdeithasol yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae disgrifiadau o'r ffordd yr oedd cyfranogwyr yn yr ymchwil yn ymateb i gwestiynau'n fanwl gywir yn adlewyrchu'r iaith roedden nhw'n ei defnyddio. Er mwyn peidio camddehongli tystiolaeth neu gamgynrychioli eu barn, defnyddir eu geiriau eu hunain (crynodebau a dyfyniadau gair am air) yn yr adroddiad hwn. Nid yw'r dyfyniadau wedi eu golygu ac ni fyddent bob amser yn cyfateb i iaith y model cymdeithasol.

# 2. Pecyn gwaith 1: mapio anghenion y defnyddiwr data

## 2.1. Nodau

Roedd pecyn gwaith 1 (PG1) yn cynnwys 2 ffrwd: adroddiad llenyddiaeth a gweithdai defnyddwyr data.

Prif amcan yr adolygiad llenyddiaeth hwn oedd cyfuno llenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth ar wahanol fodelau anabledd, a'u manteision a'u hanfanteision yr adroddwyd amdanynt mewn perthynas â chynllun a darpariaeth ymchwil yr arolwg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r adolygiad llenyddiaeth fel adroddiad ar wahân, sy'n sefyll ar ei ben ei hun.

I ategu canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, cynhaliwyd gweithdai defnyddwyr data gyda gweithwyr cyflogedig Llywodraeth Cymru; gweithwyr cyflogedig eraill y sector cyhoeddus a'r llywodraeth; gweithwyr cyflogedig elusen a thrydydd sector. Nod y gweithdai hyn oedd casglu barn pobl broffesiynol sy'n dibynnu ar, yn gweithio gyda, neu'n defnyddio data ac ystadegau am bobl anabl yng Nghymru yn rhan o'u bywydau gwaith. Yn fwy penodol, nod y gweithdai oedd deall pa fesurau y mae defnyddwyr data yn eu defnyddio ac at ba ddibenion; yr hyn y maen nhw'n ei werthfawrogi am gwestiynau sy'n bodoli'n barod (yn enwedig safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ) a'u cyfyngiadau; ac yn y pen draw, os a sut y gallai mesurau sy'n ymwneud ag amhariad gael eu gwella neu adlewyrchu'r model cymdeithasol yn well.

## 2.2. Adolygiad llenyddiaeth

### 2.2.1. Methodoleg

Mabwysiadodd yr adolygiad hwn gynllun ymchwil i adolygu llenyddiaeth. Diben adolygiad llenyddiaeth yw casglu astudiaethau perthnasol o fewn ffrâm amser cyfyngedig i ddod i gasgliadau eang o sail dystiolaeth. Mae nifer o gyfyngiadau wrth wneud adolygiadau llenyddiaeth o'i gymharu â mathau mwy systematig o gyfuno, fel asesiadau cyflym o dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o golli gweld negeseuon testun perthnasol, cyflwyno rhagfarn i'r detholiad astudio, a pheidio asesu ansawdd astudiaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr adolygiad. I leihau'r risgiau hyn, cafodd y dull adolygu llenyddiaeth ei ategu â chamau ychwanegol sy'n dangos dull mwy systematig. Felly, roedd y fethodoleg adolygu llenyddiaeth hon yn cynnwys:

- nodi papurau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid – chwilio cronfeydd data academaidd gan ddefnyddio llinynnau chwilio wedi'u teilwra'n bwrpasol ac adolygiad â llaw o gyfnodolion wedi eu nodi o flaen llaw

- adnabod llenyddiaeth lwyd – chwilio cronfa ddata ar-lein gan ddefnyddio llinynau chwilio wedi'u symleiddio a hefyd adolygiad â llaw o wefannau wedi eu nodi o flaen llaw

- cynnwys argymhellion am dystiolaeth – a ddarparwyd gan arbenigwr pwnc mewn mesur ag arolygon – o amrywiol fathau o amhariad a'r model cymdeithasol o anabledd

- olrhain dyfyniadau testun pwysig yn ôl ac ymlaen

Mae manylion y strategaeth chwilio llenyddiaeth, yn cynnwys meini prawf cynhwysiant ac eithrio, termau chwilio a ffynonellau llenyddiaeth lwyd a llenyddiaeth academaidd wedi'i adolygu gan gymheiriaid, oll i'w cael yn y cyhoeddiad adolygiad llenyddiaeth ar wahân, sy'n sefyll ar ei ben ei hun.

Cafodd yr astudiaethau academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd eu cynnwys ar y rhestr fer mewn 2 gam: adolygiad o'r teitl a'r crynodeb neu grynodeb gweithredol, wedi'i ddilyn gan adolygiad o'r testun llawn. Cafodd oddeutu 50 o astudiaethau eu dewis i'w cynnwys yn yr adolygiad. Cafodd astudiaethau eu dewis i sicrhau eu bod yn ymdrin â'r cwestiynau ymchwil ac i ddarparu astudiaethau achos o arolygon a chyfresi cwestiynau. Unwaith y cafodd astudiaethau eu rhoi ar y rhestr fer, datblygwyd fframwaith thematig ar gyfer echdynnu data, ar sail y Dull Fframwaith (Richie et al., 2014[3]). Mae'r dull Fframwaith yn gofyn crynhoi tystiolaeth a nodwyd mewn matrics, gyda phob rhes yn cynrychioli ffynhonnell unigol o dystiolaeth, a'r colofnau'n cynrychioli themâu canolog a gwahanol fodelau o anabledd. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod yr adolygiad yn cyfuno'r dystiolaeth fwyaf perthnasol a bod themâu canolog a bylchau yn y dystiolaeth yn cael eu nodi.

### 2.2.2. Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae canfyddiadau o'r adolygiad llenyddiaeth yn amlinellu sut mae gwahanol fodelau'n darparu fframweithiau amrywiol ar gyfer deall a mynd i'r afael ag anabledd, gan ddylanwadu'n sylweddol ar gynllun yr arolwg a'r dulliau cymdeithasol. Mae'r modelau'n cynnwys y fframweithiau meddygol, cymdeithasol a bioseicogymdeithasol.

Mae'r model meddygol yn rhoi'r cysyniad hwn: bod rhywun yn anabl yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg neu amhariad o fewn yr unigolyn, gan olygu bod angen ymyriad

[3] Ritchie, J., Lewis, J., Nichols, C. M., ac Ormston, R. (2014). Qualitative research in practice. Ail argraffiad. Sage: Llundain.

meddygol (Cappa et al., 2015[4]; Cockburn et al., 2023). Prif fantais y model hwn a ddyfynwyd yn y llenyddiaeth yw'r meini prawf diagnostig clir; fodd bynnag, nodir rhai anfanteision, yn cynnwys cyfyngu'r ffocws i amhariadau gyda diagnosis meddygol ac anwybyddu unrhyw elfennau cymdeithasol ehangach sy'n penderfynu iechyd a lles, er enghraifft mynediad i ofal iechyd (Loeb, et al., 2018[5]).

Mae'r model cymdeithasol yn awgrymu mai'r rhwystrau cymdeithasol sy'n anablu pobl, yn hytrach nag amhariadau unigol (Burchardt, 2004[6]; Cockburn et al., 2023). Mae'r model hwn yn tynnu sylw at yr angen am newid cymdeithasol i dynnu'r rhwystrau i bobl anabl a, thrwy wneud hynny, yn newid y ffocws o amhariadau pobl i'r strwythurau cymdeithasol sy'n cyfyngu ar newid cadarnhaol i'r unigolion hyn. Fodd bynnag, mae'r feirniadaeth am y model hwn a ddaw o'r llenyddiaeth a adolygwyd yn cynnwys y risg bosibl nad yw'r effaith y mae'r amhariadau'n ei gael ar fywyd dyddiol pobl yn cael ei fynegi'n ddigon cryf, waeth beth yw'r ffactorau cyd-destunol, a dehongliadau sy'n amcangyfrif yn rhy isel beth yw'r effeithiau cynhenid a realiti gwrthrychol yr amhariadau (Beaudry, 2016[7]; Crawford et al., 2012).

Mae'r model bioseicogymdeithasol yn ceisio integreiddio elfennau o'r modelau meddygol a chymdeithasol drwy adnabod rhyngweithio cymhleth rhwng ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol (Norwich et al., 2016[8]). Mae rhai pobl yn ystyried bod y dull hwn yn darparu dealltwriaeth fwy cynnil o fod yn anabl, gan gwmpasu amhariadau unigol a dylanwadau amgylcheddol. Fodd bynnag, mae wedi cael ei feirniadu am ei ehangder a'i ddiffyg canllawiau clir ynglŷn â sut i'w ddefnyddio (Roberts, 2023[9]).

Roedd yr astudiaethau achos o gyfresi cwestiynau ac arolygon a nodwyd gan yr adolygiad llenyddiaeth yn tynnu sylw at nifer o ystyriaethau pwysig.

---

[4] Cappa, C., Petrowski, N., a Njelesani, J. (2015). Navigating the landscape of child disability measurement: a review of available data collection instruments. European Journal of Disability Research, 9(4), 318-330.

[5] Loeb, M., Mont, D., Cappa, C., De Palma, E., Madans, J., a Crialesi, R. (2018). The development and testing of a module on child functioning for identifying children with disabilities on surveys. I: background. Disability and Health Journal, 11(4), 495-501.

[6] Burchardt, T. (2004). Capabilities and disability: the capabilities framework and the social model of disability. Disability & Society, 19(7), 735-751.

[7] Beaudry, J-S. (2016). Beyond (models of) disability? Journal of Medicine and Philosophy, 41(2), 210-228.

[8] Norwich, B. (2016). Conceptualizing Special Educational Needs using a biopsychosocial model in England: The prospects and challenges of using the International Classification of Functioning Framework. Frontiers in Education, 1(6).

[9] Roberts, A., (2023). The biopsychosocial model: its use and abuse. Medicine, Health Care and Philosophy 26, 367-384.

- Mae nifer o arolygon sy'n bodoli'n barod yn methu cofnodi'n ddigonol beth yw'r rhwystrau amgylcheddol i bobl anabl. Felly, roedd astudiaethau'n argymell y dylai arolygon integreiddio cwestiynau penodol sy'n mynd i'r afael â hygyrchedd, cynhwysiant y gweithle ac agweddau cymdeithasol (Loeb et al. 2018; Cappa et al., 2015; Lammons et al., 2024[10]).

- Mae nifer o fesurau cyfredol yn defnyddio fformatau pengaëedig sy'n rhwystro mewnwelediadau manwl i brofiadau byw unigolion anabl. Mae rhai astudiaethau felly'n argymell ymatebion testun agored, yn ogystal ag osgoi defnyddio mesuriadau mympwyol nad ydynt yn llwyddo i gofnodi profiadau cynnil unigolion (Beaudry, 2016; Crawford et al., 2012).

- Gall arolygon sy'n rhy hir olygu nad yw pobl eisiau cyfranogi ac nad yw data cynhwysfawr yn cael ei gasglu (Loeb et al., 2018). Roedd hi'n hanfodol cael y cydbwysedd cywir o arolwg byr sydd eto'n fanwl er mwyn gwella cyfraddau'r gyfranogaeth yn yr arolwg.

Nid yw rhai o'r safonau cyfredol oedolyn-ganolog yn briodol nac yn berthnasol i blant a phobl ifanc anabl. Nododd yr adolygiad llenyddiaeth ddulliau mwy priodol o gasglu data gan blant a phobl ifanc, yn cynnwys defnyddio'r Mesur Gweithrediad Plant (CFM) sy'n asesu anawsterau plant mewn meysydd fel golwg, clyw, symudedd, cyfathrebu a dysgu gan ddefnyddio graddfa fesur, ac sy'n addas ar gyfer arolygon aelwydydd sy'n rhai cenedlaethol ac yn rhai wedi eu seilio ar y boblogaeth.

## 2.3. Gweithdai defnyddwyr data

### 2.3.1. Methodoleg

Cafodd cyfres o 3 gweithdy ar-lein eu cynnal gyda phobl sy'n defnyddio data o arolygon anabledd rhwng Mehefin a Hydref 2024. Cafodd pob gweithdy ei amserlennu am 2 awr ac roeddent yn cynnwys rhwng 8 ac 16 o gyfranogwyr, gyda chyfanswm o 36 o gyfranogwyr. Roedd cynnal gweithdai gyda gwahanol fathau o ddefnyddwyr data wedi dangos yr amrywiaeth safbwyntiau o fewn y grwpiau, gan hefyd weld elfennau tebyg neu wahaniaethau rhwng defnyddwyr data o bob un o'r 3 gweithdy.

Argymhellwyd rhestr o ddefnyddwyr data hysbys gan Lywodraeth Cymru, a chafodd manylion pob defnyddiwr eu rhannu'n ddiogel gyda NatCen, a gyhoeddodd

[10] Lammons, A., Markham, S., a Saloniki, E.C. (2024). PPIE in a technical research study: using public involvement to refine the concept and understanding and move towards a multidimensional concept of disability. Health Expectations, 27(3), e14072.

wahoddiadau. Cafodd y cyfranogwyr eu dyrannu i un o'r 3 grŵp gweithdy dilynol, yn dibynnu ar eu sefydliad:

- gweithdy 1: defnyddwyr data sy'n gyflogedig yn Llywodraeth Cymru (8 cyfranogwr)
- gweithdy 2: defnyddwyr data sy'n gyflogedig yn Llywodraeth y DU a chyrff sector cyhoeddus eraill (12 cyfranogwr o 9 sefydliad)
- gweithdy 3: defnyddwyr data sy'n gyflogedig mewn sefydliadau trydydd sector a chymunedol (16 cyfranogwr o 15 sefydliad gwahanol)

Cynhyrchodd NatCen ganllawiau pwnc (Atodiad B) a chyfres o weithgareddau bwrdd gwyn rhyngweithiol ar-lein i strwythuro sgyrsiau defnyddwyr data. Anogodd y gweithdai feddyliau ac awgrymiadau'r cyfranogwyr am arolygon sy'n casglu data am amhariad. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr hefyd fyfyrio ar fuddion ac anfanteision y mesurau cyfredol yr oedden nhw'n eu defnyddio; y safonau wedi'u cysoni, yn cynnwys pa rai o'r rhain ddylai gael eu cadw neu eu haddasu; a'r syniad o ailddrafftio cwestiynau yn unol â'r model cymdeithasol, gan gynnwys a fyddai hyn yn ymdrin â chyfyngiadau'r arolygon presennol. Ni chafodd cyfranogwyr eu hannog i roi ateb fyddai'n rhoi consensws.

Ar ddiwedd pob gweithdy, gofynnwyd i ddefnyddwyr data awgrymu blaenoriaethau ar gyfer yr ymchwil, yn ogystal â fformat dewisol ar gyfer ei allbynnau. Rhoddwyd y cyfle i bobl a wahoddwyd oedd yn methu mynd i weithdy wedi'i amserlennu roi adborth drwy arolwg e-bost a anfonwyd allan ar ôl i'r gweithdai gael eu cynnal. Aeth ymchwilwyr NatCen ati i dablu a dadansoddi'r data o'r byrddau gwyn ar-lein, y bocs sgwrsio, a'r arolwg. Cafodd y data ei godio'n thematig, gan ddefnyddio themâu wedi eu gosod o flaen llaw oedd wedi eu hadeiladu i mewn i'r ymarferion bwrdd gwyn, yn ogystal â mynychter ymatebion y defnyddwyr data. Mae nifer y cyfranogwyr mewn ymgysylltiad ansoddol graddfa fach fel hyn yn rhy isel i sefydlu trothwyon ansoddol ar gyfer themâu y gellir adrodd arnynt. Fodd bynnag, gallai ymchwilwyr adnabod y prif safbwyntiau yn fras, ac maent wedi eu trafod isod.

### 2.3.2. Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Yn ystod y gweithdai, nododd y defnyddwyr data'r ystod fechan o arolygon a ddefnyddiwyd i gasglu data am bobl gydag amhariadau. Arolygon sefydliadol mewnol ac arolygon llywodraethol ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol oedd y 2 y dyfynwyd ohonynt fwyaf. Daeth nifer o themâu o'r arolwg ynghylch y ffordd y mae mesurau'n cael eu defnyddio.

Cyfeiriodd yr holl grwpiau defnyddwyr at ddefnyddio data cyfredol i fonitro ac asesu tueddiadau neu werthuso a gwella amgylchiadau i bobl anabl. Cyfeiriodd rhai defnyddwyr data yng ngweithdai 1 a 2 (sefydliadau sector cyhoeddus) at ystyriaethau am gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gasglu data, yn cynnwys

gwerthuso amrywiaeth y gweithlu. Ar y llaw arall, roedd y rhai yng ngweithdy 3 (sefydliadau trydydd sector a chymunedol) yn defnyddio'r data i ddeall anghenion y cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli ac yn eirioli drostynt.

Mae'r defnyddiau hyn yn cael eu gweithredu ar draws nifer o feysydd polisi. Ymhob grŵp data, mae'r rhain yn cynnwys hysbysu penderfyniadau strategaeth neu bolisi llywodraethol neu gorfforaethol, y cyd-destun polisi cyhoeddus (er enghraifft, gwaith a chyflogaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, lles), neu ddatblygiad gwasanaethu democrataidd.

**Safonau cyfredol a safonau wedi'u cysoni**

Roedd y defnyddwyr data'n ystyried manteision a chyfyngiadau'r safonau wedi'u cysoni a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Yr argymhelliad cyfredol wrth gasglu data sy'n gysylltiedig ag anabledd yw defnyddio'r safon gyfunedig ar gyfer salwch a chyflyrau iechyd hirdymor (LLHCI) ynghyd â'r safon gyfunedig ar gyfer cyfyngu ar weithgareddau gyda'i gilydd. Ar y llaw arall, mae'r safon gyfunedig ar gyfer amhariadau yn edrych ar feysydd sy'n cael eu heffeithio oherwydd eu salwch neu gyflwr iechyd (Atodiad A).

**Manteision y safonau wedi'u cysoni**

Ar draws y ddau weithdy, canfuwyd mai'r safoni a ddarparwyd gan y cyfuno oedd un o brif fanteision defnyddio'r cwestiynau hyn. Maen nhw'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010; yn cynnwys pobl sydd ag amhariadau lluosog; ac am eu bod wedi cael eu defnyddio dros flynyddoedd lawer ar draws 4 gwlad y DU, gallant gofnodi tueddiadau dros amser a darparu synnwyr cyffredinol o anghenion y boblogaeth. Roedd rhai defnyddwyr yn disgrifio'r cwestiynau fel rhai cyflym a hawdd, a nododd eraill nad yw'r cwestiynau'n cyfeirio at 'anabledd' yn uniongyrchol felly mae modd eu defnyddio o hyd i gofnodi gwybodaeth am bobl na fyddent yn eu diffinio eu hunain gyda'r term hwn.

**Anfanteision y safonau wedi'u cysoni**

Myfyriodd y defnyddwyr data ar 3 prif gyfyngiad y cwestiynau cyfunedig.

Yn gyntaf, trafodwyd cyfyngiadau cysyniadol a gorddibyniaeth ar y model meddygol. Dywedodd un defnyddiwr data, "nid yw'r safon o ran amhariadau wedi ei chysylltu'n glir â chysyniad clir." Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y cwestiynau wedi'u seilio'n ddiangen ar "fodel diffyg" ac yn canolbwyntio'n ormodol ar "gyfyngiadau" a achosir gan amhariadau pobl. Roedden nhw'n disgrifio'r cwestiynau fel rhai "simplistig", yn cyfuno amhariadau gyda symptomau yn aml iawn, a bod y categorïau (er enghraifft, gweledigaeth, symudedd) yn rhy eang ac, felly, nad ydynt yn ddigon manwl i roi arweiniad i wneuthurwyr polisi. Awgrymwyd y dylai bod cysylltiad cliriach rhwng y cwestiynau cyfunedig a'r fframwaith Dosbarthiad Galluoedd Gweithredu Rhyngwladol (ICF).

Tynnwyd sylw at gyfyngiadau ieithyddol hefyd yn ystod gweithdai, yn cynnwys y ffaith bod yr iaith a ddefnyddir "yn swnio'n negyddol [ac] yn cynrychioli anabledd fel rhywbeth negyddol". Roedd rhai defnyddwyr yn gwrthwynebu'n benodol y ffordd yr oedd y cwestiynau cyfunedig yn cynnig opsiwn ymateb oedd yn cyfeirio at 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth': "mae'r gymuned awtistig yn osgoi'r term hwn am fod ganddo'r gair 'anhwylder' ynddo, ac nid ydynt yn hoffi cael eu disgrifio fel pobl anhrefnus". Pryder arall oedd bod y cwestiynau'n rhy gymhleth ac anodd, ac y gallai hyn rwystro pobl rhag eu deall neu rhag teimlo eu bod yn berthnasol iddyn nhw.

Yn olaf, nodwyd yn y gweithdai'r nodweddion eithriadol sydd gan y cwestiynau cyfunedig. Er enghraifft, tynnwyd sylw at y ffaith y gallai'r cwestiynau eithrio neu greu rhwystrau i atal rhai grwpiau penodol o bobl rhag cymryd rhan. Dywedodd defnyddwyr data nad yw'r geirio'n cyfrif am gyflyrau newidiol neu amhariadau sy'n digwydd ar yr un pryd; roedd yn defnyddio iaith sarhaus neu na ddylid ei defnyddio mwyach wrth gyfeirio at niwrowahaniaeth ac anableddau dysgu a allai gau pobl allan; ac na fyddai'r cwestiynau'n gweithio i rai grwpiau, yn cynnwys defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

### Ystyriaethau ymarferol ar gyfer adolygu'r safonau

Bu'r defnyddwyr data'n trafod hyfywedd y mesurau wedi'u cyfuno hefyd. Roedd y defnyddwyr trydydd sector – a oedd yn rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd hunanddiffinio a sicrhau bod arolygon yn cofnodi data am y rhai nad ydynt o bosib yn eu "hystyried eu hunain" yn anabl – yn dweud y dylai'r mesurau presennol gael eu "hailysgrifennu" i gyd-fynd â'r model cymdeithasol.

Nododd defnyddwyr data'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus y byddai angen i unrhyw addasiad i'r cwestiynau presennol gael eu "profi'n drwyadl" i sicrhau y byddai cwestiynau newydd yn cynhyrchu'r data dewisedig ac yn gweithio'n dda i bobl gydag amhariadau a phobl anabl.  Hefyd, cododd y grŵp y posibilrwydd o ailddrafftio'r cwestiynau i greu fersiwn addas i blant gan bwysleisio eto yr angen am wneud cwestiynau newydd yn addas i ganfod data am bobl niwrowahanol.

Ar draws y 3 gweithdy, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y dylai'r cwestiynau gael eu hailgynllunio gyda chyfraniad gan y bobl y maen nhw i fod i'w gwasanaethu, ac nid sefydliadau a phobl broffesiynol yn unig. Rhoddwyd dadleuon oedd yn cefnogi cadw'r cwestiynau presennol a'u hategu gyda mesurau newydd, oherwydd roedd rhai defnyddwyr yn teimlo y byddai cael gwared â'r mesurau cyfunedig yn gyfan gwbl yn golygu na fyddai modd gwneud cymhariaethau ac olrhain data dros amser cystal ag o'r blaen.

### Cwestiynau wedi eu hysbysu gan y model

Roedd y defnyddwyr data'n ymgysylltu'n gadarnhaol â'r syniad o ddefnyddio mesurau wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol, gyda thrafodaethau yn y

gweithdai'n canolbwyntio ar sut y gallan nhw osgoi bylchau yn y cwestiynau cyfredol a chwestiynau cyfunedig, ac unrhyw ystyriaeth ymarferol ar gyfer eu datblygiad.

**Manteision cwestiynau wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol**

Roedd un o fanteision y mesurau sydd wedi ei hysbysu gan y model cymdeithasol, a nodwyd yn eang ymysg cyfranogwyr, yn ymwneud ag 'ailgyfeirio cysyniadol'; symud y ffocws oddi wrth ystyried 'anabledd' yn broblem gyda'r unigolyn, tuag at ffocws ar rwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol (er enghraifft, amgylcheddau anhygyrch, polisïau sy'n eithrio pobl).

Hefyd, nododd y gweithdai defnyddwyr data bod angen 'newid ieithyddol', ac roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gellid cyflawni'r newidiadau hyn drwy fabwysiadu'r model cymdeithasol, gyda thystiolaeth yn awgrymu bod mabwysiadu iaith yn y person cyntaf (er enghraifft, defnyddio 'person anabl' yn hytrach na 'pherson gydag anabledd') yn gallu cadarnhau hunaniaeth yr unigolyn a pharchu eu profiad.

Dywedodd y defnyddwyr data y byddai'r gallu i ddefnyddio opsiynau ateb agored mewn cwestiynau wedi'u halinio â'r model cymdeithasol yn caniatáu i ymatebwyr ddiffinio eu hamhariad eu hunain, cofnodi gwybodaeth fanylach am brofiadau amrywiol; rhoi'r cyfle i bobl ddefnyddio eu hiaith eu hunain i'w disgrifio eu hunain; a galluogi unigolion i esbonio amgylchiadauu cymhleth neu rai sy'n anoddach eu dosbarthu i gategori. Byddai arolygon sy'n rhoi mwy o le i ymatebwyr hunanddiffinio'n galluogi i fwy o ddata, a data gwell, gael eu casglu am y boblogaeth niwrowahanol. Fodd bynnag, nododd y defnyddwyr data hefyd y cyfyngiadau ymarferol gyda dull cwbl agored, o ystyried bod angen system ddosbarthu i gynhyrchu ystadegau.

**Anfanteision y cwestiynau sydd wedi'u hysbysu gan y model cymdeithasol**

Roedd pob carfan a gynhwyswyd yn y gweithdai defnyddwyr data'n cyfeirio at gyfyngiadau posibl mesurau sydd wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol.

Roedd defnyddwyr data'n pryderu y gallai darpariaeth y model cymdeithasol ar gyfer hunanddiffinio achosi'r risg bod data'n llai cywir a dibynadwy os, er enghraifft, mae'n dod yn amhosibl gwahaniaethu rhwng ymatebwyr sydd wedi hunanddiffinio (neu hunan-ddiagnosio) gydag amhariad arbennig, a'r rhai sydd â diagnosis ffurfiol. Teimlwyd y gallai hyn gael ei waethygu gan oedi yn y broses o roi diagnosis ffurfiol o rai cyflyrau niwrowahanol ac y gallai hynny achosi anawsterau o ran rhoi polisi ar waith.

Roedd defnyddwyr data trydydd sector yn pwysleisio'n benodol hyd yn oed os byddai mesurau newydd yn cael eu cyflwyno yn unol â'r model cymdeithasol, ni fyddai hyn yn newid y realiti y bydd nifer o bobl anabl neu bobl gydag amhariadau'n parhau i gael eu hanablu gan rwystrau cymdeithasol. Fel yr esboniodd un defnyddiwr data o'r trydydd sector:

> “Waeth faint o bethau mae cymdeithas yn ei wneud i ateb eu hangenion, maen nhw’n dal i fod mewn poen / wedi blino’n lân, a hynny sy’n eu hanablu nhw – felly mae angen i ni gofio hynny a sicrhau bod y cwestiynau’n ceisio cwmpasu popeth a’u bod mor gynhwysol ag y bo modd”.

**Ystyriaethau ymarferol ar gyfer cwestiynau wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol**

Yn olaf, roedd y defnyddwyr data’n ymwybodol o amrywiaeth o ystyriaethau ymarferol. Fel yr esboniodd un cyfranogwr:

> “Os ydych chi’n gwneud arolwg o bobl anabl yn unig, yna mae angen i chi gael rhywbeth sydd wedi’i deilwra i’r gymuned fwy nag y mae’r safonau wedi’u cysoni’n ei wneud. Ond os oes angen i’r boblogaeth gyfan ei ddeall [yr arolwg], bydd angen i chi gael rhywbeth mwy hygyrch i bobl a allai fod yn llai cyfarwydd â’r mathau o brofiadau neu bethau sy’n berthnasol i bobl anabl.”

Nododd y cyfranogwyr nifer o ffactorau sy’n ymwneud â phrofiad y defnyddiwr o’r arolwg y bydd angen i ddatblygwyr cwestiynau wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol eu cymryd i ystyriaeth.

Pwysleisiodd y defnyddwyr data o Lywodraeth Cymru ac ar draws y sector cyhoeddus bod angen i arolygon gynnwys canllawiau am y model cymdeithasol, fel bod ymatebwyr yn deall cwestiynau’r arolwg a’u bod yn gallu eu cwblhau nhw heb gymorth. Anfantais hyn oedd y posibilrwydd y gallai cwestiynau’r arolwg fod yn hirach a rhoi profiad mwy beichus i’r defnyddiwr. Yn ogystal, roedden nhw’n rhybuddio y gallai cael categorïau amhariad ehangach arwain at ddata rhy ronynnog, gyda’r posibilrwydd o gymhlethu dadansoddiad a’r gallu i gymharu.

Yn yr un modd, roedd pryderon y byddai gorfodaeth i gynnwys arweiniad am y model cymdeithasol yn cynyddu hyd yr arolygon, ac y gallai hynny achosi anawsterau i ymatebwyr a chynyddu’r gyfradd sy’n rhoi’r gorau iddi. Roedd y mwyafrif o ddefnyddwyr data’n teimlo y gallai gorfod “esbonio’r model cymdeithasol o anabledd” i ymatebwyr arolygon achosi i holiaduron fod yn rhy “hir”. Pwysleisiodd y defnyddwyr data bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddioldeb yr arolwg a faint o ddata y gellir ei ddarganfod.

Nododd y cyfranogwyr hefyd y gallai fformat a dull yr holiaduron fod yn ffactor sy’n eu heithrio o hyd, a bod yn rhaid mynd i’r afael â hyn. Er enghraifft, yn ôl y defnyddwyr data, er mai holiaduron ar-lein oedd yr opsiwn diofyn, dylid cael amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i ddarparu ar gyfer pobl nad ydynt yn llythrennog yn ddigidol neu nad oes technoleg ar gael iddynt, ac amrywiaeth o ffyrdd o ofyn ac ateb y cwestiynau (er enghraifft BSL, ar lafar, hawdd ei ddarllen). Roedd safbwyntiau gwahanol am bwysigrwydd ymatebion di-destun ymysg defnyddwyr, gyda rhai’n mynegi pryder y gallent fod yn rhy feichus i rai ymatebwyr.

# 3. Pecyn Gwaith 2: adolygu'r cwestiynau cyfredol

## 3.1. Nodau

Gan ddefnyddio canfyddiadau o PG1, prif nod pecyn gwaith 2 (PG2) oedd gwneud adolygiad systematig cynhwysfawr o fesurau arolwg cyfredol, o'r DU a gwledydd eraill, sy'n cofnodi gwybodaeth am bobl anabl a'u hamhariadau. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar adnabod a gwerthuso i ba raddau y gellid ateb y mesurau hyn neu y gellid eu haddasu i ateb anghenion defnyddwyr data ac a ydynt yn alinio ag iaith y model cymdeithasol o anabledd.

## 3.2. Trosolwg o'r dulliau

Dechreuodd yr adolygiad drwy nodi'r arolygon perthnasol sydd wedi eu bwriadu i gasglu gwybodaeth am amhariad a/neu bobl anabl (Atodiad C). Roedd hyn yn cynnwys arolygon sy'n canolbwyntio ar anabledd ac arolygon eraill oedd yn cynnwys cwestiynau wedi'u canolbwyntio ar anabledd, ond nid y rhain oedd unig ffocws yr arolwg. Ymestynnodd y cwmpas y tu hwnt i'r DU i ffynonellau rhyngwladol. Roedd hyn yn cynnwys offer preifat fel Cyfres Fer Gwell y Washington Group neu arolygon wedi eu noddi gan y llywodraeth fel Arolwg Anabledd Canada, ac Arolwg Cyfweliad Iechyd Ewrop, er mwyn sicrhau rhestr eang a chynrychiadol o fesurau.

Yna cytunwyd ar restr o feini prawf gwerthuso (mae amlinelliad yn Atodiad D) gyda Llywodraeth Cymru. I sicrhau asesiad trwyadl a chyson o bob un o'r offer arolwg dethol, rhannwyd y meini prawf yn 4 maes ffocws: gwybodaeth ddisgrifiadol a chyd-destunol, cysyniadau wedi'u mesur, ateb anghenion y defnyddwyr, a nodweddion gweinyddol. Yna cafodd pob maes ei rannu ymhellach i feysydd mwy gronynnog, yn cynnwys alinio'r arolwg gyda'r model cymdeithasol o anabledd, y mathau o amhariadau a fesurwyd, argaeledd newidynnau hygyrch, ymysg meini prawf eraill (mae rhestr fanwl o'r mesurau yn Atodiad D). Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gydymffurfiad â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a'r gallu i gyflawni gofynion y defnyddiwr data a ddaeth i'r amlwg o ganfyddiadau PG1.

Cafodd cyfresi cwestiynau o 20 arolwg eu hadolygu i gyd, ac mae'r arolygon hyn wedi eu rhestru yn Atodiad C. Rhoddwyd cod i bob arolwg yn erbyn cyfres o feini prawf gwerthuso. Yna cynhyrchwyd y dadansoddiad ar ffurf adroddiad lle darparwyd trosolwg byr ar gyfer pob arolwg, ochr yn ochr â manteision ac anfanteision perthynol pob mesur detholedig. Cafodd y canfyddiadau lefel uchaf o'r dadansoddiad hwn eu hysgrifennu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â thrafodaeth am y prif flaenoriaethau a fyddai'n hysbysu pecyn gwaith 3 a datblygiad yr holiadur wedyn.

## 3.3. Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae canfyddiadau'r adolygiad o'r mesurau arolwg cyfredol wedi'u crynhoi isod.

### 3.3.1. Modelau anabledd

Un o'r prif ganfyddiadau ar draws yr arolygon a adolygwyd oedd bod y cysyniad o 'anabledd' wedi'i greu i raddau mawr drwy'r model bioseicogymdeithasol. Roedd un arolwg yn dilyn y model meddygol yn unig, ac nid oedd unrhyw gyfres unigol o fesurau'n adlewyrchu'r model cymdeithasol. Er enghraifft, roedd safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn asesu 'anabledd' yn bennaf drwy bresenoldeb cyflyrau iechyd hirdymor a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar weithgareddau, gan ganolbwyntio ar amhariadau unigolion yn hytrach na'r rhwystrau a welwyd. Er bod y dull hwn yn cynnig cysondeb ac aliniad â'r ddeddfwriaeth, nid yw'n llwyddo i gofnodi'r ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gallu anablu unigolion.

Ar y llaw arall, roedd yr Arolwg Cyfleoedd Bywyd yn cynnig model wedi'i ehangu drwy ofyn i ymatebwyr am rwystrau i addysg, cyflogaeth a chyfranogaeth mewn gweithgareddau cymdeithasol. Yn yr un modd, mae Arolwg Anabledd y DU yn ymgorffori cwestiynau am agweddau cymdeithasol, stigma, a rhwystrau i hygyrchedd, wedi'u halinio â'r model cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau fel hyn yn weddol brin a, lle'r oedd rhwystrau cymdeithasol wedi'u cynnwys, roedden nhw'n aml yn eilaidd i gwestiynau am amhariadau a chyfyngiadau, gan ddangos dull bioseicogymdeithasol.

Er eu bod wedi eu llunio i gofnodi cyfyngiadau mewn gweithrediadau sydd heb eu cysylltu o anghenraid â chyflyrau meddygol, mae cyfres gwestiynau The Washington Group yn dal i fesur gallu personol yn hytrach na rhwystrau amgylcheddol neu rwystrau o ran agweddau pobl. Mae'r offer arolwg hyn wedi eu tanategu gan ogwydd bioseicogymdeithosal yn hytrach na fframio model cymdeithasol.

### 3.3.2. Ymdrin ag amhariadau

Roedd gwahanol arolygon yn cofnodi amrywiaeth yr amhariadau a brofwyd gan bobl anabl ar raddfeydd gwahanol. Mae'r safon wedi'i chysoni am amhariadau yn cynnwys cyfres eang ond sylfaenol o feysydd amhariad fel golwg, clyw, symudedd, deheurwydd, dysgu, cof ac iechyd meddwl. Ond mae rhai bylchau nodedig nad yw'r mesurau hyn yn ymdrin â nhw eto. Er enghraifft, yn aml iawn nid yw niwrowahaniaeth a chyflyrau sy'n mynd a dod wedi eu cynrychioli'n dda iawn yn y mesurau hyn. Mae safon amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn cynnwys 'cymdeithasol neu ymddygiadol' fel categori sy'n cyfeirio at 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth' ac ADHD. Fodd bynnag, mae defnyddio termau fel hyn wedi derbyn beirniadaeth gynyddol gan y gymuned niwrowahanol ac ymchwilwyr sy'n canolbwyntio ar anableddau, am fod yn niwlog, hen ffasiwn a rhoi'r argraff fod pobl

yn anarferol neu nad ydynt yn iach (er enghraifft, Bottema-Beutel et al., 2021[11]), a gallai'r categori ei hun fod yn rhy gul neu ddim yn ddigon manwl gywir i gofnodi profiadau unigolion niwrowahanol yn llawn.

Yn yr un modd, cyfyngedig oedd yr ystyriaeth a roddwyd ar draws y mwyafrif o arolygon i faint mae cyflyrau sy'n mynd a dod neu sy'n gwaethygu gydag amser (fel, sglerosis ymledol neu gyflyrau iechyd meddwl penodol) yn effeithio ar fywydau dyddiol pobl. Canfuwyd bod Cyfres Fer o Gwestiynau Manylach am Weithgareddau The Washington Group wedi gwneud rhywfaint o gais i fyndi'r afael â'r cyfyngiadau hyn drwy gynnwys cwestiynau am effaith (pryder a mynegiant) a deheurwydd, ond roedd cwestiynau am flinder cronig, sensitifrwydd synhwyraidd, neu rwystrau cyfathrebu'n gyfyngedig. Roedd Arolwg Anabledd Model Sefydliad Iechyd y Byd yn cynnig ystod ehangach o ddosbarthiadau gweithrediadau, yn cynnwys cwsg a chyfranogaeth gymdeithasol, ond roedd hynny'n golygu ei fod yn llawer hirach a mwy cymhleth.

### 3.3.3. Mesur rhwystrau

Roedd y rhan fwyaf o'r arolygon a adolygwyd yn gyfyngedig yn eu gallu i gofnodi data am rwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol. Dim ond 2 offeryn o'r rhai a adolygwyd, yr Arolwg o Gyfleoedd Bywyd ac Arolwg Anabledd y DU, a ofynnodd yn uniongyrchol i ymatebwyr am y rhwystrau roedden nhw'n eu hwynebu o ran cael gafael ar wasanaethau, cymryd rhan mewn cyflogaeth neu gyfranogi mewn cymdeithas.

Roedd yr Arolwg o Gyfleoedd Bywyd yn gofyn i gyfranogwyr a oedden nhw'n cael anawsterau cael gafael ar wasanaethau iechyd ac i ddweud a oedd hyn wedi'i achosi gan staff amharod i helpu, adeiladau anhygyrch neu ddiffyg trafnidiaeth. Yn yr un modd, gofynnodd Arolwg Anabledd y DU am bethau sy'n eu rhwystro rhag defnyddio mannau cyhoeddus, cael gafael ar gynhyrchion a gwasanaethau, a phryderon am agweddau cymdeithasol. Mae'r cwestiynau hyn yn cynnig mewnwelediadau manylach am y ffactorau allanol y gallai unigolion anabl eu hwynebu  sy'n fwy cyson gyda'r model cymdeithasol o anabledd. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achosion hyn, roedd y mesurau'n tueddu i drin rhwystrau fel pynciau ategol yn hytrach na'u hintegreiddio nhw'n llawn i mewn i'r cysyniad sylfaenol o anabledd. Mae hyn yn awgrymu bod bwlch yng nghynllun yr arolwg a bod angen rhoi mwy o bwyslais ar rwystrau cymdeithasol fel elfen ganolog yn hytrach na chydran ffiniol wrth ddeall 'anabledd'.

[11] Bottema-Beutel, K., Kapp, S. K., Lester, J. N., Sasson, N. J., a Hand, B. N. (2021). Avoiding ableist language: suggestions for autism researchers. Autism in adulthood: challenges and management, 3(1), 18–29.

### 3.3.4. Fframio ieithyddol

Canfu'r adolygiad bod y rhan fwyaf o arolygon yn mabwysiadu naill ai iaith y model bioseicogymdeithasol neu iaith y model meddygol i drafod pobl anabl ac amhariadau. Roedd llawer o arolygon yn osgoi defnyddio'r gair 'anabledd' yn uniongyrchol ac, yn hytrach, roedd yn well ganddynt ofyn am 'gyflyrau iechyd tymor hir' neu 'gyfyngiadau ar weithredoedd'. Er y gallai'r dull hwn ostwng stigma ac annog datgeliad ymysg y rhai nad ydynt yn hunanddiffinio fel pobl anabl, mae hefyd yn cynyddu'r risg o ddadbersonoli profiadau byw pobl anabl (Kafer, 2013[12]).

Roedd rhai offerynnau'n defnyddio iaith sydd yn awr yn cael ei hystyried yn hen ffasiwn neu'n ansensitif. Er enghraifft, roedd Astudiaeth Hydredol o Heneiddio Lloegr yn cyfeirio at "wendid corfforol", sef term sy'n debygol o gael ei ystyried yn derm difrïol gan grwpiau sy'n eirioli dros bobl anabl am atgyfnerthu ystrydebau oedraniaethol ac wedi eu meddygoli. Roedd arolygon eraill yn defnyddio iaith oedd yn cymysgu amhariadau gyda symptomau meddygol sydd bob amser yn gostwng y ffocws ar rwystrau a chyfranogaeth gymdeithasol. Ar y llaw arall, roedd cyfresi cwestiynau gan The Washington Group wedi eu llunio i ddefnyddio iaith syml, hygyrch sy'n canolbwyntio ar anawsterau gweithredu yn hytrach na diagnosis. Fodd bynnag, nid oedd yr offerynnau hyn hyd yn oed yn mabwysiadu iaith y model cymdeithasol yn llawn am eu bod yn pwysleisio anawsterau unigol heb gyfeiriad eglur at strwythurau cymdeithasol.

Felly, mae lle o hyd i ddatblygu cwestiynau arolwg sy'n defnyddio iaith gynhwysol, gadarnhaol wedi'i halinio â'r model cymdeithasol, yn arbennig drwy fframio cwestiynau mewn ffyrdd sy'n cydnabod effeithiau anablu amgylcheddau anhygyrch ac agweddau gwaharddol.

### 3.3.5. Hygyrchedd a dulliau gweinyddu

Roedd y dull o weinyddu'r arolwg a nodweddion hygyrchedd yn amrywio ar draws yr offerynnau arolwg a adolygwyd. Roedd llawer o'r arolygon wedi eu llunio'n wreiddiol ar gyfer fformatau wyneb yn wyneb wedi eu gweinyddu gan y cyfwelydd (mae'r enghreifftiau'n cynnwys safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a'r Arolwg Cyfleoedd Bywyd) a dim ond yn fwy diweddar y maen nhw wedi cael eu haddasu i'w gweinyddu dros y ffôn, ar-lein neu i'w cwblhau eu hunain.

Canfuwyd bod arolygon sy'n darparu fformatau hygyrch amgen yn brin. Darparodd Arolwg Anabledd y DU a'r Arolwg Anabledd a Gweithredoedd Blynyddol fersiynau hawdd eu darllen a fersiynau y gellid eu cwblhau yn y Gymraeg a BSL. Fodd bynnag, ar draws nifer o arolygon, ychydig iawn o dystiolaeth oedd o ystyriaeth

[12] Kafer, A. (2013). Feminist, Queer, Crip. Indiana University Press.

systematig o fformatau hygyrch y tu hwnt i gwblhau wyneb yn wyneb neu ar-lein safonol. Mae hyn yn cyflwyno rhwystr bosibl i gynhwysiant, yn arbennig i bobl anabl a allai wynebu heriau cyfathrebu, synhwyraidd neu wybyddol. Yn ogystal, roedd llawer o arolygon yn caniatáu ymatebion trwy ddirprwy i blant ac unigolion sy'n methu cwblhau'r arolwg yn annibynnol. Er ei fod yn angenrheidiol mewn rhai achosion ad hoc, mae ansicrwydd i ba raddau y mae adrodd trwy ddirprwy'n cipio profiadau byw neu oddrychol unigolion anabl, yn enwedig mewn perthynas â lles emosiynol, ymreolaeth a rhwystrau canfyddedig.

### 3.3.6. Plant a phobl ifanc

Dim ond yn ymylol yr ymdriniwyd â phrofiadau plant anabl a phobl ifanc mewn llawer o'r offerynnau a adolygwyd. Roedd y mwyafrif o arolygon yn dibynnu ar y materion trwy ddirprwyaeth oedolyn i gasglu gwybodaeth am gyflyrau iechyd neu amhariadau plant. Roedd Modiwl Gweithredu Plant The Washington Group-UNICEF yn sefyll allan fel esiampl brin o offeryn sydd wedi'i lunio'n benodol i gofnodi anawsterau gweithredol plant drwy adrodd gan y bobl sy'n gofalu amdanynt. Roedd hyn yn ymdrin â meysydd fel y golwg, y clyw, symudedd, cyfathrebu a chyfranogaeth gymdeithasol, ac yn defnyddio opsiynau ymateb graddedig sy'n addas ar gyfer arolygon cartrefi wedi eu seilio ar y boblogaeth.

Roedd arolwg SEND Futures hefyd yn cynrychioli dull mwy cynhwysol, yn gofyn i bobl ifanc yn uniongyrchol am y cymorth yr oedden nhw'n ei dderbyn mewn lleoliadau addysg a'u hangenion sydd heb eu hateb. Fodd bynag, mae ei ffocws penodol ar addysg yn cyfyngu ar ei allu i fesur 'anabledd' yn ehangach a chyfranogaeth y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Yn gyffredinol, mae bwlch amlwg yn parhau mewn offerynnau arolwg sy'n cofnodi'n ystyrlon beth yw safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc anabl ar draws y meysydd niferus mewn bywyd.

### 3.3.7. Ystyriaethau ymarferol

Mae thema bellach a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad yn ymwneud ag ystyriaethau ymarferol defnyddio mesurau a adolygwyd o fewn arolygon graddfa fawr o'r boblogaeth gyffredinol, fel Arolwg Cenedlaethol Cymru. Roedd offerynnau byr, fel safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer mesur anabledd a Dangosydd Byd-eang Cyfyngiadau ar Weithrediad (GALI), yn sefyll yn amlwg oherwydd eu bod yn fyr ac yn hawdd eu hintegreiddio i mewn i arolygon oedd yn bodoli'n barod, er bod eu cyfyngiadau cysyniadol yn eu gwneud yn llai defnyddiol ar gyfer mesur yr ystod lawn o rwystrau a wynebir gan bobl anabl.

Ar y llaw arall, roedd offerynnau fel yr Arolwg o Gyfleoedd Bywyd, Arolwg Anabledd Model Sefydliad Iechyd y Byd a Chyfres Estynedig The Washington Group yn cynnig data mwy cyfoethog a gydag elfennau mwy cynnil, ond cost hynny oedd arolwg hirach a mwy o faich ar yr ymatebwr. Mae'r arolygon hyn yn debygol o gymryd amser mawr i'w cwblhau, gan olygu nad ydyn nhw'n ymarferol i'w cynnwys mewn arolygon pwrpas cyffredinol yn eu fformat cyfredol.

Mae'r hyn a ganfuwyd o Becyn Gwaith 2 yn awgrymu, er bod rhai mesurau cyfredol yn alinio'n rhannol â'r model cymdeithasol o anabledd, byddai'r mwyafrif yn gofyn am addasiad sylweddol i adlewyrchu eu hegwyddorion yn llawn ac i ateb anghenion defnyddwyr data. Bydd angen i unrhyw integreiddio cwestiynau wedi'u hysbysu gan y model cymdeithasol yn y dyfodol i mewn i'r arolygon prif ffrwd ystyried aliniad cysyniadol a sut y gall mesurau o'r fath gael eu gweithredu'n ymarferol heb gyfaddawdu hygyrchedd, eglurder neu ansawdd y data.

# 4. Pecyn gwaith 3: ymgynghori â phobl anabl

## 4.1. Nodau

Arweiniwyd Pecyn Gwaith 3 (PG3) gan Ganolfan Ymgynghori (CfD) NatCen. Roedd yn canolbwyntio ar wneud ymchwil ymgynghori er mwyn deall safbwyntiau pobl anabl ar sut y dylai gwybodaeth am amhariadau gael ei chasglu a pha fath o gwestiynau y dylid eu gofyn mewn arolygon. Y nodau penodol oedd:

- deall sut mae pobl anabl yng Nghymru'n meddwl am y cysyniadau 'amhariad' ac 'anabledd', a pherthnasedd y syniadau hyn i'w profiadau personol
- rhannu gwybodaeth am y model meddygol, y model cymdeithasol, a sut mae cwestiynau arolwg yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru
- casglu sylwadau cyfranogwyr am safonau anabledd wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, cwestiynau wedi'u cysoni am amhariadau, a chwestiynau arolwg wedi'u halinio â'r model cymdeithasol, a'r cyfaddawdu sy'n gysylltiedig â phob un

## 4.2. Trosolwg o'r dulliau

Roedd y cam hwn o'r ymchwil yn cynnwys 2 weithdy ymgynghori ar-lein gyda phobl anabl ledled Cymru. I sicrhau'r hygyrchedd gorau, rhannwyd pob gweithdy'n 2 segment hanner diwrnod ac roedd y deunyddiau i gyd ar gael mewn BSL a fformatau hawdd eu darllen. Anogwyd y cyfranogwyr hefyd i fynychu gyda rhywun arall yn gwmni er mwyn rhoi cymorth iddynt yn ystod y digwyddiad lle bo raid, a'u hannog i roi gwybod am unrhyw anghenion cymorth ychwanegol cyn y gweithdy.

Mae dulliau'r ymchwil ymgynghori'n rhoi'r amser, y wybodaeth a'r amodau angenrheidiol i'r cyfranogwyr i ymwneud â phwnc yn fanwl. Fel arfer, mae'r prosesau hyn yn digwydd dros gyfnodau estynedig, er bod yr un egwyddorion cynllunio wedi eu defnyddio yn y prosiect hwn ond gyda segmentau hanner diwrnod byrrach. Darperir deunyddiau ar bwnc penodol i sicrhau bod yr un wybodaeth gytbwys ar gael i'r cyfranogwyr i gyd i hysbysu eu sylwadau (yn yr achos hwn, am y model meddygol a'r model cymdeithasol o anabledd, ac arolygon). Mae hyrwyddwyr wedi'u hyfforddi'n cefnogi cyfranogwyr i drafod y wybodaeth hon a ffurfio barn am y pwnc. Mae ymchwil ymgynghori'n rhoi cipolwg i ni ar farn ystyriol pobl am broblemau cymhleth sydd wedi eu gyrru gan werth ac sydd yn aml yn gofyn am gyfaddawdu er mwyn eu datrys.

Trwy ddefnyddio dulliau ymghynghori ar y cam hwn o'r ymchwil, gallem recriwtio ystod amrywiol o bobl anabl, rhannu gwybodaeth gymhleth ac, mewn rhai achosion, wybodaeth anghyfarwydd (am fodelau ac arolygon anabledd), a rhoi'r amser a'r lle iddyn nhw ddod i gasgliadau ystyrlon. Cynhyrchodd y gweithdai sgyrsiau manwl a

myfyriol, gan roi mewnwelediad i werthoedd a rhesymeg cyfranogwyr na fyddent o bosib wedi eu cofnodi drwy ddulliau eraill o ymgysylltiad.

Cyfunodd y CfD gyda recriwtwyr trydydd parti, a fabwysiadodd ymgyrch recriwtio dair rhan: gan ddefnyddio eu panel estynedig, gweithio gyda chwmnïau recriwtio lleol, ac ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector. Defnyddiwyd cwotâu meddal i sicrhau bod pobl gyda gwahanol fathau o amhariadau'n cael eu cynrychioli (Atodiad E). Cymerodd cyfanswm o 40 cyfranogwr ran yn yr ymchwil ymgynghori, gyda 20 o bobl wedi'u dyrannu i bob gweithdy. Mae'n beth cyffredin i gyfranogwyr ymadael rhwng sesiynau mewn ymchwil ymgynghori. Fodd bynnag, dim ond un cyfranogwr o sesiwn diwrnod 1 oedd heb fynd i sesiwn diwrnod 2.

Roedd y cyfranogwyr yn mynd yn ôl ac ymlaen rhwng sesiynau llawn (y criw cyfan o 20 neu 19 cyfranogwr mewn un ystafell rithwir) ac ystafelloedd trafodaeth grŵp (trafodaethau grŵp llai gyda 3 i 5 cyfranogwr, gyda chymysgedd o amhariadau). Cafodd yr ystafelloedd trafodaeth grŵp eu goruchwylio gan CfD a hyrwyddwyr llawrydd (oedd yn dilyn canllawiau pwnc wedi eu drafftio gan y CfD; Atodiad F). Ni ddaeth aelodau o Lywodraeth Cymru i'r gweithdai.

Ar y diwrnod cyntaf, roedd y cyfranogwyr yn cymharu'r cysyniad o 'amhariad' ac 'anabledd' ac yn trafod manteision ac anfanteision y 2 safon graidd wedi'u cysoni ar gyfer anabledd gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Ar ddiwrnod 2, ymgynghorodd y cyfranogwyr ar gwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (Atodiad A) a drafftiwyd enghraifft o gwestiwn wedi'i hysbysu gan y model cymdeithasol i'w ddefnyddio yn y gweithdai (Atodiad G).

Mae'r canfyddiadau sydd wedi eu crynhoi yn yr adran ddilynol yn defnyddio data o nodiadau hyrwyddwyr o fewn sesiynau a'u myfyrdodau ar ôl sesiynau, yn ogystal â thrawsgrifiadau a recordiadau sain y gweithdai. Gan ddefnyddio rhaglen bwrdd gwyn ar-lein, aeth y CfD ati i godio'r canfyddiadau yn gasgliadol, gan ddefnyddio themâu a phenawdau o'r ymarferion gweithdy; ac yn anwythol, drwy ddadansoddiad agos o'r nodiadau a'r trawsgrifiadau. Am mai nifer bychan o ymgynghorwyr sydd mewn ymchwil ymgynghori, nid oes modd gwneud dadansoddiad meintiol neu ystadegol. Pennwyd y prif safbwyntiau a themâu neu'r rhai cyffredin, ond nid yw'r prif ganfyddiadau wedi eu hesbonio'n feintiol, ac ni ellir eu gwneud yn rhai cyffredin i boblogaeth ehangach Cymru. Am yr un rheswm, ni chafodd safbwyntiau unigolion neu grwpiau penodol (wedi'u diffinio gan y math o amhariad neu'r nodweddion demograffig) eu dadansoddi ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 4.3. Crynodeb o'r canfyddiadau

Trwy'r broses sydd wedi ei hamlinellu uchod, nodwyd y prif ganfyddiadau. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r themâu cyffredinol a nodwyd ar draws y gweithdai cyfan.

- **Iaith:** mynegodd y cyfranogwyr ystod o safbwyntiau am briodoldeb iaith sy'n berthnasol i anabledd, a sut maen nhw'n berthnasol i dermau fel 'amhariad' a 'bod yn anabl'. Er nad oedd consensws ynghylch pa derminoleg y byddent yn ei dewis, roedd rhai cyfranogwyr yn tynnu sylw at hoffter am eiriau fel 'anghenion' neu 'gyflwr' yn hytrach nag 'amhariad' a 'bod yn anabl'.
- **Cymharedd:** roedd llawer o gyfranogwyr yn cael trafferth deall y syniad o 'gymharedd' data, gan ei gysylltu'n aml iawn â defnyddio iaith syml, glir a hygyrch mewn cwestiynau arolwg. Yn yr un modd, roedd y cyfaddawdau y cyfeiriwyd atynt yn y gweithdai rhwng cymharedd ac iaith gynhwysol yn cael eu camddehongli ar brydiau.
- **Cynhwysiant:** roedd y mwyafrif o gyfranogwyr yn barnu bod cynhwysiant yn bwysicach na chymharedd wrth lunio cwestiynau arolwg. Roedden nhw'n diffinio cynhwysiant fel ansawdd ieithyddol sy'n berthnasol i'r iaith a ddefnyddir mewn cwestiynau arolygon, a hefyd fel categori cysyniadol, yn sicrhau bod cwestiynau arolygon yn ymwneud ag amrywiaeth eang o amhariadau a phrofiadau.
- **Safonau craidd wedi'u cysoni:** nododd y cyfranogwyr nifer o broblemau ac anfanteision gyda safonau 'craidd' wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (sy'n mesur salwch a chyflyrau iechyd hirdymor, a chyfyngiadau ar weithrediadau). Roedden nhw'n tynnu sylw at y ffaith y gallai'r rhain fod yn anodd eu hateb, ac yn waharddol.
- **Safonau amhariadau:** roedd hi'n well gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau na'r 2 safon 'graidd' wedi'u cysoni.
- **Cwestiwn sampl y model cymdeithasol:** ymatebodd nifer o'r cyfranogwyr yn gadarnhaol i'r syniad o'r cwestiwn sampl wedi'i seilio ar y model cymdeithasol ond roedden nhw'n cael y cwestiwn drafft yn rhy gymhleth a dryslyd. Roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr yn ffafrio gofyn y cwestiwn model cymdeithasol sampl ar yr un pryd â'r cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau.

Mae'r canfyddiadau hyn yn darlunio myfyrdodau cysyniadol y cyfranogwyr am syniadau fel cynhwysiant a chymharedd, a'u hasesiadau o wahanol gwestiynau arolwg, y rhai sy'n bodoli (y safonau wedi'u cysoni a'r cwestiwn) a'r rhai arfaethedig (y cwestiwn sydd wedi'i hysbysu gan y model cymdeithasol). Mae canfyddiadau manylach wedi eu strwythuro isod, gan symud o fyfyrdodau mwy cysyniadol i fyfyrdodau mwy ymarferol.

### 4.3.1. Iaith

Trwy gydol y gweithdai, rhannodd y cyfranogwyr eu sylwadau am yr iaith a ddefnyddir i drafod amhariadau a'r syniad o fod yn anabl. Archwiliodd ymchwilwyr farn cyfranogwyr drwy ofyn iddyn nhw'n uniongyrchol am eu dealltwriaeth o dermau fel 'bod yn anabl', 'anabledd' ac 'amhariadau' a thrwy ofyn iddyn nhw fyfyrio ar y ffordd y mae cwestiynau arolwg penodol wedi eu geirio. Soniwyd am iaith mewn trafodaethau'n ymwneud â'r ffordd yr oedd cyfranogwyr yn eu diffinio eu hunain, a sut roedden nhw'n deall ac yn gweld amrywiol gwestiynau arolwg.

Mynegodd y cyfranogwyr amrywiaeth o sylwadau am y ffordd yr oedden nhw'n hoffi cyfeirio at eu 'hamhariadau' neu eu 'hanableddau' eu hunain. Mewn llawer o achosion, roedd eu dealltwriaeth wedi'i alinio â'r model cymdeithasol, am fod llawer o gyfranogwyr yn disgrifio'r gwahaniaeth rhwng bod yn anabl a bod ag amhariadau. Fodd bynnag, soniodd rhai cyfranogwyr hefyd bod yn well ganddynt dermau fel 'anghenion', 'anhawsterau' neu 'gyflwr' yn hytrach nag amhariad. Nododd un cyfranogwr:

> "Byddwn i'n dweud bod gen i gyflwr, a dw i'n meddwl bod hwnnw'n air llawer gwell i'w ddefnyddio nag anabledd neu amhariad, dau air sydd ag ystyron negyddol".

Roedd gan y mwyafrif o gyfranogwyr farn negyddol am y termau 'anabledd' a 'bod yn anabl', gan gysylltu'r rhain gyda chyfyngiadau a chanfyddiadau cymdeithasol negyddol. Dywedodd un cyfranogwr eu bod yn cysylltu'r term 'anabl' gyda "phobl yn siarad dros eu pennau" a rhoddwyd yr esiampl a ganlyn:

> "Os byddaf allan gyda fy ngŵr ac mae'n dweud fy mod yn anabl, maen nhw'n siarad dros fy mhen ac yn siarad gyda'm gŵr, ond i mi maen nhw'n gofyn y cwestiynau".

Ond roedd yn well gan rai'r term 'anabl', oherwydd roedden nhw'n teimlo ei fod yn tynnu sylw at agweddau cymdeithasol anabledd, yn arbennig y ffyrdd y mae cymdeithas yn creu rhwystrau.

> "I mi, mae anabledd yn ymwneud fwy â chymdeithas… byddai'n well gen i ddweud fy mod yn anabl na dweud bod gen i amhariadau. Oherwydd rwy'n teimlo bod dweud bod gen i amhariadau'n gwneud i mi swnio fel petai'r bai arnaf i, finnau a fy mhroblem…ond rwy'n teimlo bod dweud fy mod yn anabl yn rhoi mwy o'r cyfrifoldeb ar gymdeithas a'r rhwystrau sydd ganddynt [o ran] hygyrchedd i'w cywiro."

Trwy gydol y trafodaethau, roedd rhai cyfranogwyr yn defnyddio'r term "amhariad meddyliol". I lawer o bobl, dim ond cysylltiadau â'r gwybyddol a dysgu oedd gan y term hwn, ond i eraill roedd ganddo gysylltiadau â'r gwybyddol ac iechyd meddwl.

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn cynnig myfyrdodau ar y ffordd y gallai dealltwriaeth y boblogaeth ehangach o iaith fod yn wahanol i ystyr neu fwriadau'r model cymdeithasol. Er enghraifft, er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr wedi nodi eu bod yn deall sut roedd y term 'rhwystrau' yn cael ei ddefnyddio yn y gweithdai, roedd rhai'n awgrymu bod y gair yn rhy gymylog i gael ei ddeall yn llawn gan y cyhoedd yn gyffredinol. Roedden nhw'n credu y byddai pobl hŷn yn arbennig yn cysylltu 'rhwystrau' â rhwystrau corfforol yn unig, ac yn anwybyddu bodolaeth rhwystrau amgylcheddol, sefydliadol ac o ran agweddau.

### 4.3.2. Cymharedd

Rhoddodd y cyfranogwyr amrywiaeth o safbwyntiau am bwysigrwydd cymharedd wrth lunio cwestiynau arolwg. Er bod rhai cyfranogwyr yn deall gwerth cael cwestiynau arolwg sy'n cynhyrchu data cymaradwy, roedd eraill yn cael trafferth deall y cysyniad o gymharedd data, i beth mae'n cael ei ddefnyddio, a'r hyn y gall ei gyflawni. Er enghraifft, roedd llawer o gyfranogwyr yn cymryd 'cymharedd' i olygu 'eglurder'. Pan oedden nhw'n trafod pwysigrwydd cymharedd, roedden nhw'n tueddu i'w gysylltu â chwestiynau syml neu glir. Dywedodd un cyfranogwr "os [yw cwestiwn wedi'i] ysgrifennu mewn ffordd fwy syml, mae'n hawdd ei gymharu" tra bod un arall wedi dweud:

> "Os ydych eisiau data cymaradwy go iawn, mae angen i chi ddefnyddio iaith gynhwysol yn y lle cyntaf oherwydd fyddwch chi ddim yn gallu cyrraedd pawb os nad ydych yn defnyddio iaith hygyrch a hawdd ei deall gan bob grŵp o bobl".

Roedd cyfranogwyr eraill yn cysylltu 'cymharedd' gyda "chael data cywir". Mae'r myfyrdodau hyn yn dangos bod gan y cysyniad o gymharedd ystyron ychydig bach yn wahanol i gyfranogwyr nag sydd ganddo i wneuthurwyr polisi.

Wrth drafod safonau 'craidd' wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a'r cwestiwn model cymdeithasol sampl, nid oedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo bod cymharu data dros amser i fesur newidiadau mewn polisi yng Nghymru, neu ar draws y DU i gymharu gweithrediad polisi mewn gwahanol wledydd, yn berthnasol. Mewn rhai achosion, roedd yr amheuaeth yma'n datgelu mwy o gamddealltwriaeth am ystyr ac arwyddocâd cymaroldeb y data. Er enghraifft, roedd rhai'n dweud eu bod yn hoffi'r syniad bod Cymru'n gwneud rhywbeth gwahanol i weddill y DU, ac y dylai Llywodraeth Cymru roi'r flaenoriaeth i bobl Cymru, felly nid oedd cymharu data gyda'r DU yn bwysig, Roedd eraill yn teimlo bod cymdeithas yn newid yn gyflym ac felly roedden nhw'n gofyn pa mor bwysig yw cymharu data dros amser, oherwydd efallai nad yw gwybodaeth hŷn yn berthnasol.

Er nad oedd nifer o gyfranogwyr yn gwerthfawrogi buddion cael data cymaradwy (oedd wedi ei ddiffinio mewn ffyrdd amrywiol, ac mewn rhai achosion, yn anghywir), roedd rhai'n dweud mai dim ond cymharu data am rwystrau oedd werth ei wneud (o gwestiwn wedi'i alinio â'r model cymdeithasol). Yn yr un modd, roedd eraill yn

meddwl nad oedd pwynt mewn cymharu data am fesurau hen ffasiwn (fel y safonau wedi'u cysoni).

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn cynnig sylwadau cymysg am bwysigrwydd cymharedd. Er bod rhai cyfranogwyr yn ei weld yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu cwestiynau arolwg, i lawer o bobl, roedd y cyfaddawd rhwng cymharedd ac iaith gynhwysol yr oedd hyrwyddwyr yn gofyn yn uniongyrchol amdano, yn drysu pobl.

### 4.3.3. Cynhwysiant

Roedd y mwyafrif o gyfranogwyr yn barnu bod cynhwysiant yn bwysicach na chymharedd wrth lunio cwestiynau arolwg. Ond, cyfeiriwyd at 'gynhwysiant' mewn ffyrdd gwahanol ac mewn cyd-destunau gwahanol. Cafodd ei ddefnyddio i ddisgrifio cwestiynau arolwg ac opsiynau ateb oedd yn cofnodi amrywiaeth o brofiadau anablu ac amhariadau. Roedd hefyd yn ffordd law-fer o ddweud 'iaith gynhwysol'.

I rai cyfranogwyr, roedd cynhwysiant yn ymwneud â sicrhau bod gwahanol amhariadau neu brofiadau o fod yn anabl yn cael eu cofnodi mewn cwestiynau arolwg. Roedden nhw'n barnu bod y safonau craidd wedi'u cysoni'n waharddol am nad oedden nhw'n cofnodi profiadau pobl gydag amhariadau sy'n mynd a dod, pobl niwrowahanol, rheiny sydd ar feddyginiaeth, neu bobl yr oedd eu hamhariad wedi bod yn effeithio arnynt am lai na 12 mis, fel y disgrifir isod. Fel y dywedodd un cyfranogwr wrth esbonio pam y byddai'n anodd dewis ateb i'r cwestiynau hyn:

> "Rydw i'n niwrowahanol. Felly, lle ydw i'n perthyn? Nid cyflwr iechyd meddwl sydd gen i yn fy marn i, a dydw i ddim yn sal…Rydw i'n wynebu llawer o rwystrau ond… mae hynny'n rhan o bwy ydw i".

I gyfranogwyr eraill, roedd cynhwysiant yn ymwneud â defnyddio iaith gynhwysol yng ngeiriad cwestiynau arolwg penodol. Roedden nhw'n teimlo y byddai geiriad sarhaus neu hen ffasiwn (er enghraifft, defnyddio'r term 'anhwylder') yn gwneud pobl yn amharod i ymateb i gwestiynau. Roedden nhw'n teimlo bod gan y termau hyn ystyron negyddol – er enghraifft, y gallai person gydag anhwylder fod yn dreisgar neu'n beryglus. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

> "[Rydw i'n] fwy tebygol o roi tic mewn bocs nad yw'n dweud 'anhwylder', oherwydd dydw i ddim yn teimlo and oes hwyl arnaf i. Dydy awtistiaeth ddim yn anhwylder… rydych chi'n clywed bod awtistiaeth ar rywun [ac rydych yn meddwl] yn syth eu bod nhw'n mynd i'ch lladd chi".

Yn yr un modd, roedd llawer o gyfranogwyr yn gwrthwynebu i'r ffordd yr oedd cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn cysylltu'r gair 'ymddygiadol' gydag 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth', gan ddweud y byddai hyn yn eu gwneud nhw'n llai tebygol o ddewis yr opsiwn hwn. Roedd y cyfranogwyr hyn yn poeni y byddai dewis ymateb sy'n awgrymu 'problemau ymddygiadol yn gallu "cyfyngu ar gyfleoedd" (yn enwedig yn ymwneud â chyflogaeth) neu'n awgrymu bod ymatebwr yn "berson drwg".

Fodd bynnag, cafwyd barnau gwrthgyferbyniol ynghylch iaith gynhwysol. Roedd lleiafrif o gyfranogwyr yn teimlo bod y syniad o iaith gynhwysol yn cael ei gymryd yn rhy bell – bod terminoleg dderbyniol yn newid yn rhy gyflym, wedi ei yrru gan y cenedlaethau iau, ac na all y cwestiynau arolwg fod yn berthnasol i bawb. Er enghraifft, nid oedd rhai cyfranogwyr yn sylweddoli bod y term ‘anhwylder’ (a ddefnyddir yng nghwestiwn wedi’i gysoni am amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yng nghyd-destun ‘anhwylder sbectrwm awtistiaeth’) yn cael ei ystyried yn hen ffasiwn gan bobl eraill, ac roedden nhw wedi ymateb gyda syndod pan godwyd hyn yn y trafodaethau. “Pwy sy’n dweud ei fod yn hen ffasiwn?” gofynnodd un cyfranogwr. A dywedodd un arall:

> “Mae’r ffaith eu bod nhw’n newid y derminoleg sy’n dderbyniol ar gyfer popeth drwy’r amser, mae’n mynd yn wirion bost….rydych chi’n brwydro i agor eich ceg y dyddiau hyn.”

Er mai lleiafrif o’r cyfranogwyr oedd wedi sôn am y syniad bod iaith yn mynd yn rhy gymhleth, a bod pobl yn teimlo wedi eu sarhau yn llawer rhy hawdd, roedd hyn yn nodwedd bwysig o’r drafodaeth mewn rhai grwpiau penodol.

#### 4.3.4. Safonau craidd wedi’u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth

Dangoswyd safonau wedi’u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth i’r cyfranogwyr mewn perthynas â salwch a chyflwr iechyd sy’n para’n hir a gweithgareddau o ddydd i ddydd a gofynnwyd iddynt am eu meddyliau cychwynnol. I ddechrau, dywedodd nifer o’r cyfranogwyr y byddent yn cael y cwestiynau hyn yn hawdd eu hateb. Fodd bynnag, pan fyfyriodd y cyfranogwyr hyn ar y cwestiynau a’u trafod nhw gyda phobl eraill, dechreuodd nifer adnabod llawer o anfanteision, gan ddod i’r casgliad eu bod nhw’n anodd eu hateb ac yn waharddol.

Roedd y mwyafrif o’r cyfranogwyr yn meddwl bod y cwestiynau a’r opsiynau ateb yn rhy simplistig, ac nid oeddent yn cofnodi profiadau cymhleth bod yn anabl. Am fod y cwestiynau’n gofyn i bobl grynhoi effeithiau eu hamhariadau drwy ymateb i gwestiwn ‘ie’ neu ‘na’, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y bydden nhw’n anodd eu hateb i bobl gydag amhariadau sy’n mynd a dod, y rhai sy’n cymryd meddyginiaeth, neu’r rhai oedd yn profi amhariad nad oeddent yn sicr am faint y byddai’n para. Roedden nhw’n dweud nad oedd y cwestiynau’n cofnodi elfennau cynnil a natur newidiol eu profiad, ac y gallai eu hatebion i’r cwestiynau newid, yn dibynnu sut yr oeddent yn teimlo ar y diwrnod yr oedden nhw’n ateb.

I rai cyfranogwyr, yr iaith waharddol, negyddol a goddrychol oedd yn gwneud y cwestiynau’n anodd eu hateb. Er enghraifft, cyfeiriodd cyfranogwyr at y ffaith na fyddai pobl niwrowahanol yn eu dosbarthu eu hunain o bosib fel pobl gyda chyflwr ‘iechyd meddwl’ neu gyda ‘salwch’, sef yr iaith a ddefnyddiwyd yn y ddau gwestiwn. Roedd eraill yn teimlo bod y geiriau ‘salwch’ a ‘chyflwr’ yn awgrymu bod amhariad yn rhywbeth i gael ei wella.

Ystyriwyd bod y trothwy 12 mis yn anwybyddu'r bobl hynny sydd efallai, am amrywiol resymau, wedi bod yn sal am lai na 12 mis. Ar gyfer y cwestiwn gweithgareddau o ddydd i ddydd, dywedodd y cyfranogwyr bod natur oddrychol yr ymatebion 'ychydig bach' neu 'lawer' yn golygu bod pobl yn ansicr am eu hunion ystyr. Fel y dywedodd un cyfranogwr: "Sut ydych chi'n mesur llawer o'i gymharu ag ychydig?" I rai pobl, roedd y dehongliad a'r meddwl oedd yn ofynnol, a'r risg o gamfarnu, yn gwneud y cwestiwn yn un dryslyd a blinderus ac yn un sy'n anablu.

Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr bod fframio cyffredinol y safonau craidd, yn gwneud iddyn nhw ystyried effeithiau eu hamhariadau, mewn ffordd a oedd yn anghyfforddus, ac yn achosi trawma hyd yn oed. Dywedodd gofalwr a oedd yn bresennol bod y person maen nhw'n ei gefnogi wedi mynegi "pryder….[am] y cwestiynau". Yn ôl cyfranogwr arall:

> "Rydych yn treulio eich amser yn ceisio bod yn iach ac yn bod yn gadarnhaol am y peth…ac yna rydych yn gorfod [cwblhau'r] ffurflen hon…ac mae mor negyddol i gyd."

Ymatebodd rhai cyfranogwyr yn wael i'r cwestiynau oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â bod yn anabl, a'u hofn o feirniadaeth. Dywedodd un cyfranogwr:

> "Rwy'n ei weld fel rhywbeth hollol negyddol ac rwy'n teimlo bod cymdeithas yn fy labelu drwy ateb y cwestiwn yn y ffordd maen nhw'n disgwyl mi ei ateb."

Ar y llaw arall, nid oedd rhai cyfranogwyr yn diffinio fel pobl anabl ac roedden nhw'n gwrthwynebu'r cwestiynau ar sail hynny.

#### 4.3.5. Cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth

Ymatebodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn fwy cadarnhaol i'r cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, gan ei alw'n "ysgafnach" na'r safonau wedi'u cysoni craidd. Dywedodd y cyfranogwyr bod y cwestiwn hwn yn haws ei gwblhau na'r safonau eraill ac yn darparu dealltwriaeth fwy realistig o sut y gall person gael ei effeithio gan amhariad. Roedd rhai hefyd yn teimlo ei fod yn defnyddio iaith fwy sensitif na'r safonau eraill.

Ystyriwyd bod y cwestiwn yn haws ei ddeall a'i ateb am ei fod yn cynnwys ystod ehangach o ymatebion na'r safonau wedi'u cysoni ac, mewn rhai achosion roedd yn rhoi esiamplau i egluro ystyr yr opsiynau ymateb. Mae'r opsiynau ymateb ar gyfer y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau'n cynnwys 'Arall', gan adael i bobl hunanddiffinio amhariad sydd heb ei gofnodi yn yr opsiynau eraill. Mae'r cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau hefyd yn caniatáu i bobl ddewis 'yr holl atebion sy'n berthnasol' yn hytrach na'u cyfyngu nhw i un. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y byddai'r nodweddion hyn yn galluogi casgliad manwl a data mwy cywir sy'n adlewyrchu profiadau cymhleth pobl anabl, yn hytrach na'r safonau craidd wedi'u cysoni, sy'n gostwng yr ymatebion i 'ie' neu 'na'. Wedi dweud hynny, i rai

cyfranogwyr, roedd y lefel uchel o fanylder, a'r dull mwy agored, llai deuaidd, yn teimlo'n llethol, yn eu blino ac yn anodd ei ddeall.

Roedd yn well gan rai cyfranogwyr yr ymadrodd 'cyflyrau iechyd' na 'chyflyrau' gan ddweud ei fod yn teimlo'n fwy cyfeillgar. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn dal i deimlo bod y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau'n defnyddio iaith hen ffasiwn a sarhaus gydag ystyron negyddol. Roedden nhw'n meddwl bod termau fel 'cyflyrau iechyd' a 'salwch' yn sylfaenol negyddol, a bod cyfuno 'iechyd' gyda 'chyflyrau' yn gwahardd pobl nad ydynt yn meddwl am eu hamhariad fel cyflwr iechyd, er enghraifft, pobl niwrowahanol. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn tynnu sylw at y ffaith bod y gair 'anhwylder' yn y teitl 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth' yn sarhaus ac y byddai angen ei newid. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

> "Dydw i ddim yn hoffi'r gair, y term anhwylder, sy'n cynnwys Asperger's, sydd unwaith eto yn derm gweddol hen ffasiwn".

Roedd gan gyfranogwyr safbwyntiau gwahanol am y ffordd y dylid addasu'r iaith yn y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau. Roedd rhai'n dweud bod yn well ganddynt eiriau fel 'cyflwr' ac 'anghenion' na 'salwch' neu 'gyflyrau iechyd'. Dywedodd eraill bod yr opsiwn ymateb 'cymdeithasol neu ymddygiadol' yn achosi stigma. Mewn perthynas ag 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth' yn arbennig, gallai'r termau hyn awgrymu diffyg rheolaeth neu "rywbeth a ddywedwch am blentyn", a fyddai'n debygol o achosi tramgwydd a gwneud person niwrowahanol yn amharod i ddewis yr opsiwn hwn.

> "Rwy'n anghyfforddus yn ticio rhywbeth sy'n awgrymu bod gen i rai problemau ymddygiadol o bosib, a allai olygu bod y person arall sy'n darllen hyn efallai'n meddwl, dydw i ddim eisiau bod o gwmpas y person yma oherwydd gallai ymosod arnaf i neu ymddwyn mewn ffordd ryfedd a allai fy ngwneud i'n anghyfforddus."

Nododd rhai cyfranogwyr hefyd broblemau gyda strwythur a fformat y cwestiwn. Gofynnodd rhai a allai gael ei addasu i gynnig atebion testun agored, neu gynnwys rhestr hirach o amhariadau, gan nodi bod rhai amhariadau heb eu cynnwys yn ddigonol yn yr opsiynau ymateb, er enghraifft, colitis ac amhariadau cyfathrebu. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod rhai categorïau'n gymylog a goddrychol, a bod angen eu diffinio fel ei bod hi'n fwy eglur beth maen nhw'n ei gwmpasu. Er enghraifft, roedd rhai'n teimlo bod yr opsiwn ateb 'cof' yn gorgyffwrdd â'r opsiwn ateb 'dysgu'.

Pan ofynnwyd iddynt, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn teimlo bod manteision y safon amhariadau (yr iaith fwyaf cynhwysol a'r opsiynau ymateb mwyaf manwl) yn gryfach nag unrhyw anfanteision. Fodd bynnag, mae eu trafodaethau'n datgelu cyfres fwy cymhleth o ystyriaethau. O gymharu â'r cwestiynau craidd wedi'u cysoni, gwelwyd y cwestiwn am amhariadau mewn ffordd gadarnhaol am ei fod yn dangos gwell dealltwriaeth o amhariadau, ac yn casglu data manwl amdanynt. Fodd bynnag,

wrth ystyried y cwestiwn ar ei ben ei hun, roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gryf iawn bod yr anfanteision yn gryfach na'r manteision. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

> "Mae'n sicr bod hyn yn welliant ar y rheiny [y safonau wedi'u cysoni]. Ond rwy'n dal i feddwl ei fod angen ei wella ymhellach".

### 4.3.6. Cwestiwn sampl y model cymdeithasol a'r cyfaddawdau

Ymatebodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr yn gadarnhaol i'r syniad o gwestiwn arolwg wedi'i ysbrydoli gan y model cymdeithasol, ond roedden nhw'n gweld bod y cwestiwn drafft a roddwyd iddynt gan hyrwyddwyr yn rhy gymhleth a geiriog. Roedd llawer o gyfranogwyr yn cymeradwyo'r ffaith bod y cwestiwn model cymdeithasol sampl (Atodiad G) yn rhestru gwahaniaethu fel rhwystr, gan nodi nad oedd unrhyw rai o'r cwestiynau eraill a drafodwyd ganddynt yn y gweithdai wedi cyffwrdd ar unrhyw brofiadau o wahaniaethu. Dywedodd rhai cyfranogwyr bod y cwestiwn yn "grymuso" ac y byddai'n gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn "bwysig" i'r llywodraeth os bydden nhw'n rhoi sylw i'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu.

Er bod cymeradwyaeth sylweddol i'r sylw y mae'r cwestiwn hwn yn ei roi i'r rhwystrau y gallai pobl eu hwynebu yn y byd, dywedodd llawer o gyfranogwyr ei fod yn rhy hir, "dryslyd" ac yn trethu'r ymennydd i'w ateb. Y rheswm am hyn oedd ei fod yn cynnwys yr hyn roedd llawer o bobl yn ei weld fel iaith or-gymhleth, ac nad oedd y cwestiwn yn "addas iawn i'r defnyddiwr". Dywedodd cyfranogwyr eraill nad yw'r "bobl sydd angen ei ateb yn ei ddeall" ac "nad yw'n iaith glir iawn….nid yw pawb yn gwybod beth mae [termau yn y cwestiwn model cymdeithasol] yn ei olygu".

Myfyriodd rhai cyfranogwyr ar gynnwys y cwestiwn a'r wybodaeth y gallai neu na allai ei chofnodi. Er enghraifft, roedd rhai ohonynt wedi eu drysu gan y paramedr amser yng nghwestiwn sampl y model cymdeithasol oedd yn ymwneud â'r 12 mis diwethaf, gan nodi bod modd teimlo effeithiau gwahaniaethu yn hirach na blwyddyn. Dywedodd rai cyfranogwyr nad oedd y cwestiwn yn cynnwys rhai mathau penodol o rwystr: roedden nhw'n teimlo y dylai'r cwestiwn gynnwys rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu y tu mewn i'w cartrefi, yn ogystal â'r rhwystrau sy'n ymwneud â chyflogaeth. Roedd nifer o gyfranogwyr hefyd yn awgrymu y gallai'r cwestiwn fod yn fwy "gweledol" gan ddefnyddio eiconau darluniadol i dynnu sylw at y prif bwyntiau.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o blaid gofyn y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau a'r cwestiwn ar ddull y model cymdeithasol gyda'i gilydd, oherwydd gallai hyn helpu i gysylltu data am amhariadau gyda data am rwystrau a chynhyrchu data haws gweithredu arno. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

> "Rydw i'n meddwl mai bwriad hwn yw'r bwriad cywir – am edrych ar rwystrau – oherwydd…i mi, mae hynny'n awgrymu eu bod nhw'n mynd i wneud rhywbeth gyda'r wybodaeth. Os ydyn nhw eisiau gwybodaeth am y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu…rhaid bod ganddyn nhw ddiddordeb….rhaid iddyn nhw fod eisiau gwneud rhywbeth a'i newid. Ond os nad ydyn nhw'n mynd i'w gysylltu

> [data am rwystrau] ag amhariadau neu wneud y cwestiwn yn fwy addas i'r defnyddiwr ac yn fwy ystyrlon…, sut maen nhw'n mynd i wneud unrhyw beth gyda'r wybodaeth?"

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn tueddu i werthfawrogi'n arbennig y ffocws ar rwystrau sydd yn y cwestiwn sampl am y model cymdeithasol. Ond, cododd nifer o bwyntiau am ei gymhlethdod, pa mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio gan bobl anabl, a'r ffaith bod angen ei gysylltu gyda'r cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau.

# 5. Cyfuno canfyddiadau’r cam darganfod

## 5.1. Prif ganfyddiadau’r cam darganfod

Diben y cam darganfod oedd casglu gwybodaeth i gefnogi datblygiad cwestiynau arolwg sy’n mesur ‘anabledd’, gan ar yr un pryd alinio ag ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i’r model cymdeithasol. Roedd y cam darganfod yn cynnwys:

- adolygiad o’r llenyddiaeth bresennol am gryfderau a gwendidau perthynol gwahanol fodelau anabledd
- adolygiad o ofynion defnyddwyr data gwahanol
- adolygiad o ba gwestiynau sydd wedi cael eu defnyddio i fesur ‘anabledd’ mewn arolygon eraill
- digwyddiadau ymgynghori, gyda phobl anabl o blith y cyhoedd, i drafod eu sylwadau ynghylch pa mor briodol yw iaith sy’n gysylltiedig ag anabledd, a’u barn am wahanol fathau o gwestiynau

Yn y llenyddiaeth bresennol, prif fantais y model cymdeithasol oedd ei ffocws ar y rhwystrau cymdeithasol a’r angen am dynnu’r rhwystrau hyn, er mwyn galluogi i bobl anabl gyfranogi’n llawn mewn cymdeithas. Ar y llaw arall, y brif feirniadaeth yw’r potensial i ganolbwyntio ar ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol anabledd a dehongliadau sy’n amcangyfrif yn rhy isel effeithiau cynhenid a realiti gwrthrychol amhariadau ar fywyd pob dydd (Beaudry, 2016; Crawford et al., 2012).

Yn yr adolygiad llenyddiaeth, roedd rhai awduron yn awgrymu bod y model bioseicogymdeithasol yn darparu dealltwriaeth fwy cynnil o anabledd – fel rhyngdoriad rhwng cyflwr iechyd unigolyn, eu hamhariadau a’r dylanwadau amgylcheddol a chymdeithasol. Fodd bynnag, roedd y prif bethau a farnwyd oedd yn amlwg o’r llenyddiaeth yn ymwneud â’i ehangder a’i ddiffyg defnydd posibl wrth osod polisi. Roedd hefyd bryderon bod y model bioseicogymdeithasol, lle mae’n cael ei ddefnyddio’n ymarferol, wedi dechrau canolbwyntio ar amhariadau. Er enghraifft, yng nghyd-destun arolygon, nid oedd y mesurau arolwg cyfredol wedi cofnodi llawer o wybodaeth yn gyffredinol am rwystrau amgylcheddol i bobl anabl, ac roedd eu prif ffocws ar gyflyrau iechyd a/neu amhariadau.

Pan soniwn am y defnydd cyfredol, roedd y defnyddwyr data presennol (pobl broffesiynol sy’n defnyddio ystadegau am bobl anabl yn rhan o’u gwaith) yn disgrifio defnyddio gwahanol ffynonellau o ddata ‘anabledd’ at amrywiaeth o ddibenion. Mae rhai’n defnyddio data arolwg poblogaeth gyffredinol wedi’i ariannu gan y llywodraeth (er enghraifft, Arolwg Cenedlaethol Cymru), mae rhai’n defnyddio data arolwg sefydliadol (er enghraifft, i werthuso eu gweithlu neu broffil eu defnyddwyr gwasanaeth), ac mae rhai yn defnyddio arolygon pobl anabl i ddysgu am eu profiadau byw (er enghraifft, roedd grwpiau eirioli’n disgrifio gwneud eu harolygon ‘ansawdd bywyd’ eu hunain ymysg y grwpiau y maen nhw’n eu cynrychioli).

Disgrifiodd y defnyddwyr data gasglu data am anabledd ar gyfer cymhellion tebyg – i werthuso i ba raddau y mae pobl anabl yn cael eu gwahardd ac, yn y pen draw, i ddatblygu polisïau i wella eu profiadau. Er gwaethaf yr elfennau cyffredin hyn, mewn gwirionedd mae gan y data o wahanol ffynonellau wahanol ddibenion penodol. Nodwyd yn gryf gan ddefnyddwyr data y dylai'r cwestiynau mwyaf priodol i'w defnyddio wrth fesur anabledd gael eu hysbysu gan gyd-destun ac amcanion yr ymchwil.

- Roedd rhai defnyddwyr data'n disgrifio pwysigrwydd gallu monitro newidiadau'n gyson dros amser gan ddefnyddio yr un cwestiynau safonedig am fod ganddynt ddiddordeb mewn cynnal cyfatebiaeth data heb gyflwyno ffactor sy'n drysu drwy newid geiriad y cwestiwn. Ar y llaw arall, ni chodwyd hyn fel ystyriaeth gan ddefnyddwyr data eraill.
- Dywedodd rhai defnyddwyr data mor bwysig yw bod eisiau defnyddio diffiniadau o 'anabledd' sy'n alinio â'r ddeddfwriaeth berthnasol (fel Deddf Cydraddoldeb 2010), ond ni chodwyd hyn fel ystyriaeth gan eraill.

Mae faint o fanylder sydd ei angen neu pa mor benodol y mae angen i gwestiynau fod yn dibynnu ar gyd-destun. Fel esiampl ymarferol, mae angen i gwestiynau sy'n cael eu defnyddio fel arfer mewn ffurflenni monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gael eu cadw'n weddol fyr a syml. Mae anabledd yn un o'r nodweddion niferus sy'n cael eu mesur ar y ffurflenni hyn, sy'n golygu bod angen cadw cwestiynau'n fyr. Ar y llaw arall, mae arolwg cyfan sy'n canolbwyntio ar brofiadau a rhwystrau a wynebir gan bobl anabl yn casglu lefelau uwch o fanylion ac yn gallu cynnwys mwy o gwestiynau ar wahanol bynciau.

Nod y prosiect hwn yw datblygu cyfres o gwestiynau y gellir eu defnyddio i gasglu gwybodaeth am anabledd sy'n alinio â'r model cymdeithasol. Byddai'r cwestiynau'n cael eu defnyddio mewn arolygon gan Lywodraeth Cymru a gallent hefyd gael eu defnyddio'n ehangach gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ac yn y DU. Roedd y defnyddwyr data yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer y prosiect yma'n disgrifio sut y maen nhw'n defnyddio cwestiynau anabledd at ddibenion fel monitro amrywiaeth yn y defnydd a wneir o wasanaethau a nodweddion y gweithlu. Mae'r gynulleidfa darged yn aelodau o'r boblogaeth gyffredinol (pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl) sy'n cwblhau holiaduron ar nifer o bynciau. Roedd defnyddwyr data'n pwysleisio'r ffaith bod cadw pethau'n fyr yn ystyriaeth bwysig a sut mae angen cadw hyd holiaduron mor fyr ag y bo modd. Mae y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn i lunio arolwg annibynnol i bobl anabl sy'n gofyn am yr holl rwystrau y maen nhw'n eu hwynebu mewn gwahanol feysydd o'u bywydau.

Roedd yr adolygiad pen desg o gwestiynau'n nodi amrywiaeth eang o arolygon sy'n mesur 'anabledd', o'r DU ac yn rhyngwladol. Nid oedd yr adolygiad hwn yn nodi unrhyw gyfresi cwestiynau oedd yn defnyddio'r model cymdeithasol yn unig. Nodwyd amrywiaeth o gwestiynau sy'n mesur amhariadau mewn gwahanol fformatau. Nid

oedd unrhyw rai o'r cyfresi cwestiynau a nodwyd yn gwbl rydd o iaith oedd yn awgrymu bod amhariadau'n effeithio ar weithgareddau, neu'n cyfyngu ar weithredu mewn rhyw ffordd. Roedd y mwyafrif yn cynnwys rhywfaint o gyfeiriad at iechyd neu gyflyrau iechyd. O'r esiamplau a ganfuwyd, hyd yn oed y rheiny oedd yn cyfeirio atynt eu hunain fel pobl oedd yn gwybod am y model cymdeithasol, roedd cwestiynau'n tueddu i alinio'n agosach â'r model bioseicogymdeithasol.

Yn ystod y gweithdai ymgynghori, roedd y cyfranogwyr yn trafod eu barn ynglŷn â pha mor briodol yw iaith sy'n gysylltiedig ag anabledd, yn cynnwys sut y byddai'n well ganddyn nhw eu hunain gael eu disgrifio. Nid oedd consensws ynghylch y derminoleg ddewisol. Soniodd rhai cyfranogwyr bod yn well ganddynt ddisgrifiadau, megis cael 'anghenion' a 'chyflyrau' nag 'amhariadau' neu 'fod yn anabl'. Dylid nodi nad oedd iaith wedi'i hysbysu gan y model cymdeithasol (fel y gwahaniaeth rhwng cael amhariad a bod yn berson anabl) yn canu cloch yn gyson gydag aelodau'r cyhoedd, gyda rhai pobl yn dweud eu bod yn meddwl y gall y ddau derm swnio'n negyddol. Un fantais gyda'r cwestiynau cyfunedig cyfredol yw ei bod yn mesur anabledd ac amhariad heb ddefnyddio'r naill neu'r llall o'r termau hyn yn uniongyrchol. Dylid cadw'r nodwedd yma ar gyfer unrhyw gwestiynau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Roedd y mwyafrif o bobl anabl a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymgynghori'n teimlo y dylid ystyried cynhwysiant yn bwysicach na chymharedd data wrth benderfynu pa gwestiynau y dylid eu defnyddio mewn arolygon yng Nghymru yn y dyfodol. Pan oedden nhw'n sôn am gynhwysiant, roedd cyfranogwyr yn cyfeirio at ddefnyddio iaith nad yw'n waharddol, sy'n adlewyrchu'r ystod ehangaf o amhariadau posibl. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo hyn: os yw'r cwestiynau sydd wedi'u cysoni'n defnyddio termau neu iaith "hen ffasiwn", neu dermau sy'n anodd eu deall, efallai na fydd y cwestiynau'n casglu gwybodaeth gywir. Roedd y cyfranogwyr hyn yn teimlo y dylai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fod ar wella cwestiynau i bobl Cymru, yn hytrach na bod wedi'u clymu i'r hyn sydd wedi bod o'r blaen, neu beth sy'n cael ei ddefnyddio mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd y cyfranogwyr yn ystod yr ymgynghori'n gyfarwydd ag ystyr cymharedd yn y cyd-destun hwn, ac roedd myfyrdodau cyfranogwyr wedi eu seilio ar eu sylwadau fel 'cwblhawyr arolwg' yn hytrach na defnyddwyr terfynol ystadegau.

Yn ystod y digwyddiadau ymgynghori, roedd y cyfranogwyr yn dangos mwy o gefnogaeth i ddefnydd Llywodraeth Cymru o gwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn hytrach na dros y cwestiynau 'craidd' wedi'u cysoni (am gyflyrau iechyd sy'n para'n hir a chyfyngiad ar weithredoedd). Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn meddwl bod problemau geiriad penodol o hyd gan y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau ac y byddai'n elwa o gael ei fireinio ymhellach.

Roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol am gynnwys cwestiwn am rwystrau cymdeithasol i ategu'r cwestiynau am amhariadau. Roedden nhw'n nodi bod y bwriad i gynnwys cwestiwn am rwystrau'n ymddangos yn gadarnhaol, ac y gallai hyn helpu i wella canfyddiadau pobl anabl am y gyfres cwestiynau anabledd gyfan. Fodd bynnag, nodwyd os bydd cwestiynau am rwystrau'n cael eu hychwanegu i arolygon Llywodraeth Cymru, y dylid gwneud hyn am fod y wybodaeth sy'n cael ei chasglu'n mynd i gael ei defnyddio wrth ffurfio polisïau yn hytrach na dim ond i wneud i'r cwestiynau cyfredol ymddangos wedi'u halinio'n well â'r model cymdeithasol. Yn yr un modd, disgrifiodd y cyfranogwyr y ffaith bod y cwestiwn sampl am rwystrau (a gynhyrchwyd ar gyfer y gweithdy ymgynghori) yn hir iawn, ac y byddai'n anodd ffurfio cwestiwn "cynnwys pawb" syml sy'n mesur y sbectrwm llawn o rwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu.

### 5.1.1. Manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau

Ni nodwyd unrhyw un gyfres o gwestiynau oedd yn ateb anghenion y grwpiau i gyd yn ystod y cam darganfod. Mae'n bwysig nodi ei bod hi'n annhebygol y gallai cyfres gwestiynau o'r fath gael ei ffurfio mewn gwirionedd, o ystyried y ffaith bod blaenoriaethau gwahanol grwpiau o randdeiliaid yn gwrthgyferbynu.

Mae tensiwn rhwng anghenion rhai rhanddeiliaid sydd eisiau blaenoriaethu geiriad cwestiwn wedi'i gysoni ar gyfer dadansoddiad cyfres amser (ac i alinio â diffiniadau Deddf Cydraddoldeb 2010) ac anghenion y rheiny sydd eisiau blaenoriaethu cwestiynau heb eu cysoni sy'n defnyddio iaith wedi'i gwyro fwy at y model cymdeithasol, neu iaith fwy cynhwysol sy'n ymwneud â mathau penodol o amhariadau.

Mae crynodeb o'r manteision a'r anfanteision wedi eu hamlinellu ar gyfer y 3 prif ddull a nodwyd yn ystod y cam darganfod:

- cwestiwn safonol wedi'i gysoni am salwch a chyflyrau iechyd hirdymor a chyfyngiad ar weithrediadau
- cwestiwn safonol wedi'i gysoni am amhariadau gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth
- cwestiynau newydd posibl am rwystrau cymdeithasol y mae pobl gydag amhariadau'n eu hwynebu

Cafodd amrywiol gwestiynau am amhariadau eu hadolygu yn ychwanegol at safon wedi'i chysoni am amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, er enghraifft, Cyfres Fer The Washington Group ac Arolwg Anabledd Model WHO. Roedd manteision ac anfanteision gan y cwestiynau amgen hyn am amhariadau o'u cymharu â safon wedi'i chysoni am amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Fodd bynnag, o ystyried bod gan yr opsiynau eraill broblemau tebyg, er

mwyn cadw pethau'n syml, defnyddir cwestiwn wedi'i gysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth fel y prif sylfaen ar gyfer cymhariaeth.

**Salwch neu gyflyrau iechyd sy'n para'n hir a chwestiynau craidd wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth: salwch neu gyflyrau iechyd sy'n para'n hir a chyfyngiad ar weithredoedd**

Manteision

- **Cymharedd:** defnyddir y safonau craidd mewn nifer o arolygon llywodraeth sy'n rhedeg yn hir, yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach. Trwy ddefnyddio cwestiynau safonedig, mae'n bosibl mesur tueddiadau dros amser (er enghraifft a yw canlyniadau i bobl anabl yng Nghymru'n gwella ai peidio) a chymharu'r data rhwng gwledydd gwahanol (megis Cymru o'i gymharu â Lloegr).

- **Aliniad â deddfwriaeth:** mae'r iaith a ddefnyddiwyd yn y safonau craidd yn alinio â geiriad Deddf Cydraddoldeb (2010), yn cynnwys ei ddiffiniad o 'anabledd'.

- **Ymarferoldeb:** mae'r safonau craidd yn gyflym i'w gweinyddu, ac maen nhw'n sicrhau manteision i ymatebwyr yr arolwg ac i'r defnyddwyr data fel ei gilydd. Mae'r canllaw i gwestiynau, a chyfieithiadau Cymraeg wedi'u dilysu, ar gael hefyd.

- **Hunaniaeth yr ymatebwr:** nid yw cwestiynau'n cyfeirio at 'anabledd' yn uniongyrchol - nid oes raid i bobl hunanddiffinio fel pobl anabl.

Anfanteision

- **Iaith waharddol:** yn defnyddio iaith y model meddygol, a allai wahardd pobl sydd ag amhariad na fyddent yn ei ddosbarthu'n salwch neu gyflwr iechyd. Er enghraifft, ni fydd pobl niwrowahanol neu fyddar yn eu disgrifio eu hunain fel rhywun 'sydd â salwch neu gyflwr iechyd'.

- **Gwrthdaro ag egwyddorion model cymdeithasol:** mae'r cwestiwn am gyfyngiad ar weithredoedd yn gofyn a yw 'cyflwr iechyd neu salwch yn gostwng eich gallu i wneud gweithgareddau.' Mae hyn yn mynd yn erbyn egwyddorion craidd y model cymdeithasol (bod pobl anabl wedi eu cyfyngu gan rwystrau cymdeithasol, nid gan eu cyflyrau iechyd).

- **Diffiniadau o gyfyngiadau:** mae'r cwestiynau'n gofyn am salwch neu gyflyrau iechyd sy'n para, neu y disgwylir iddynt bara, 12 mis neu fwy. Gallai fod yn aneglur sut y dylid ateb y cwestiynau hyn gan bobl gydag amhariadau sy'n mynd a dod neu'r rhai sy'n ansicr faint y gallai eu hamhariad barhau.

- **Beth sydd orau gan yr ymatebwr:** y safonau craidd oedd yr opsiwn a hoffwyd leiaf gan gyfranogwyr mewn gweithdai ymgynghori.

**Cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth**

Manteision

- **Cymharedd:** er bod y rhain yn cael eu defnyddio'n llai cyffredin na'r safonau craidd, mae cysoni'n golygu bod modd cymharu data ar draws rhai o arolygon penodol y DU ac ar draws gwledydd (Cymru o'i gymharu â Lloegr).
- **Aliniad agosach â'r model cymdeithasol:** mae'r cysyniadau a fesurir wedi eu halinio'n agosach â'r model cymdeithasol na chwestiynau craidd wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, oherwydd mae'n ceisio mesur amhariadau yn hytrach na chyflyrau iechyd neu salwch.
- **Ymarferoldeb:** mae mwy o esiamplau o beth i'w gynnwys a beth i beidio ei gynnwys o'i gymharu â chwestiynau 'craidd' wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Mae'r cwestiynau hefyd yn rhai y gellir eu gweinyddu'n gyflym a gellir eu defnyddio ochr yn ochr â nifer o gwestiynau cymdeithasol-ddemograffig eraill. Mae cyfieithiadau Cymraeg ar gael hefyd.
- **Iaith fwy cynhwysol:** er bod y cwestiwn hwn yn ymwneud ag amhariadau, nid yw'n crybwyll y gair amhariad yn uniongyrchol; roedd rhai cyfranogwyr yn ystyried y term hwn yn derm rhy negyddol.

Anfanteision

- **Iaith waharddol:** nid yw'r iaith a ddefnyddir wedi'i halinio'n gyfan gwbl â'r model cymdeithasol oherwydd mae geiriad bon y cwestiwn yn dal i gyfeirio at 'gyflyrau iechyd neu salwch' yn lle sôn am amhariadau.
- **Terminoleg hen ffasiwn neu sarhaus:** roedd rhai unigolion yn teimlo bod yr iaith a ddefnyddiwyd o amgylch rhai amhariadau'n hen ffasiwn, ac yn sarhaus o bosib, er enghraifft, defnyddio 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth' sy'n cynnwys Asperger's yn lle 'awtistiaeth'.
- **Opsiynau ymateb gwaharddol:** roedd rhai pobl o'r farn bod y rhestr yn anghyflawn ac o bosib braidd yn amwys, er enghraifft cael eu heffeithio'n 'gymdeithasol neu'n ymddygiadol'. Codwyd problemau penodol hefyd ynghylch sut i fesur amhariadau sy'n ymwneud â niwrowahaniaeth a gweithredu gwybyddol.
- **Defnyddioldeb i blant a phobl ifanc:** codwyd materion penodol ynglŷn â sut y dylai rhieni ateb mewn perthynas â phlant anabl a phlant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Cwestiynau cyfredol a chwestiynau enghreifftiol am rwystrau cymdeithasol y mae pobl anabl yn eu hwynebu**

Manteision

- **Aliniad â model cymdeithasol:** yr opsiwn hwn sydd wedi'i alinio fwyaf gydag egwyddorion craidd y model cymdeithasol ac felly'r egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hymrwymo iddynt.
- **Dewis yr ymatebwyr:** roedd rhai ymatebion cadarnhaol i'r cwestiwn sampl a dreialwyd yn ystod yr ymgynghori, yn enwedig y cyfeiriad at 'wahaniaethu' fel rhwystr.

Anfanteision

- **Dim safon yn bodoli'n barod:** mae'r esiamplau cyfredol o gwestiynau am rwystrau wedi eu llunio i ategu cwestiynau am gyflyrau iechyd a/neu amhariadau yn hytrach na bod yn opsiwn amgen sy'n sefyll ar ei ben ei hun.
- **Baich ar yr ymatebwr:** roedd yr esiamplau oedd yn bodoli eisoes o gwestiynau am rwystrau'n rhai mewn cyfresi cwestiynau hirach a ofynnwyd yng nghyd-destun arolygon hirach o bobl anabl am eu bywydau. Doedden nhw ddim yn gwestiynau unigol y gellid eu hychwanegu at arolwg pynciau niferus heb effeithio ar ei hyd. Mae cael nifer uwch o gwestiynau'n beth negyddol o safbwynt yr atebwr a gallai hefyd effeithio ar y cwestiynau sy'n cael eu mabwysiadu gan ddefnyddwyr data.
- **Angen am fireinio pellach:** roedd yr ymatebion i'r cwestiwn sampl yn gymysg, gyda rhai cyfranogwyr yn awgrymu bod y cwestiwn yn rhy hirwyntog ac eraill yn dweud nad oedd yn cynnwys digon o opsiynau ar gyfer y rhwystrau a wynebir.
- **Cyfyngiadau ymarferol:** ni allai unrhyw gwestiwn unigol gasglu gwybodaeth am bob math o rwystr posibl a wynebir. Bydd tensiwn rhwng mapio cynifer o rwystrau posibl ag y bo modd i wahanol grwpiau o bobl anabl, a chadw'r cwestiwn yn ddigon byr ac yn addas i'r defnyddiwr ar yr un pryd.

## 5.2. Argymhellion am ddatblygu holiadur

Ar sail y canfyddiadau o'r cam darganfod rydym yn argymell blaenoriaethu'r opsiynau a ganlyn ar gyfer datblygu holiaduron yn ystod cam nesaf y prosiect. Dyma'r opsiynau:

1. cwestiwn wedi'i ddiweddaru am amhariadau, ar sail y safon wedi'i chysoni am amhariadau gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth; a

2. chwestiwn newydd am rwystrau cymdeithasol y mae pobl gydag amhariadau’n eu hwynebu.

Ni fydd yr opsiynau hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Dylid ystyried bod y cwestiwn am amhariadau’n gwestiwn rhagflaenydd angenrheidiol i’r cwestiwn am rwystrau cymdeithasol oherwydd bydd ei angen er mwyn gosod y cyd-destun (er enghraifft i osgoi cynnwys rhwystrau nad ydynt yn gysylltiedig ag amhariadau). Gellid defnyddio cwestiwn am amhariadau sydd wedi ei ganolbwyntio ar y model cymdeithasol hefyd fel cwestiwn sy’n sefyll ar ei ben ei hun. Byddai cwestiwn am amhariadau’n ateb gofynion defnyddwyr data sydd wedi sôn bod angen cael cwestiynau i fonitro faint o bobl anabl sy’n defnyddio gwasanaeth, ond faint o grwpiau cymdeithasol-ddemograffig eraill sy’n defnyddio’r gwasanaeth hefyd.

Dylid ystyried y cwestiwn am rwystrau cymdeithasol yn gwestiwn ategol hynod o fuddiol i gasglu gwybodaeth am bobl anabl, oherwydd mae’n alinio’n agosach â chysyniadau craidd y model cymdeithasol na chwestiwn amhariad a ddefnyddir ar ei ben ei hun. Ond, dylid nodi hefyd, efallai na fydd cwestiwn am rwystrau cymdeithasol yn briodol ymhob cyd-destun a’i fwriad fyddai ategu yn hytrach na chymryd lle data am amhariadau.

Ar gyfer opsiwn 1 (y cwestiwn am amhariadau wedi’i ddiweddaru) rydym yn argymell y dylai’r gwaith dylunio ganolbwyntio ar fireinio’r cwestiwn wedi’i gysoni cyfredol am amhariadau i ymdrin â rhai o’r anfanteision a godwyd. Dylai’r cwestiwn newydd geisio mynd i’r afael â’r materion a ganlyn:

- terminoleg sydd o bosib yn hen ffasiwn yn ymwneud ag ‘anhwylderau’ a ‘salwch’
- geiriad y cyflyrau sy’n effeithio ar bobl yn ‘gymdeithasol’ neu’n ‘ymddygiadol’
- eglurder ynghylch cyflyrau sy’n mynd a dod
- pa mor dda mae’r cwestiwn am amhariadau’n gweithio i rieni sy’n ateb am eu plant

Dylai’r cwestiwn newydd ystyried y geiriad o’r amrywiol gwestiynau am amhariadau a nodwyd yn yr adolygiad pen desg, a’r syniad yw dewis nodweddion gorau’r gwahanol gwestiynau. Dylid nodi bod y safon wedi’i chysoni am amhariadau gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth wedi ei llunio ar gyfer arolygon a weinyddir gan gyfwelydd, lle mae cyfwelwyr yn derbyn arweiniad ychwanegol ar sut i ddosbarthu achosion amwys. Fodd bynnag, dylid profi’r cwestiwn newydd i ganfod a ydyw’n addas ar gyfer arolygon hunan-gwblhau. Mae llawer o arolygon y llywodraeth yn trosglwyddo i gynlluniau gwe-yn-gyntaf ac, yn yr un modd, mae llawer o arolygon sefydliadol eraill yn dibynnu ar fformatau hunan-gwblhau yn hytrach na chael eu gweinyddu gan gyfwelydd.

Ar gyfer opsiwn 2 (cwestiwn newydd am rwystrau cymdeithasol) rydym yn argymell cynhyrchu un cwestiwn lle gofynnir i gyfranogwyr sy'n dweud bod ganddynt amhariadau ddisgrifio a ydyn nhw wedi profi unrhyw rwystrau oherwydd y rhain, a rhoddir rhestr o opsiynau posibl iddyn nhw lle maen nhw'n rhoi tic ar bob un sy'n berthnasol. Dylai gwaith datblygu cwestiynau ganolbwyntio ar ddatblygu rhestr lefel uchel o rwystrau a fydd yn berthnasol i wneuthurwyr polisi a hefyd i amrywiaeth eang o bobl anabl. Nodir na fydd un cwestiwn unigol yn casglu gwybodaeth ronynnog iawn am bob math o rwystrau a wynebir. Blaenoriaeth y gwaith datblygu holiaduron fyddai gweithio gyda phobl anabl i ddatblygu rhestr o'r rhwystrau sydd fwyaf argyfyngus yn eu barn hwy, a sydd fwyaf perthnasol i wahanol fathau o amhariadau.

## 5.3. Cadw'r cwestiynau anabledd cyfredol

Dylid nodi hyn: o ganlyniad i'r cam darganfod, ni argymhellir bod y cwestiynau newydd yn disodli'r cwestiynau craidd wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (ar salwch a chyflyrau iechyd sy'n para'n hir, a chyfyngiadau ar weithrediadau) ar gyfer holl arolygon Llywodraeth Cymru yn y tymor byr i ganolig. Y rheswm am hyn yw oherwydd mai'r ffordd orau o ymdrin â rhai o'r anghenion a godir gan ddefnyddwyr data (er enghraifft, cynnal data cyfres amser) fyddai caniatáu i'r mesurau cyfredol redeg ochr yn ochr â mesurau newydd am gyfnod o amser, hyd nes y bydd digon o bwyntiau data ar gael i sefydlu cyfres amser newydd o ddata.

Ni fyddai cyfuno'r safon graidd gyfredol ac unrhyw fesurau newydd yn alinio'n llwyr ag egwyddorion y model cymdeithasol, ond byddai'n dal i gynrychioli cam tuag at ddull model cymdeithasol. Cyfuno cwestiynau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod yw'r ffordd orau o ateb y blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a godwyd gan wahanol grwpiau, ac mae'n debygol o helpu i hwyluso'r broses o gael amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr data i fabwysiadu mesurau newydd.

## 5.4. Y camau nesaf

Nawr mae'r ymchwil yn symud i'r cam alffa. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y cam nesaf hwn wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan grŵp llywio'r prosiect a bydd cynllun yr ymchwil yn derbyn gwiriad craffu moesegol cyn cychwyn.

Dyma linynnau gwaith y cam alffa sydd wedi'i gynllunio:

- pecyn gwaith 4 (PG4): datblygu mesurau newydd
- pecyn gwaith 5 (PG5): profion gwybyddol ar y mesurau newydd
- pecyn gwaith 6 (PG6): prawf maes o gwestiwn/gwestiynau newydd ochr yn ochr â chwestiynau craidd wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth

Ar ddiwedd cam alffa yr ymchwil, bydd adroddiad cyfunol terfynol yn cael ei gynhyrchu i Lywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth bellach isod am bob un o'r llinynau unigol o waith.

### 5.4.1. Pecyn gwaith 4

Mae'r llinyn gwaith hwn yn cynnwys datblygu cwestiynau newydd sy'n mesur anabledd mewn ffordd sydd wedi'i alinio fwy ag egwyddorion y model cymdeithasol. Bydd nifer o opsiynau i'w treialu'n cael eu cynhyrchu, yn cynnwys fersiynau ar wahân i oedolion ac i gasglu, trwy ddirprwy, wybodaeth am blant anabl. Bydd y mesurau newydd wedi eu hysgrifennu mewn Saesneg clir ac yn adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir gan bobl anabl ym mhecyn gwaith 3.

Bydd y cwestiynau newydd i gyd wedi eu llunio i fod yn unfodd; byddan nhw'n gweithio yr un mor dda mewn cyfweld personol gyda chymorth cyfrifiadur (CAPI), cyfweld dros y ffôn gyda chymorth cyfrifiadur (CATI), a gweinyddiaeth ar y we neu ar bapur. Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi ei gynhyrchu'n derfynol, bydd cwestiynau drafft yn y Gymraeg ac mewn BSL wedi eu cynhyrchu hefyd i'w cymryd ymlaen i linyn nesaf y gwaith.

### 5.4.2. Pecyn gwaith 5

Bydd cyfweliadau gwybyddol yn cael eu gwneud gydag amrywiaeth eang o gyfranogwyr i alluogi i ymchwilwyr archwilio'r prosesau meddwl y mae cyfranogwyr yn mynd trwyddynt wrth gwblhau cwestiynau newydd. Bydd fersiynau Cymraeg, Saesneg a BSL o'r cwestiynau'n cael eu profi. Gofynnir cwestiynau newydd y model cymdeithasol i gyfranogwyr a hefyd cesglir adborth ychwanegol ynglŷn â'r hyn roedden nhw'n meddwl amdano wrth ateb.

Os bydd angen, bydd fersiynau niferus o'r cwestiynau model cymdeithasol yn cael eu profi mewn un cyfweliad i gael adborth ar wahanol opsiynau a sut maen nhw'n cymharu. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i fireinio geiriad y cwestiwn cyn i'r llinyn nesaf o waith gychwyn.

### 5.4.3. Pecyn gwaith 6

Yna bydd y fersiynau diweddaraf o'r cwestiynau'n cael eu treialu ar banel tebygolrwydd ar hap NatCen. Bydd treialu'r cwestiynau yn ymarferol fel hyn yn caniatáu i ni gasglu data meintiol ar ba mor dda mae cwestiwn/cwestiynau newydd yn gweithio mewn arolwg gwe-CATI o'r boblogaeth. Bydd yn galluogi i ni gasglu amcangyfrif o'r brif bobl anabl sy'n defnyddio'r cwestiynau model cymdeithasol newydd eu datblygu a chymharu'r ymatebion a gesglir gyda chwestiynau craidd wedi'u cysoni cyfredol Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd cwestiynau'n cael eu gofyn i sampl gynrychiadol o oedolion Prydeinig 18+ oed, gyda hwb gan ymatebwyr Cymru. Bydd cynllun dadansoddi wedi'i gytuno o flaen llaw gyda Llywodraeth Cymru, ond rhagwelir y bydd y dadansoddiad yn rhoi syniadau am

fodolaeth a maint gwahaniaethau mewn amcangyfrifon a gynhyrchir gan y mesurau newydd, o'i gymharu â'r safonau wedi'u cysoni cyfredol.

Unwaith y bydd pecyn gwaith 6 yn gyflawn, bydd adroddiad cyfuno'n cael ei gynhyrchu, gan ddogfennu canfyddiadau o'r holl becynnau gwaith a wneir yn y cam alffa. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi pa mor dda mae'r cwestiynau newydd wedi perfformio yn y profion gwybyddol a maes. Bydd adborth yr ymatebwyr a'r cyfwelydd am yr eitemau newydd yn cael eu cyflwyno hefyd, yn cynnwys unrhyw elfennau sensitif sy'n rhan o'r gwaith gweinyddol. Bydd crynodebau gweithredol hygyrch o'r adroddiad yn cael eu cynhyrchu, a bydd yr ymchwil yn cael ei gyhoeddi mewn fformat PDF hygyrch, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Atodiad A: safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth

Mae safonau wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn cael eu diweddaru'n gyfnodol. Y fersiynau sydd wedi eu rhestru isod, ac a ddefnyddiwyd yn ystod y cam darganfod, oedd y rhai diweddaraf oedd ar gael pan wnaethpwyd y cam darganfod safonau wedi'u cysoni.

- Salwch a chyflyrau iechyd sy'n para'n hir

Oes gennych chi salwch neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sy'n para, neu y disgwylir iddynt bara, am 12 mis neu fwy?

Oes

Nac oes

Digymell yn unig: Ddim yn gwybod / Gwrthod ateb

- Cyfyngiad ar weithgareddau

A yw eich cyflwr neu salwch / unrhyw rai o'ch cyflyrau neu eich salwch yn gostwng eich gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd?

Ydy/Ydyn, yn fawr

Ydy/Ydyn, ychydig

Ddim o gwbl

- Hyd y cyfyngiad

(Os bydd y cyfranogwyr wedi ateb opsiwn 1 neu 2 i'r cwestiwn blaenorol, gallwch ofyn cwestiwn ychwanegol am yr hyd o amser)

Ers faint o amser mae eich gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi gostwng?

1 Llai na chwe mis

2 Rhwng chwe mis a deuddeg mis

3 Deuddeg mis neu fwy

- Amhariad

A yw'r salwch neu unrhyw rai o'r cyflyrau hyn yn effeithio arnoch chi mewn unrhyw rai o'r meysydd nesaf yma?

Dangoswch y cerdyn o ymatebion posibl a rhowch god i bob ateb sy'n berthnasol:

1 Y golwg (er enghraifft, dallineb neu olwg rhannol)

2 Y clyw (er enghraifft, yn fyddar neu'n rhannol fyddar)

3 Symudedd (er enghraifft, wrth ddringo'r grisiau neu'n cerdded pellteroedd byr yn unig)

4 Deheurwydd (er enghraifft, codi a chario gwrthrychau, defnyddio bysellfwrdd)

5 Dysgu neu ddealltwriaeth neu ganolbwyntio

6 Cof

7 Iechyd meddwl

8 Stamina neu anadlu neu flinder

9 Yn gymdeithasol neu'n ymddygiadol (er enghraifft, yn gysylltiedig ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) sy'n cynnwys Asperger's, neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD))

10 Arall (manylwch)

11 Dim o'r uchod (digymell yn unig)

12 Yn gwrthod ateb (digymell yn unig)

# Atodiad B: Pecyn Gwaith 1 – Gweithdy defnyddwyr data: canllawiau pwnc

## 1. Croeso a chyflwyniad

Croeso i’r digwyddiad i ddefnyddwyr data.

Pawb yn eu cyflwyno eu hunain a’u diddordeb yn y prosiect.

Atgoffa pawb am hygyrchedd ac addasiadau:

- penawdau
- croeso i gyfrannu yn y sgwrs ac ar lafar
- gofynnwch a oes angen unrhyw amser ychwanegol i ystyried cwestiynau
- gadewch i ni wybod os byddwch chi angen unrhyw beth ac fe wnawn ein gorau i helpu

Atgoffwch am gyfrinachedd a chadw’n ddienw.

Caniatâd i recordio a thrawsgrifio.

## 2. Cefndir a diben yr ymchwil hwn

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru’r model cymdeithasol o anabledd yn 2002. Mae’r model cymdeithasol o anabledd yn cydnabod fod pobl gydag amhariadau’n anabl oherwydd pethau sy’n bodoli’n gyffredin mewn cymdeithas sy’n eu rhwystro rhag cyfranogi. Yn wahanol i’r model meddygol o anabledd, lle ystyrir mai amhariad person yw’r peth sy’n eu hanablu nhw, mae’r model cymdeithasol o anabledd yn diffinio anabledd fel rhywbeth sy’n codi oherwydd rhwystrau mewn cymdeithas, mewn agweddau ac yn yr amgylchedd.

Mae’r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn Llywodraeth Cymru wedi comisiynu prosiect ymchwil i ddatblygu a phrofi cyfres o gwestiynau arolwg sy’n mesur anabledd, yn unol â’r model cymdeithasol o anabledd. Eu nod yw defnyddio’r cwestiynau hyn, lle bo’n berthnasol, ledled Llywodraeth Cymru a chasgliadau data llywodraethau eraill. Byddant yn rhannu’r cwestiynau gydag amrywiol gyrff cyhoeddus i sicrhau bod modd iddyn nhw gael eu defnyddio’n ehangach. Bydd yr ymchwil yn cael ei rannu hefyd gyda’r tîm cysoni a gwledydd eraill y DU fel bod modd i’r cwestiynau newydd eu datblygu gael eu mabwysiadu ar draws y llywodraeth.

Mae ymchwilydd NatCen yn esbonio trosolwg o’r prosiect, yn cynnwys y gwahanol becynnau gwaith a sut mae’r rhain yn ffitio at ei gilydd – mae’n pwysleisio nad

dyma'r unig achlysur i roi sylw, a bydd trafodaeth heddiw'n bwydo i mewn i raglen ehangach o waith.

Mae rhaglen ddarparu'r prosiect yn cynnwys cam darganfod a cham alffa, gydag adroddiad cyfuno ar ddiwedd pob cam.

Mae'r cam darganfod wedi'i rannu'n 3 rhan:

- pecyn gwaith 1: nodi anghenion y defnyddiwr data
- pecyn gwaith 2: adolygu'r mesurau cyfredol
- pecyn gwaith 3: ymchwil ymgynghori gyda phobl anabl

Mae'r cam alffa wedi'i rannu'n 3 rhan hefyd:

- pecyn gwaith 4: datblygu mesurau
- pecyn gwaith 5: cyfweliadau gwybyddol
- pecyn gwaith 6: prawf maes

### 3. Y model cymdeithasol o anabledd

Pa mor gyfarwydd ydych chi gyda'r model cymdeithasol o anabledd?

Gofynnir i'r cyfranogwyr (2 neu 3) rannu eu diffiniadau a'u dealltwriaeth o'r model cymdeithasol.

Ymchwilydd NatCen yn rhannu 2 neu 3 sleid sy'n adolygu'r prif syniadau sy'n tanategu'r model cymdeithasol.

### 4. Mesurau sy'n bodoli'n barod

Nawr byddwn yn troi ein ffocws at y cwestiynau arolwg cyfredol a ddefnyddiwch i gynhyrchu ystadegau sy'n nodi pobl gydag amhariadau a/neu bobl sy'n cael eu hanablu gan rwystrau. Rydym eisiau deall pa fesurau neu gwestiynau a ddefnyddiwch neu yr ydych yn ymwybodol ohonynt yn barod, pa fewnwelediadau maen nhw'n eu cynhyrchu, a'u cryfderau a'u hanfanteision. Rydym hefyd yn agored i glywed myfyrdodau cyffredinol ar fesurau neu gwestiynau yn ymwneud ag amhariadau a/neu rwystrau.

**Gweithgaredd y bwrdd gwyn ar-lein** (atgoffwch y cyfranogwyr bod modd iddyn nhw hefyd roi sylwadau yn y sgwrs neu ar lafar)

Ar y bwrdd: pa fesurau neu gwestiynau ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd i adnabod pobl gydag amhariadau yng Nghymru a/neu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu, ac i beth ydych chi'n eu defnyddio?

(gallai'r rhain fod yn gwestiynau neu fesurau a ddefnyddir mewn arolygon cenedlaethol ailadroddus (fel y Cyfrifiad, arolwg y Llafurlu ac ati) neu'r rhai a ddefnyddir mewn arolygon mwy 'ad hoc')

- Pa arolygon ydych chi'n eu defnyddio i gasglu gwybodaeth am bobl anabl yng Nghymru neu mewn mannau eraill?
- Pa fathau o gwestiynau mae'r rhain yn eu gofyn?
- A oes unrhyw gwestiynau yr ydych yn eu cael yn arbennig o annefnyddiol? Pam? (rhannwch unrhyw esiamplau)
- I bwy neu beth ydych chi'n eu defnyddio nhw?
- I ba feysydd polisi maen nhw'n bwydo i mewn neu y dylem ni fwydo i mewn?

Mae ymchwilwyr NatCen a chyfarwyddiadau bwrdd gwyn yn annog cyfranogwyr i ysgrifennu'r cwestiynau penodol y maen nhw'n eu defnyddio, ond os nad ydyn nhw'n gallu cofio mae'n dderbyniol dweud yn syml iawn beth yw enw'r arolwg.

Cymerwch ychydig funudau i gyfrannu ar y bwrdd gwyn. Gan ddefnyddio nodyn gludiog ar gyfer pob syniad, cymerwch amser i restru'r mesurau cyfredol a ddefnyddiwch.

Mae ymchwilwyr NatCen yn gofyn i'r grŵp rannu gwybodaeth am eu cyfraniadau, gan esbonio yn eu geiriau eu hunain beth sydd ar y bwrdd gwyn.

Gan feddwl am y mesurau cyfredol neu gwestiynau yr ydych newydd eu rhannu, sut fyddech chi'n asesu'r rhain?

Promptiau

- Beth sy'n gweithio, beth yw eu cryfderau? Pam?
- Beth nad yw'n gweithio? Pam?
- Beth sydd ar goll? Yn gysyniadol ac yn nhermau'r data a gesglir.

Egwyl goffi 10 munud

Y cyfranogwyr yn dychwelyd

## 5. Myfyrio ar y cwestiynau wedi'u cysoni

I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o wahanol gwestiynau wedi'u cysoni a ddefnyddir mewn arolygon cenedlaethol?

Mae ymchwilwyr NatCen yn dangos sleid gydag esiamplau o gwestiynau wedi'u cysoni gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth am amhariad, cyfyngiad ar

weithgareddau a salwch sy'n para'n hir. Efallai bod rhai wedi eu crybwyll ar y bwrdd gwyn ar-lein yn barod.

- I ba raddau mae'r cwestiynau wedi'u cysoni hyn yn ddefnyddiol yn eich rôl?
    - I beth ydych chi'n eu defnyddio nhw?
- Beth yw'r problemau yr ydych chi'n ymwybodol ohonynt gyda'r cwestiynau hyn?
    - Ydyn nhw wedi hepgor unrhyw beth?
    - Pa mor dda maen nhw'n gweithio i wahanol grwpiau?
        - Pobl gyda gwahanol fathau o amhariadau, cyflyrau iechyd, neu sy'n niwrowahanol.
        - Pobl gyda chyflyrau niferus neu gyflyrau sy'n mynd a dod.
        - Plant a phobl ifanc.
        - Pobl sy'n siarad Cymraeg.
    - A oes nodweddion gwarchodedig eraill na fydd y cwestiynau hyn yn gweithio ar eu cyfer o bosib?
- I ba raddau mae'r rhain yn wahanol i fesurau cyfredol eraill yr oeddech wedi eu nodi o'r blaen?
- Barn ynghylch 'a ellir addasu'r cwestiynau wedi'u cysoni' o'i gymharu â barn ynghylch 'a ddylid eu cadw yn eu fformat cyfredol ond eu hategu gyda mesurau newydd sy'n alinio â'r model cymdeithasol' (dim disgwyliad am gonsensws yma, y nod yw dogfennu'r barnau i gyd)?
    - Pam? (Promptiau posibl – cyfres amser a'r gallu i gymharu; canlyniadau eraill newid; pwysigrwydd alinio iaith gyda gwerthoedd craidd Llywodraeth Cymru.)
    - Pa dawelwch meddwl ynghylch ansawdd fyddwch chi ei angen cyn cytuno i unrhyw newidiadau?

## 6. Mesurau wedi eu hysbysu gan fodel cymdeithasol – meddwl am y dyfodol

Gweithgareddau bwrdd gwyn ar-lein

Sut fyddai mesurau neu gwestiynau sydd wedi eu fframio gan y model cymdeithasol (fel y maent wedi eu trafod ar ddechrau'r sesiwn) yn osgoi'r gwendidau a nodwyd gynt, os o gwbl?

I ba raddau fyddai'r rhain:

- Yn llenwi bylchau sy'n cael eu gadael gan fodelau cyfredol – bylchau cysyniadol neu ddata?
- Yn cadw at amcanion neu iaith polisi?

Sut ydych chi'n bwriadu, neu sut hoffech chi, ddefnyddio cyfres wedi'i diweddaru o fesurau a chwestiynau neu'r data sy'n cael ei gasglu gan ddefnyddio'r cwestiynau newydd hyn?

- Sut fyddwch chi'n defnyddio'r rhain?
- A fyddai'r rhain yn cael eu hychwanegu i arolwg ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol?
- Cyfyngiadau ymarferol y dylem eu hystyried:
    - hyd y cwestiynau neu'r nifer uchaf o gwestiynau
    - opsiynau ymateb (blwch ticio, ysgrifennu i mewn, ac ati)
    - y gallu i roi nifer o ymatebion
    - pynciau (er enghraifft, cwestiynau am amhariad a rhwystrau?)
    - gwahanol ffyrdd o gasglu data (er enghraifft, ar-lein, prif gyfwelydd, hunan-adrodd, ymatebion drwy ddirprwy, ac ati)
    - arall

## 7. Crynodeb terfynol a blaenoriaethu

Gweithgaredd Bwrdd Gwyn Ar-lein

Ar ba feysydd fyddech chi'n hoffi i ni ganolbwyntio fwyaf ar gyfer y prosiect hwn, a pha ganlyniadau fyddai fwyaf defnyddiol i chi? Pa fformat fyddai i'r canlyniadau hyn?

Y safonwr i roi trosolwg byr o'r hyn a drafodwyd ac unrhyw gasgliadau a dynnwyd.

## 8. Cau a diolch

Diolch yn fawr iawn am gymryd rhan heddiw. A oes unrhyw beth arall nad ydym wedi ei drafod yr hoffech ei ychwanegu?

## Atodiad C: Pecyn Gwaith 2 – Adolygiad o’r holiadur: rhestr o’r arolygon a adolygwyd

**Safonau wedi’u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth**

Safon wedi’i chysoni ar gyfer salwch a chyflyrau iechyd hirdymor

Safon wedi’i chysoni ar gyfer cyfyngiad ar weithgareddau

Safon wedi’i chysoni ar gyfer cyfyngiad ar weithgareddau

**Arolygon eraill y DU**

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Arolwg Cyfleoedd Bywyd

Arolwg Anabledd y DU

Arolwg Anabledd a Gweithgaredd Blynyddol

Arolwg Hydredol o Heneiddio Lloegr (ELSA)

Arolwg Iechyd yr Alban (SHeS)

Dyfodol SEND

**Ystadegau Anabledd The Washington Group**

Cyfres Fer ar Weithgareddau gan The Washington Group (WG-SS)

Cyfres Fer Fanylach ar Weithgareddau gan The Washington Group (WG-SS Manylach)

Cyfres Estynedig ar Weithgareddau gan The Washington Group (WG-ES)

Modiwl Gweithredu Plant Llywodraeth Cymru/UNICEF (CFM) 2 i 4 oed, a 5 i 17 oed

Modiwl Anabledd Arolwg y Llafurlu ILO Llywodraeth Cymru (LFS-DM)

**Arolygon rhyngwladol eraill**

Y Dangosydd Byd-eang o Gyfyngiad ar Weithgareddau (GALI)

Model Sefydliad Iechyd y Byd o Arolwg Anabledd ac Erfyn Anabledd Gweithredu (FDD11)

Arolwg Anabledd Seland Newydd (Arolwg Anabledd Aelwydydd)

Arolwg Anabledd Canada (Arolwg Newydd yn Mesur Anabledd: Y Cwestiynau Sgrinio Anabledd (DSQ))

Arolwg o Anabledd, Heneiddio a Gofalwyr (SDAC) gan Ganolfan Ystadegau Awstralia

EQ-5D-5L (EuroQol)

Arolwg Cyfweliad Iechyd Ewropeaidd (EHIS)

# Atodiad D: Pecyn Gwaith 2 – Adolygiad o holiadur: meini prawf ar gyfer adolygu arolygon

**Meini prawf gwerthuso**

**Gwybodaeth ddisgrifiadol a chyd-destunol:**

- i bwy a chan bwy y cafodd ei ddatblygu?
- i ba wlad y cafodd ei ddatblygu?
- pwnc yr arolwg

**Y cysyniadau a fesurwyd:**

- wedi'i alinio i'r model o anabledd
- cysyniadau perthnasol eraill a fesurwyd
- y mathau o amhariadau a fesurwyd yn uniongyrchol
- y mathau o amhariad na fesurwyd
- y mathau o rwystrau a brofwyd a gafodd eu mesur, os yw'n berthnasol

**Ateb angen y defnyddiwr data:**

- unrhyw broblemau a godwyd mewn adolygiad llenyddiaeth neu gan ddefnyddwyr data sy'n berthnasol
- unrhyw fanteision a godwyd mewn adolygiad llenyddiaeth neu gan ddefnyddwyr data sy'n berthnasol
- defnydd cyson o iaith y model cymdeithasol
- anghenion y defnyddwyr data a atebwyd
- yn gymaradwy â ffynonellau eraill
- aliniad â Deddf Cydraddoldeb 2010

**Nodweddion gweinyddu:**

- y math o gyfrwng casglu data
- y boblogaeth darged
- y dull gweinyddu
- argaeledd arweiniad ar gyfer y cyfwelydd neu’r cyfranogwr
- argaeledd fersiynau hygyrch
- argaeledd mewn ieithoedd heblaw Saesneg
- tystiolaeth o brofi o flaen llaw
- statws casglu data drwy ddirprwy
- arweiniad ar ddadansoddi a defnyddio data sydd ar gael

# Atodiad E: Pecyn Gwaith 3 – Ymgynghori: y broses recriwtio a chwotâu

### Recriwtio, cynrychioli a hygyrchedd

Bu ein partneriaid recriwtio'n recriwtio oedolion anabl yng Nghymru ar draws 12 gwahanol gategori amhariad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y 12 categori'n cynnwys amhariadau clywedol, gweledol, ac iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â niwrowahaniaeth, ac eraill. Roeddem wedi gosod cwotâu ar gyfer pob math o amhariad ac wedi bwriadu recriwtio 2 grŵp o 25 cyfranogwr ymhob gweithdy, ar gyfer cyfanswm o 50 o bobl oedd yn cwblhau'r broses. Yn y pendraw, bu 2 grŵp o 20 (gyda 40 o bobl i gyd) yn cymryd rhan yn y gweithdai.

Roedd y recriwtiad yn llwyddiannus ar draws y 12 categori amhariad i gyd. Roedd gan rai grwpiau, fel y grŵp amhariad ar y clyw, lai o bobl na'r cwota targed, ac roedd eraill, fel y grŵp amhariad ar y cof, wedi eu gor-gynrychioli ychydig bach. Ni chafodd unrhyw ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain eu recriwtio; nid yw'r grŵp hwn wedi'i adlewyrchu yn yr ymgynghori. Pan ofynnwyd iddynt, ni fynegodd unrhyw gyfranogwr eu bod angen defnyddio'r iaith Gymraeg, neu y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Er bod y deunyddiau briffio cyn y gweithdy wedi eu dosbarthu yn y Saesneg a'r Gymraeg, cafodd y gweithdy ei hun ei gynnal yn uniaith Saesneg.

Darparwyd ar gyfer ystod o fathau o amhariadau drwy ddarparu deunyddiau briffio mewn fformatau 'hawdd i'w ddarllen', fideo, BSL a sain. Cafodd y sleidiau a ddefnyddiwyd yn y gweithdai eu drafftio gan ddefnyddio testun hawdd ei ddarllen. Rhoddodd yr hyrwyddwyr gyfarwyddiadau ar lafar gan ddefnyddio'r blwch sgwrs ar y platfform cyfarfod ar-lein. Roedd gan rai cyfranogwyr berson arall yn gwmni i'w cefnogi nhw i ymuno a chymryd rhan yn y sesiwn. Roedd gan y gweithdai egwyliau hirach wedi eu hamserlennu a llai o amser ymgysylltiad cyfan (5 awr) nag sy'n nodweddiadol ar gyfer ymgynghori.

### Sut yr oedd mathau o amhariadau wedi eu rhannu ar draws sesiynau a diwrnodau

Grŵp 1

Amseroedd y sesiynau: Dydd Sadwrn, 10am i 12pm a Dydd Sul, 10am i 1pm

Mathau o amhariadau: clywedol, anabledd dysgu; niwrowahanol; egni; cof; lleferydd

Grŵp 2

Amseroedd y sesiynau: Dydd Sadwrn, 1pm i 3pm a Dydd Sul, 2pm to 5pm

Mathau o amhariadau: gweledol, amhariad corfforol tymor hir; symudedd, emosiynol, iechyd meddwl, deheurwydd

**Tabl 1: Cwotâu ar gyfer mathau o amhariadau yng ngrŵp 1**

| Math o amhariad | Targed recriwtio | Cyfranogwyr wedi'u recriwtio |
|---|---|---|
| Clywedol | 4 | 2 |
| Anabledd dysgu | 4 | 4 |
| Niwrowahaniaeth | 5 | 2 |
| Egni | 4 | 4 |
| Cof | 4 | 5 |
| Lleferydd | 4 | 3 |
| **Cyfanswm** | **25** | **20** |

Mae'r tabl hwn ar gyfer grŵp 1 yn dangos bod targedau recriwtio wedi eu cyflawni ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o amhariad. Y cyfranogwyr niwrowahanol a'r cyfranogwyr gydag amhariad ar y clyw oedd y grwpiau oedd wedi eu tangynrychioli fwyaf. Roedd cyfranogwyr gydag amhariad ar y cof wedi eu gor-recriwtio ychydig bach.

**Tabl 2: Cwotâu ar gyfer mathau o amhariad yng ngrŵp 2**

| Math o amhariad | Targed recriwtio | Cyfranogwyr wedi'u recriwtio |
|---|---|---|
| Golwg | 4 | 3 |
| Amhariad corfforol, tymor hir | 4 | 4 [Nodwch 1] |
| Symudedd | 5 | 2 |
| Emosiynol | 4 | 4 |
| Iechyd Meddwl | 4 | 3 |
| Deheurwydd | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | **25** | **20** [Nodwch1] |

Mae'r tabl hwn i grŵp 2 yn dangos bod targedau recriwtio wedi eu cyflawni ar gyfer y rhan fwyaf o'r mathau o amhariadau. Y cyfranogwyr gydag amhariad ar symudedd oedd y grŵp oedd wedi'i dan-recriwtio fwyaf.

[Nodwch 1]: daeth un person i'r sesiwn gyntaf ond nid i'r ail, gan ostwng y nifer o bobl a fynychodd oedd ag 'amhariad corfforol tymor hir' o 4 yn y sesiwn gyntaf i 3 yn yr ail sesiwn. Roedd hyn hefyd yn gostwng y cyfanswm o gyfranogwyr o 20 yn y sesiwn gyntaf i 19 yn yr ail sesiwn.

## Atodiad F: Pecyn Gwaith 3 – Ymgynghori: canllawiau pwnc

### Gweithgareddau

Dilynwyd pob un o'r 4 gweithgaredd grŵp trafod gan hyrwyddwyr yn rhannu themâu o drafodaethau grŵp yn y cyfarfod llawn. Ar y diwrnod cyntaf, yn y cyfarfod llawn, clywodd y cyfranogwyr 2 gyflwyniad gan Lywodraeth Cymru, un am ystyr a goblygiadau'r modelau cymdeithasol a meddygol, a'r llall yn disgrifio sut mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio arolygon. Cafodd y cyfranogwyr y cyfle i ofyn cwestiynau i'r siaradwyr.

### Diwrnod 1 – Y wybodaeth a'r cwestiynau arolwg cyfredol

Ymchwil ymgynghori ar y model cymdeithasol o anabledd: arweiniad i drafodaeth

Crynodeb: bydd diwrnod cyntaf y gweithdy ymgynghori'n cyflwyno'r cyfranogwyr i'r ddeialog drwy fesur eu barn gychwynnol am anabledd ac amhariad. Byddwn yn cyflwyno gwybodaeth iddyn nhw am y model cymdeithasol o anabledd a'r cwestiynau arolwg cyfredol sy'n ymwneud ag amhariadau a phobl anabl. Bydd cyfle i'r cyfranogwyr glywed gan siaradwyr gwadd a gofyn cwestiynau iddynt. Bydd y cyfranogwyr yn meddwl am y prif gyfaddawdau sy'n tanategu'r cwestiynau craidd sydd wedi'u cysoni.

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd pobl wedi:

- rhannu eu barn am y cysyniadau o anabledd ac amhariad, ac i ba raddau y mae'r rhain yn golygu pethau gwahanol iddyn nhw
- cael dealltwriaeth o'r ffordd y mae cwestiynau'r arolwg yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl anabl
- cael dealltwriaeth am y model cymdeithasol o anabledd a sut mae'n wahanol i'r model meddygol
- rhannu eu barn am gwestiynau craidd wedi'u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth
- ystyried y prif gyfaddawdau wrth ddylunio a geirio cwestiynau arolwg ar amhariadau a phobl anabl

### Trosolwg o drefn y diwrnodau – diwrnod 1

1. Hyrwyddwyr a chynorthwywyr technolegol yn ymuno â'r alwad

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 9.30am i 9.50am (20 munud)

Sesiwn y prynhawn: 12.30pm i 12.50pm (20 munud)

Sain, camerâu, llywio, profi cysylltiadau a datrys unrhyw broblemau technegol. Sefydlu a phrofi'r cyfathrebu rhwng hyrwyddwyr (platfform negeseuon).

2. Croesawu'r cyfranogwyr a'u gadael i mewn i'r ystafell

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 9.50am i 10am (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 12.50pm i 1pm (10 munud)

Croesawu'r cyfranogwyr a gofyn iddyn nhw roi enw newydd iddynt eu hunain, gyda'u henw cyntaf, llythyren gyntaf eu cyfenw a'u lleoliad. Datrys unrhyw faterion technegol, camera, technoleg gynorthwyol neu sain. Atgoffa'r cyfranogwyr bod cymorth technegol (NatCen RA) ar gael.

3. Cyflwyniad NatCen i'r broses ddeialog, gweinyddiaeth a 'chymhenu'

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 10am i 10.10am (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 1pm i 1.10pm (10 munud)

Cyflwyniad byw gan NatCen:

- amlinelliad o'r sesiwn hon a'r ymchwil cyfan
- rolau Llywodraeth Cymru, NatCen a chyfranogwyr
- sut yr ydym yn defnyddio tystiolaeth (atgoffa am hysbysiad preifatrwydd)
- cymhennu: recordio, rheolau sylfaenol, defnyddio platfform cyfarfod ar-lein ac ystyriaethau hygyrchedd
- cyflwyno'r drafodaeth grŵp gyntaf

4. Trafodaeth grŵp 1: amhariad o'i gymharu ag anabledd

Hyrwyddwyr grŵp

Sesiwn y bore: 10.10am i 10.25am (15 munud)

Sesiwn y prynhawn: 1.10pm i 1.25pm (15 munud)

Cyfle i gasglu barn cyfranogwyr am yr hyn y mae’r cysyniadau anabledd ac amhariad yn ei olygu iddyn nhw, ac a ydyn nhw’n eu gweld fel pethau ar wahân.

5. Siaradwr 1: y 2 fodel anabledd

Siaradwr Llywodraeth Cymru

Sesiwn y bore: 10.25am i 10.35am (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 1.25pm i 1.35pm (10 munud)

Cyflwyniad byw am y model cymdeithasol o anabledd.

6. Siaradwr 2: cyflwyniad i arolygon

Siaradwr Llywodraeth Cymru

Sesiwn y bore: 10.35am i 10.45am (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 1.35pm i 1.45pm (10 munud)

Cyflwyniad byw am arolygon a chasglu data.

7. Holi ac ateb

Prif hyrwyddwr NatCen a siaradwyr Llywodraeth Cymru

Sesiwn y bore: 10.45am i 10.55am (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 1.45pm i 1.55pm (10 munud)

Cyfle i’r cyfranogwyr ofyn cwestiynau i’r siaradwyr, dan gadeiryddiaeth arweinydd NatCen.

8. Egwyl

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 10.55am i 11.10am (15 munud)

Sesiwn y prynhawn: 1.55pm i 2.10 pm (15 munud)

Y cyfranogwyr yn parhau ar alwad ond yn cael egwyl.

9. Croeso'n ôl a chyflwyniad i'r drafodaeth grŵp nesaf

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 11.10am i 11.15am (5 munud)

Sesiwn y prynhawn: 2.10pm i 2.15 pm (5 munud)

Mae pawb yn dod yn ôl at yr alwad ac mae'r cyfranogwyr yn cael eu cyflwyno i'r drafodaeth grŵp nesaf.

10. Trafodaeth grŵp 2: cwestiynau craidd cyfunedig

Hyrwyddwyr grŵp

Sesiwn y bore: 11.15am i 11.55am (40 munud)

Sesiwn y prynhawn: 2.15pm i 2.55 pm (40 munud)

Bydd y drafodaeth grŵp hon yn casglu sylwadau cyfranogwyr am y cwestiynau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn arolygon i gasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl anabl. Bydd yn gofyn i gyfranogwyr fyfyrio ar y cyfnewidiadau sy'n gysylltiedig â'r cwestiynau hyn (y gallu i wneud cymariaethau o'i gymharu ag iaith sy'n gwahardd).

11. Sesiwn gau'r cyfarfod llawn

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 11.55am i 12.00pm (5 munud)

Sesiwn y prynhawn: 2.55pm i 3.00 pm (5 munud)

Cyflwyniad 10 munud byw gan NatCen:

- cymhennu
- beth fydd yn derbyn sylw yn y sesiwn nesaf

**Amserlen y gweithdy**

1. **Cyflwyniad (10 munud)**

Nod: Deall cwmpas, diben a strwythur y gweithdai, yn cynnwys rolau Llywodraeth Cymru, NatCen a chyfranogwyr.

- Mae prif hyrwyddwyr NatCen yn eu cyflwyno eu hunain ac yn croesawu'r cyfranogwyr i gyd i'r cyfarfod llawn.
- Cyflwyniad 5 munud byw gan brif hyrwyddwr NatCen yn cyflwyno'r broses ymchwil ac unrhyw gymhennu.
    - Amlinellu'r broses a'r sesiynau.
    - Rolau Llywodraeth Cymru, NatCen, a chyfranogwyr.
    - Sut yr ydym yn defnyddio tystiolaeth a data (atgoffwch nhw fod yr holl wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd).
    - Cymhenu: recordio, rheolau sylfaenol, defnyddio platfform cyfarfod ar-lein, gwybodaeth am hygyrchedd (yn cynnwys cymorth technegol a negeseuon (ymchwilydd NatCen) i gael cymorth yn datrys problemau).
- Mae prif hyrwyddwr NatCen yn cyflwyno sgwrs gyntaf y drafodaeth grŵp ac mae cefnogaeth dechnegol NatCen yn symud cyfranogwyr i'r ystafelloedd trafod.

## 2. Trafodaeth grŵp 1: amhariad o'i gymharu ag anabledd (15 munud)

Nodau

- Cyflwyno cyfranogwyr i'w gilydd ac i'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan yr ystafelloedd trafod.
- Deall beth mae'r termau 'anabl' ac 'amhariad' yn ei olygu i gyfranogwyr.
- Mesur a ydyn nhw'n ystyried bod y termau hyn yn wahanol.

Nodiadau'r hyrwyddwr: Nodwch hyn – i bopeth a ddywedwch chi, mae rhan gyfatebol i'w rhannu yn y sgwrs.

Mae'r testun i'w bostio yn y sgwrs yn las.

Yr hyrwyddwr i'w gyflwyno ei hun a'i rôl a phostio'r rheolau sylfaenol ar gyfer eu trafod (wedi eu hamlinellu'n barod gan y prif hyrwyddwr) yn y sgwrs.

Darllen y 'rheolau' isod allan yn uchel yn ogystal â phostio yn y sgwrs.

Rheolau a fformat yr ystafell drafod

- Nid oes disgwyl i unrhyw un fod yn arbenigwr.
- Cyfathrebwch â'ch gilydd yn hytrach nag yn uniongyrchol â'r hyrwyddwr.
- Mae meddyliau a syniadau pawb yn bwysig.

- Gallwch gyfrannu drwy siarad, neu drwy deipio yn y sgwrs.
- Mae'n iawn i bobl anghytuno.
- Gwrandewch a chefnogwch eich gilydd i rannu.
- Byddaf yn esbonio gweithgareddau ar lafar ac yn eu rhoi nhw yn y sgwrs.

Darllenwch y nodyn isod allan yn uchel yn ogystal â phostio yn y sgwrs.

Os byddwch yn gweld y trafodaethau'n anodd am unrhyw reswm:

Gadewch i mi (yr hyrwyddwr) wybod drwy'r sgwrs breifat, neu drwy siarad. Os byddwch chi'n penderfynu nad ydych bellach eisiau cymryd rhan, gallwch adael yr ystafell drafod a gadael i'r prif hyrwyddwr wybod yn y brif ystafell.

**Gweithgaredd 1: cyflwyniad (3 munud)**

Gofynnwch i'r cyfranogwyr eu cyflwyno eu hunain gyda'u henw cyntaf a rhannu un gair neu ymadrodd a ddaw i'w meddyliau pan fyddent yn clywed y gair 'anabl'. Dywedwch wrthynt fod popeth yn iawn os nad ydyn nhw'n gwybod, neu os yw eu barn yn un negyddol. Gallant roi eu hargraff eu hunain neu eu barn bersonol ac mae hynny'n iawn.

Copïwch a phostiwch yn y sgwrs:

**Gweithgaredd 1: cyflwyniad**

1) Dywedwch wrthym beth yw eich enw cyntaf
2) Beth yw un gair neu ymadrodd yr ydych yn meddwl amdano pan fyddwch yn clywed y gair 'anabl'?

Yr hyrwyddwr i adael i'r cyfranogwyr wybod y byddwch yn dechrau'r recordio sain ac i weld a oes unrhyw wrthwynebiad i recordio (gellir gwrthwynebu ar lafar neu ei anfon yn y sgwrs).

Yr hyrwyddwr i roi gwybod i'r cyfranogwyr y byddent hefyd yn cymryd nodiadau wrth iddyn nhw siarad a'u bod nhw'n dal i wrando pan maen nhw'n edrych i lawr neu'n edrych i rywle arall.

Dechreuwch recordio.

**Gweithgaredd 2: anabledd o'i gymharu ag amhariad (12 munud)**

Yr hyrwyddwr i gymryd nodiadau wrth i'r drafodaeth ddigwydd.

Yr hyrwyddwr i ofyn i'r cyfranogwyr yn eu tro i gymryd munud i feddwl am y cwestiynau ac yna ofyn iddyn nhw rannu eu hymatebion i bob cwestiwn yn eu tro (copïwch a gludo'r cwestiwn perthnasol cyn i chi ei ofyn).

1. Beth mae anabledd yn ei olygu i chi? Pam?
2. Beth mae amhariad yn ei olygu i chi? Pam?
3. Ydych chi'n ystyried bod gan y termau 'bod yn anabl' a 'bod ag amhariad' ystyron gwahanol?

Stopiwch recordio.

Yr hyrwyddwr yn diolch i'r cyfranogwyr ac yn gadael iddyn nhw wybod y byddwn yn awr yn symud yn ôl i'r brif ystafell lle byddant yn clywed gan siaradwyr.

### 3. Siaradwr: Y 2 fodel o anabledd (10 munud)

Nod: Cyflwyno'r cyfranogwyr i'r prif syniadau o amgylch y model cymdeithasol o anabledd, a sut mae'n wahanol i'r model meddygol.

- Llywodraeth Cymru'n rhoi cyflwyniad am y model cymdeithasol o anabledd am 10 munud.
- Prif hyrwyddwr NatCen yn cyflwyno'r siaradwr nesaf.

### 4. Siaradwr: cyflwyniad i arolygon (10 munud)

Nod: Rhoi cyd-destun yr arolygon sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, a'r cwestiynau y maen nhw'n eu defnyddio i gasglu data am bobl anabl ac amhariadau.

- Llywodraeth Cymru'n rhoi cyflwyniad am arolygon am 10 munud.
- Prif hyrwyddwr NatCen yn cyflwyno'r sesiwn holi ac ateb.

### 5. Holi ac ateb (9 munud)

Nod: Rhoi'r cyfle i gyfranogwyr ofyn cwestiynau i'r siaradwyr.

Prif hyrwyddwr NatCen yn agor y cyfarfod llawn er mwyn i'r cyfranogwyr allu gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt i gael eglurhad.

Os bydd cyfranogwyr yn darparu sylwadau yn hytrach na chwestiynau:

- Prif hyrwyddwr NatCen i gydnabod meddyliau a safbwyntiau cyfranogwyr a rhoi gwybod iddynt y bydd cyfle i drafod yn y grwpiau trafod.

Os oes gan y cyfranogwyr ormod o gwestiynau ar gyfer yr amser sydd wedi'i neilltuo:

- Prif hyrwyddwr NatCen i gydnabod y cyfranogwyr a rhoi gwybod iddynt os byddant yn postio eu cwestiynau yn y sgwrs neu'n dweud wrth eu hyrwyddwr yn eu grwpiau trafod, gallai ymchwilwyr NatCen fynd â'r rhain i ffwrdd a'u hateb ar ddechrau diwrnod 2.

Os nad yw'r cyfranogwyr yn gofyn unrhyw gwestiynau, cyflwynwch yr 1 neu 2 gwestiwn a baratowyd o flaen llaw gyda siaradwyr blaenorol.

- Mae'r model cymdeithasol yn dweud fod pobl yn cael eu hanablu gan y rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu yn y byd yn hytrach nag oherwydd eu cyflyrau iechyd neu amhariadau. Fodd bynnag, mae profiadau pobl o'r byd yn amrywio'n enfawr. Sut fydd arolygon sydd wedi eu seilio ar y model cymdeithasol yn cofnodi'r amrywiaeth o brofiadau y mae pobl yn eu cael pan maen nhw'n rhyngweithio â phobl, amgylcheddau a sefydliadau eraill?
- Faint o fanylder fyddai ei angen mewn cwestiynau sydd wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol, a pha mor hir fyddai arolygon y model cymdeithasol?

Trafodaeth i'r grŵp cyfan cyn yr egwyl (tua munud)

- Prif hyrwyddwr NatCen i gyhoeddi bod egwyl o 15 munud.
- Pawb i aros ar yr alwad ond i dawelu'r sain a diffodd y meic a'r camerâu.
- Ar ôl dychwelyd, trowch y camerâu yn ôl ymlaen (neu postiwch yn y sgwrs) fel ein bod yn gwybod eich bod chi yno.

### 6. Egwyl (15 munud)

### 7. Y criw cyfan gyda'i gilydd cyn cynnal trafodaethau grŵp (tua munud)

Prif hyrwyddwr NatCen yn cyflwyno'r drafodaeth grŵp nesaf a chynorthwywyr technegol NatCen yn symud y cyfranogwyr i'r ystafelloedd trafodaeth grŵp.

### 8. Trafodaeth grŵp 2: myfyrio ar y cwestiynau wedi'u cysoni (40 munud)

Dechreuwch recordio.

Y nodau

- Cyflwyno cwestiynau wedi'u cysoni i'r cyfranogwyr.

- Cyflwyno a deall eu safbwyntiau am y pethau sy’n cael eu colli wrth gynhyrchu cwestiynau wedi’u cysoni.
- Sicrhau dealltwriaeth o ba mor bwysig yw iaith gynhwysol i’r cyfranogwyr ynghyd â pha mor bwysig yw’r gallu i gymharu wrth ystyried defnyddio a dylunio cwestiynau arolwg.

Yr hyrwyddwr i gymryd nodiadau wrth i’r drafodaeth ddigwydd.

Mae’r hyrwyddwr yn croesawu pawb yn ôl ac yn esbonio y byddan nhw’n dangos y 2 safon wedi’u cysoni iddynt sy’n cael eu defnyddio gyda’i gilydd i gasglu gwybodaeth am bobl anabl. (Cyd-destun, nad oes angen i’r hyrwyddwyr ei grybwyll: mae’r safonau wedi’u cysoni yn seiliedig ar y diffiniad cyfreithiol o anabledd yn y Ddeddf Cydraddoldeb, 2010). Mae’r 2 gwestiwn hyn yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn yr Arolwg Cenedlaethol i Gymru ac arolygon eraill ar draws y DU:

(Rhannwch y sgrin i ddangos y sleid o becyn yr hyrwyddwyr.)

1. cwestiwn am salwch hirdymor
2. cwestiwn am weithgareddau pob dydd

Yr hyrwyddwr yn rhannu’r sgrin ac yn dangos pob cwestiwn yn eu tro. I bob cwestiwn, mae’r hyrwyddwyr yn darllen y cwestiwn yn uchel ac yn rhoi 2 funud i’r cyfranogwyr ei ddarllen eu hunain.

Yna mae’r hyrwyddwyr yn gofyn y cwestiynau a ganlyn i’r cyfranogwyr (copïwch a gludwch y cwestiynau cyn eu gofyn nhw):

**Gweithgaredd 1: beth yw eich barn am y cwestiynau wedi’u cysoni hyn? (5 munud)**

Beth yw eich meddyliau cyntaf am y cwestiynau hyn?

Pa mor hawdd neu anodd fyddai hi i chi ateb y cwestiynau hyn? Pam?

**Gweithgaredd 2: ystyried y cyfaddawdau yng nghyd-destun cwestiynau wedi’u cysoni (25 munud)**

Mae’r hyrwyddwyr yn dweud: trwy ddefnyddio’r cwestiynau wedi’u cysoni hyn mewn arolygon (fel Arolwg Cenedlaethol Cymru) mae’n bosibl cymharu’r wybodaeth maen nhw’n ei chasglu am bobl anabl gyda gwybodaeth o arolygon eraill yn y DU a data hŷn o Gymru, sydd hefyd yn defnyddio’r safonau wedi’u cysoni.

Mae defnyddio’r safonau wedi’u cysoni’n ei gwneud hi’n haws dadansoddi data lle bynnag y mae’n cael ei gasglu. Mae’n golygu bod data a gesglir o wahanol arolygon yn gallu cael ei asesu gyda’i gilydd, gan ddarparu gwybodaeth fanylach am bobl anabl, a gwell dealltwriaeth ohonynt. Mae defnyddio gwybodaeth o lawer o wahanol arolygon am bobl anabl yn golygu bod modd gwneud gwell penderfyniadau a

pholisïau. Gellir cymharu'r polisïau hyn sy'n effeithio ar bobl anabl mewn gwahanol fannau a thros gyfnodau hir o amser, gan olygu ei bod hi'n haws asesu pa mor effeithiol ydyn nhw.

(Cyfeiriwch at y sleid a'i dangos i roi manylion y manteision.)

Fodd bynnag, fel y byddwch efallai wedi sylwi, mae'r cwestiynau'n waharddol. Trwy ofyn i bobl a yw eu cyflwr iechyd yn effeithio ar eu gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd, maen nhw'n tybio mai amhariadau neu gyflyrau iechyd sy'n anablu pobl. Felly maen nhw'n adlewyrchu'r model meddygol o anabledd, sy'n dweud bod pobl yn cael eu hanablu gan eu hamhariadau neu eu cyflyrau iechyd. Hefyd, mae'r cwestiynau hyn yn anodd eu hateb i rai grwpiau penodol. Er enghraifft, efallai nad yw pobl niwrowahanol yn ystyried eu niwrowahaniaeth yn 'salwch' neu 'gyflwr'. Efallai nad yw pobl sy'n cymryd meddyginiaeth ar gyfer salwch neu gyflwr yn gweld unrhyw gyfyngiadau ar eu gweithgareddau ar hyn o bryd ac maen nhw felly'n cael y cwestiynau hyn yn anodd eu hateb. Mae'r cwestiynau'n anodd eu hateb hefyd i bobl sydd â chyflyrau cynyddol ac amhariadau sy'n mynd a dod.

(Dangoswch y sleid sy'n dangos sut mae'r poblogaethau hyn yn cael eu gwahardd.)

Gan ystyried hyn…

1. (Blaenoriaeth) Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cwestiynau hyn yn awr? A yw eich barn wedi newid mewn unrhyw ffordd?

   Hwb: A yw'r ffaith bod y cwestiynau hyn yn cynhyrchu data y gellir ei gymharu yn bwysicach na'r ffaith bod y cwestiynau'n tybio bod pobl wedi eu hanablu gan eu hamhariad? Pam?

2. Ydych chi'n meddwl y byddai'r bobl anabl i gyd yn cytuno gyda chi? Neu ydych chi'n meddwl y bydd safbwyntiau gwahanol gan bobl wahanol – sydd â chyflyrau iechyd neu amhariadau gwahanol? Pam?

Os oes amser, gallech chi ofyn:

3. Os byddech chi'n gweithio i Lywodraeth Cymru neu'n wneuthurwr polisi, a fyddech chi'n parhau i ddefnyddio'r cwestiynau hyn? Pam?

**Gweithgaredd 3: pwysigrwydd iaith gymaradwy a chynhwysol (10 munud)**

Mae'r hyrwyddwr yn gofyn i'r cyfranogwyr: ar ôl ystyried y cyfaddawdu yn y cwestiynau wedi'u cysoni rhwng iaith waharddol a'r gallu i gymharu…

(Blaenoriaeth): Pan soniwn am arolygon ynghylch amhariadau a phobl anabl, beth sydd fwyaf pwysig i chi – bod yn gymaradwy (dros amser a gydag arolygon eraill) neu gael iaith gynhwysol?

- I'r bobl sy'n blaenoriaethu'r gallu i gymharu:
    - Beth yw mantais bwysicaf gallu cymharu data (data mwy cyfoethog, polisi gwell, cymariaethau dros amser neu mewn lleoedd gwahanol)?
- I'r rhai sy'n blaenoriaethu iaith gynhwysol:
    - Pam ei fod mor bwysig?
    - A oes unrhyw beth a allai fod yn bwysicach nag anfanteision iaith waharddol?
        - Er enghraifft, os byddai arolwg yn gallu datgelu mewnwelediad arbennig? neu'n cael ei ddefnyddio at ddiben arbennig?

Stopiwch recordio.

- Yr hyrwyddwr yn diolch i'r cyfranogwyr am eu cyfraniad ac am eu hamser heddiw.
- Yr hyrwyddwr yn rhoi gwybod iddyn nhw y byddwn yn awr yn symud yn ôl at y grŵp cyfan lle bydd y prif hyrwyddwr yn cloi.

**9. Y Grŵp Cyfan i Gloi (5 munud)**

Nod: Rhoi gwybodaeth i'r cyfranogwyr am gamau nesaf y broses.

Y prif hyrwyddwr yn:

- diolch i'r cyfranogwyr ac yn pwysleisio pwysigrwydd eu cyfraniad
- atgoffa'r cyfranogwyr i gysylltu mewn e-bost neu ar y rhif a ddarperir os oes ganddyn nhw unrhyw broblemau, cwestiynau, sylwadau neu adborth
- rhoi trosolwg byr o'r pethau a fydd yn cael sylw yn y sesiwn yfory
- diolch i'r cyfranogwyr a chau

**10. Ar ôl y gweithdy**

Yr hyrwyddwyr i lwytho'r nodiadau a gymerwyd a'r recordiadau a wnaed o sesiwn diwrnod 1.

**Diwrnod 2 – Y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau a mesurau sydd wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol**

Ymchwiliad ymgynghori am y model cymdeithasol o anabledd: canllaw i'r drafodaeth

Crynodeb: Bydd ail ddiwrnod y gweithdy ymgynghori'n caniatáu i'r cyfranogwyr adolygu posibiliadau eraill ar gyfer cwestiynau'r arolwg, yn cynnwys y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau a chwestiynau arolwg sydd wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol o anabledd.

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd pobl wedi:

- rhannu eu sylwadau a'u barn am y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau
- rhannu eu sylwadau a'u barn am gwestiynau wedi'u hysbysu gan y model cymdeithasol
- ystyried cyfres o gyfaddawdau sy'n gysylltiedig â phob opsiwn

**Trosolwg o drefn y digwydd – diwrnodau 2**

1. Hyrwyddwyr a chynorthwywyr technegol yn ymuno â'r alwad

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 9.30am i 9.50am (20 munud)

Sesiwn y prynhawn: 1.30pm i 1.50pm (20 munud)

Profi'r sain, y camerâu, y llywio a'r cysylltiadau, a datrys unrhyw broblemau technegol. Sefydlu a phrofi'r cyfathrebu rhwng yr hyrwyddwyr (platfform negeseuon).

2. Croesawu'r cyfranogwyr a'u gadael i mewn i'r ystafell

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 9.50am i 10am (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 1.50pm i 2pm (10 munud)

Estynnir croeso i'r cyfranogwyr a gofynnir iddyn nhw roi enw newydd iddynt eu hunain, gyda'u henw cyntaf, llythyren gyntaf eu cyfenw a'u lleoliad. Gellir datrys unrhyw broblemau technegol, camera, sain drwy gysylltu â'r cynorthwywyr technegol i helpu ar yr alwad.

3. NatCen yn mynd dros wybodaeth diwrnod 1 ac unrhyw gymhennu

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 10am i 10.10am (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 2pm i 2.10pm (10 munud)

Cyflwyniad byw gan NatCen:

- rhoi amlinelliad o'r sesiwn hon ac atgoffa pawb am yr ymchwil cyfan
- atgoffa pawb am rolau Llywodraeth Cymru, NatCen, a'r cyfranogwyr
- atgoffa pawb am ddefnyddio tystiolaeth (atgoffa am hysbysiad preifatrwydd)
- atgoffa pawb am gymhennu: recordio, rheolau sylfaenol, defnyddio platfform cyfarfod ar-lein, a rheolau hygyrchedd
- atgoffa pawb am ganfyddiadau diwrnod 1
- cyflwyno'r drafodaeth grŵp gyntaf

4. Trafodaeth grŵp 1: cwestiwn wedi'i gysoni am amhariad

Hyrwyddwyr grŵp

Sesiwn y bore: 10.10am i 10.55am (45 munud)

Sesiwn y prynhawn: 2.10pm i 2.55pm (45 munud)

Y cyfranogwyr yn rhannu eu barn am y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariad.

5. Adborth i'r grŵp cyfan am drafodaeth grŵp 1

Hyrwyddwr grŵp

Sesiwn y bore: 10.55am i 11.05am (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 2.55pm i 3.05pm (10 munud)

Yr hyrwyddwyr yn rhoi adborth am themâu eu grwpiau perthnasol.

6. Egwyl

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 11.55am i 11.25am (20 munud)

Sesiwn y prynhawn: 3.05pm i 3.25pm (20 munud)

Y cyfranogwyr yn aros ar yr alwad ond yn cael egwyl.

7. Croeso’n ôl i bawb a chyflwyniad i’r drafodaeth grŵp nesaf

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 11.25am i 11.30am (5 munud)

Sesiwn y prynhawn: 3.25pm i 3.30pm (5 munud)

Mae pawb yn dod yn ôl at yr alwad ac yn cael eu cyflwyno i’r drafodaeth grŵp nesaf.

8. Trafodaeth grŵp 2A: cwestiynau model cymdeithasol o anabledd

Hyrwyddwyr grŵp

Sesiwn y bore: 11.30am i 12pm (30 munud)

Sesiwn y prynhawn: 3.30pm i 4pm (30 munud)

Y cyfranogwyr yn rhannu eu barn am gwestiynau model cymdeithasol ac yn dechrau ystyried y cyfaddawdau.

9. Egwyl yn y drafodaeth grŵp

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 12pm i 12.15pm (15 munud)

Sesiwn y prynhawn: 4pm i 4.15pm (15 munud)

Y cyfranogwyr yn aros ar yr alwad ond yn cael egwyl.

10. Trafodaeth grŵp 2B: cwestiynau model cymdeithasol o anabledd mewn senarios

Hyrwyddwyr grŵp

Sesiwn y bore: 12.15pm i 12.40pm (25 munud)

Sesiwn y prynhawn: 4.15pm i 4.40pm (25 munud)

Mae'r cyfranogwyr yn rhannu eu barn am gwestiynau model cymdeithasol wrth eu hystyried mewn gwahanol gyd-destunau.

11. Adborth fel grŵp cyfan am drafodaeth grŵp 2

Hyrwyddwr grŵp

Sesiwn y bore: 12.40pm i 12.50pm (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 4.40pm i 4.50pm (10 munud)

Hyrwyddwyr yn rhoi adborth ar themâu o'u grwpiau perthnasol.

12. Sesiwn gloi fel grŵp cyfan

Prif hyrwyddwr NatCen

Sesiwn y bore: 12.50pm i 1pm (10 munud)

Sesiwn y prynhawn: 4.50pm i 5pm (10 munud)

Cyflwyniad 10 munud byw gan NatCen:

- cymhennu
- beth sy'n digwydd nesaf

**Amserlen y gweithdy**

1. **Cyflwyniad (10 munud)**

Nod: adolygu eitemau pwysig o Ddiwrnod 1 a lansio Diwrnod 2.

- Prif hyrwyddwr NatCen yn croesawu'r cyfranogwyr i gyd fel grŵp cyfan. Yr hyrwyddwyr yn eu cyflwyno eu hunain.
- Cyflwyniad 5 munud byw cyflym iawn gan brif hyrwyddwr NatCen i adolygu'r broses ymchwil ac unrhyw gymhennu.

    - Amlinellu’r broses a’r sesiynau.
    - Rolau Llywodraeth Cymru, NatCen, a’r cyfranogwyr.
    - Sut yr ydym yn defnyddio tystiolaeth a data (i’n hatgoffa o’r holl wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd).
    - Cymhenu: recordio, rheolau sylfaenol, defnyddio platfform cyfarfod ar-lein, gwybodaeth hygyrchedd (yn cynnwys mynd at y cynorthwywyr technoleg gydag unrhyw ymholiadau am ddatrys problemau).
    - Adolygiad o’r hyn a wnaed ar ‘Ddiwrnod 1’.
- Mae prif hyrwyddwr NatCen yn cyflwyno sgwrs gyntaf y drafodaeth grŵp ac mae cynorthwywyr technegol NatCen yn symud cyfranogwyr i’r ystafelloedd trafod.

**2. Trafodaeth grŵp 1: cwestiwn wedi’i gysoni am amhariadau (45 munud)**

Nodau

- Deall meddyliau cyfranogwyr ynghylch y cwestiwn wedi’i gysoni am amhariadau.
- Cael y cyfranogwyr i ystyried y cyfaddawdau sy’n gysylltiedig â’r cwestiwn hwn.

Nodiadau’r hyrwyddwyr: Nodwch os gwelwch yn dda - ar gyfer popeth a ddywedwch chi, mae rhan gyfatebol i’w rhannu yn y sgwrs.

Mae’r testun i’w bostio yn y sgwrs yn las.

Yr hyrwyddwr i’w gyflwyno ei hun a’i rôl a phostio’r rheolau sylfaenol ar gyfer y drafodaeth (wedi eu hamlinellu’n barod gan y prif hyrwyddwr) yn y sgwrs.

Darllen y ‘rheolau’ isod allan yn uchel a chyflym yn ogystal â phostio yn y sgwrs.

Rheolau a fformat yr ystafell drafod

- Nid oes disgwyl i unrhyw un fod yn arbenigwr.
- Cyfathrebwch â’ch gilydd yn hytrach nag yn uniongyrchol â’r hyrwyddwr.
- Mae meddyliau a syniadau pawb yn bwysig.
- Gallwch gyfrannu drwy siarad, neu drwy deipio yn y sgwrs.
- Mae’n iawn i bobl anghytuno.

- Gwrandewch a chefnogwch eich gilydd i rannu.
- Byddaf yn esbonio gweithgareddau ar lafar ac yn eu rhoi nhw yn y sgwrs.

Darllenwch y nodyn isod allan yn uchel yn ogystal â phostio yn y sgwrs.

Os byddwch yn gweld y trafodaethau'n anodd am unrhyw reswm:

Gadewch i mi (yr hyrwyddwr) wybod drwy'r sgwrs breifat, neu drwy siarad. Os byddwch chi'n penderfynu nad ydych bellach eisiau cymryd rhan, gallwch adael yr ystafell drafod a gadael i'r prif hyrwyddwr wybod yn y brif ystafell.

Yr hyrwyddwr i adael i'r cyfranogwyr wybod y byddwch yn dechrau'r recordio sain ac i weld a oes unrhyw wrthwynebiad i recordio (gellir gwrthwynebu ar lafar neu ei anfon yn y sgwrs).

Yr hyrwyddwr i roi gwybod i'r cyfranogwyr y byddant hefyd yn cymryd nodiadau wrth iddyn nhw siarad a'u bod nhw'n dal i wrando pan maen nhw'n edrych i lawr neu'n edrych i rywle arall.

Dechrau recordio.

Yr hyrwyddwr i gymryd nodiadau wrth i'r drafodaeth ddigwydd.

- Bydd yr hyrwyddwr yn dangos un cwestiwn i'r cyfranogwyr, sef y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau, nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, ond sy'n cael ei ddefnyddio yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, Arolwg Tai Lloegr, Arolwg Iechyd Lloegr ac Arolwg Adnoddau'r Teulu. Mae'r cwestiwn hwn yn rhan o gwestiynau wedi'u cysoni craidd y DU. Mae'n edrych ar y gweithgareddau nad ydy pobl yn gallu eu gwneud, neu y maen nhw'n ei chael hi'n anodd eu gwneud, oherwydd eu cyflwr iechyd.

(Rhannwch y sgrin gyda'r sleid sydd â'r cwestiynau.)

- Mae'r hyrwyddwr yn rhannu'r sgrin ac yn dangos y cwestiwn. Mae'r hyrwyddwyr yn darllen y cwestiwn yn uchel ac yna'n rhoi 2 funud i'r cyfranogwyr ei ddarllen eu hunain.
- Yna mae'r hyrwyddwyr yn gofyn y cwestiynau nesaf i'r cyfranogwyr (copïwch a gludwch y cwestiwn cyn eu gofyn).

**Gweithgaredd 1: beth yw eich barn chi am y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau? (5 munud)**

Beth yw eich meddyliau cyntaf am y cwestiwn hwn?

Pa mor hawdd neu anodd fyddai hi i chi ateb y cwestiwn hwn? Pam?

**Gweithgaredd 2: manteision ac anfanteision y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau, a sut mae'n cymharu â'r safonau wedi'u cysoni eraill (30 munud)**

Mae'r hyrwyddwyr yn dweud hyn: Nid yw'r cwestiwn hwn fel y 2 gwestiwn wedi'u cysoni yr oeddem yn edrych arnynt ddoe – am salwch hirdymor a gweithgareddau pob dydd. Nid yw'r cwestiwn hwn yn gofyn i bobl a oes ganddyn nhw gyflwr iechyd. Yn hytrach, mae'n gofyn pa fath o amhariad sydd ganddyn nhw, er enghraifft, amhariad ar y golwg neu amhariad symudedd. Mae hyn yn golygu ei fod yn casglu gwybodaeth fwy manwl am amhariadau pobl. Hefyd, nid yw'r cwestiwn hwn yn gofyn i bobl a ydyn nhw'n anabl ond mae'n gofyn ydyn nhw'n cael eu 'heffeithio' gan eu cyflwr neu salwch.

(Dangoswch a chyfeiriwch at y sleid am fanteision.)

Fodd bynnag, mae gan y cwestiwn rai anfanteision hefyd. Er enghraifft, nid yw'n cyfrif am yr holl amhariadau, ac mae'n defnyddio rhywfaint o iaith ansensitif a hen ffasiwn, er enghraifft mae'n cyfeirio at awtistiaeth fel 'anhwylder'.

(Dangoswch a chyfeiriwch at y sleid am anfanteision.)

Gan ystyried hyn…

(Copïwch a gludwch y cwestiynau a'r promptiau yn y sgwrs wrth i chi eu gofyn.)

1. (Blaenoriaeth): Beth yw eich barn am y cwestiwn hwn yn awr?

Promptiau

- Sut fyddech chi'n teimlo ynglŷn â chwestiwn sy'n gofyn ichi am eich mathau penodol o amhariadau?
- Ydy'r rhestr o amhariadau'n gynhwysfawr ac wedi ei geirio'n gywir? Beth yw eich barn am hyd y cwestiwn?
- A fyddai'n well cael cwestiwn sy'n gofyn am eich amhariadau ac os neu sut maen nhw'n effeithio arnoch chi? Yn hytrach na gofyn am y ffordd y gallech chi fod yn cael eich anablu?

Os oes angen eu hatgoffa

Mae amhariad yn anaf, salwch, cyflwr iechyd neu niwrowahaniaeth.

Anabledd yw pan fydd pobl sydd ag amhariadau'n methu cymryd rhan mewn cymdeithas ar lefel gyfartal oherwydd bod rhwystrau'n eu hatal nhw.

2. Dychmygwch fod person niwrowahanol – person awtistig er enghraifft – yn derbyn y cwestiwn yma. Sut ydych chi'n credu y bydden nhw'n teimlo am y cwestiwn hwn?

a. Neu dychmygwch eich bod yn ddefnyddiwr BSL sy'n diffinio fel defnyddiwr iaith, nid rhywun gydag amhariad. Sut fydden nhw'n teimlo am y cwestiwn hwn yn eich barn chi?

**Gweithgaredd 3: ystyried y cyfaddawdau yng nghyd-destun y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau (10 munud)**

Copïwch a gludwch y cwestiynau a'r promptiau isod i mewn i'r sgwrs wrth i chi eu gofyn nhw.

Yr hyrwyddwr i ofyn i'r cyfranogwyr: ar ôl ystyried manteision ac anfanteision y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau…

- (Blaenoriaeth) Ydych chi'n meddwl bod manteision y cwestiwn hwn yn fwy na'r costau? Pam neu pam ddim?
- Os byddech chi'n gweithio i Lywodraeth Cymru neu fel gwneuthurwr polisi, a fyddech chi'n parhau i ddefnyddio'r cwestiynau hyn? Pam?

Stopiwch recordio.

Yr hyrwyddwr yn diolch i'r cyfranogwyr ac yn gadael iddyn nhw wybod y byddwn yn symud yn ôl i'r brif ystafell yn awr lle bydd y grwpiau'n rhoi adborth am eu trafodaethau.

### 3. Adborth o'r drafodaeth grŵp 1 (10 munud)

Nod: Caniatáu i gyfranogwyr glywed meddyliau'r grwpiau i gyd am yr opsiwn o ddefnyddio'r cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau.

- Prif hyrwyddwr NatCen yn croesawu pawb yn ôl ac yn esbonio y byddwn ni'n clywed gan hyrwyddwr pob grŵp yn awr a fydd yn esbonio'r meddyliau sydd wedi dod i'r amlwg gan eu grwpiau am y cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau.
- Yr hyrwyddwyr i roi adborth am y 2 neu 3 thema a ddaeth i'r amlwg gan eu grŵp ynghylch eu barn am y cyfaddawdau (gweithgaredd 3).
- Prif hyrwyddwr NatCen yn cyhoeddi bod:
    - egwyl o 20 munud
    - pawb i aros ar yr alwad ond i dawelu'r sain a diffodd y meics a'r camerâu
    - ar ôl dychwelyd, trowch y camerâu yn ôl ymlaen (neu postiwch yn y sgwrs) fel ein bod yn gwybod eich bod chi yno

4. **Egwyl (20 munud)**

5. **Trafodaeth fel criw cyfan cyn y drafodaeth grŵp (5 munud)**

Prif Hyrwyddwr NatCen yn croesawu pawb yn ôl ac yn cyflwyno'r grŵp trafod nesaf.

Cynorthwywyr technegol NatCen yn symud y cyfranogwyr i'r ystafelloedd trafodaeth grŵp.

6. **Trafodaeth grŵp 2A: Y cwestiwn model cymdeithasol o anabledd (30 munud)**

Nodau

- Deall barn y cyfranogwyr am y cwestiwn model cymdeithasol.
- Gofyn i'r cyfranogwyr ystyried y cyfaddawdau wrth ddefnyddio'r cwestiwn model cymdeithasol yn hytrach na'r cwestiynau wedi'u cysoni cyfredol.

Dechreuwch recordio.

Yr hyrwyddwr i gymryd nodiadau yn ystod y drafodaeth.

Yr hyrwyddwyr i esbonio y byddant yn dangos cwestiwn iddyn nhw nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn arolygon (rhannu'r sleid gyda'r cwestiwn model cymdeithasol).

- Yr hyrwyddwr yn rhannu'r sgrin ac yn dangos y cwestiwn. Yr hyrwyddwyr yn darllen y cwestiwn yn uchel ac yna'n rhoi 2 funud i'r cyfranogwyr ei ddarllen eu hunain.
- Yna mae'r hyrwyddwyr yn gofyn y cwestiynau a ganlyn i'r cyfranogwyr (copïwch a gludo'r cwestiwn perthnasol cyn i chi ei ofyn).

**Gweithgaredd 1: beth yw eich barn chi am y cwestiwn model cymdeithasol o anabledd? (5 munud)**

1. Beth yw eich meddyliau cyntaf am y cwestiwn hwn?
2. Pa mor hawdd neu anodd fyddai hi i chi ateb y cwestiwn hwn? Pam?

**Gweithgaredd 2: ystyried y cyfaddawdau yng nghyd-destun y cwestiynau model cymdeithasol (25 munud)**

Mae'r hyrwyddwyr yn dweud: Mae'r cwestiwn hwn wedi'i alinio'n well ag egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd. Mae'r cwestiwn yn gofyn i bobl am y rhwystrau yn y byd a allai eu hatal nhw rhag gwneud y pethau y maen nhw eisiau eu gwneud, a sut mae'r rhain yn rhyngweithio â chyflyrau iechyd. Mae'n gofyn am wahanol fathau o rwystrau: agweddau, sefydliadol, cyfathrebu, ac amgylcheddol, ac yn cydnabod y bydd rhai pobl yn wynebu nifer o rwystrau. Mae'r cwestiwn hefyd yn defnyddio iaith briodol a sensitif (dangoswch a chyfeiriwch at y sleid am fanteision).

Fodd bynnag, fel y byddwch wedi sylwi, nid yw'r cwestiwn yn cofnodi'r holl rwystrau posibl. Hefyd, am nad yw'r cwestiwn ynddo'i hun yn gofyn i chi am gategorïau amhariadau, ni fydd yn dweud wrthym pa rwystrau sy'n effeithio ar ba fathau o amhariad. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw'r rhwystrau a nodwyd drwy gyfrwng y cwestiwn hwn yn derbyn sylw, ni fyddwn yn gwybod pa bobl sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau (dangoswch a chyfeiriwch at y sleid o anfanteision).

O ystyried hyn…

1. Beth yw eich barn am y cwestiwn hwn yn awr?

Promptiau

- Sut fyddech chi'n teimlo ynglŷn â chwestiwn sy'n gofyn ichi am y rhwystrau a wynebwch yn y byd?
- O'i gymharu â'r cwestiynau eraill rydym wedi edrych arnynt, ydych chi'n meddwl bod rhywbeth ar goll o'r cwestiwn hwn? Beth fyddai'r cwestiwn hwn yn methu ei gofnodi, os oes unrhyw beth?
    - (Y peth sydd ar goll yw: darganfod pa amhariadau sydd gan bobl.)
- Sut fyddech chi'n teimlo o dderbyn y cwestiwn hwn ynghyd â'r cwestiwn wedi'i gysoni am amhariadau?
    - (Byddai hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gysylltu data am rwystrau gyda data am amhariadau, a deall pa bobl sy'n cael eu heffeithio gan ba rwystrau.)

**Egwyl yn y drafodaeth grŵp (15 munud)**

- Yr hyrwyddwr i gyhoeddi bod egwyl o 15 munud.
- Pawb i aros ar yr alwad ond i dawelu'r sain a diffodd y meics a'r camerâu.
- Ar ôl dychwelyd, trowch y camerâu yn ôl ymlaen (neu postiwch yn y sgwrs) fel ein bod yn gwybod eich bod chi yno.

7. **Trafodaeth grŵp 2B: a cwestiwn model cymdeithasol mewn senarios (25 munud)**

Y nod

- Ystyried y cyfaddawdau gyda'r cwestiynau model cymdeithasol.
- Deall barn cyfranogwyr am y cwestiynau model cymdeithasol mewn senarios gwahanol.

**Gweithgaredd 3: senario gyda'r arolwg model cymdeithasol**

Mae'r hyrwyddwyr yn dweud: os byddai Llywodraeth Cymru'n mabwysiadu cwestiynau arolwg cwbl newydd wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol, byddai'r manteision yn cynnwys geiriad mwy cynhwysol a chywir wrth ddisgrifio gwahanol amhariadau, a mwy o ffocws ar y rhwystrau y mae pobl yn dod ar eu traws. Ond, byddai'r data o'r arolygon hyn yn llai cymaradwy ag arolygon eraill am bobl anabl – yn y DU, neu ddata hŷn o Gymru.

Mae'r hyrwyddwyr yn dangos sleid i'r cyfranogwyr sy'n amlinellu senario.

Y senario: Ar hyn o bryd, mae llywodraeth y DU yn cynnal nifer o arolygon i weld pa mor dda mae gwahanol grwpiau o bobl, yn cynnwys pobl anabl, yn dod ymlaen mewn cymdeithas. Er enghraifft, maen nhw'n casglu gwybodaeth ynglŷn â faint o bobl anabl sydd allan o waith, lefelau lles pobl anabl, a barn pobl anabl am wasanaethau cyhoeddus yn eu hardal. Mae arolygon y DU yn defnyddio'r safonau wedi'u cysoni i ddiffinio a mesur anabledd. Os yw Cymru'n mesur anabledd mewn ffordd wahanol i wledydd eraill, mae'n dod yn anodd gwybod a yw pobl anabl mewn gwell sefyllfa yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, Yr Alban neu Gymru. Hynny yw, mae'n dod yn anoddach barnu a yw posibiliadau yng Nghymru sy'n amcannu i wella bywyd i bobl anabl yn effeithiol ai peidio o'i gymharu â pholisïau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill.

Mae'r hyrwyddwyr yn gofyn y cwestiynau a ganlyn i'r cyfranogwyr:

1. a fyddai mantais cael cwestiynau wedi eu hysbysu gan y model cymdeithasol (er enghraifft, ffocws ar rwystrau nid amhariadau, iaith fwy sensitif) yn bwysicach nag anfanteision posibl methu cymharu data Cymru gyda data o'r DU ehangach?
    a. pa mor bryderus ydych chi am y posibilrwydd na ellir cymharu data am anabledd yng Nghymru gyda data'r DU? Pam?

Stopiwch recordio.

### 8. Adborth o drafodaeth grŵp 2A a 2B (10 munud)

Nod: caniatáu i gyfranogwyr glywed meddyliau pob grŵp am yr opsiwn o ddefnyddio'r cwestiwn/cwestiynau model cymdeithasol.

- Mae prif hyrwyddwr NatCen yn croesawu pawb yn ôl ac yn esbonio y byddwn yn clywed gan hyrwyddwyr pob grŵp a fydd yn rhoi gwybod am y sylwadau a gafwyd gan eu grwpiau am y cwestiwn model cymdeithasol.
- Yr hyrwyddwyr i roi adborth am y 2 neu 3 thema a ddaeth i'r amlwg gan eu grŵp.

### 9. Pawb at ei Gilydd i Gloi (10 munud)

Nod: rhoi gwybodaeth i'r cyfranogwyr am gamau nesaf y broses.

Y prif hyrwyddwr yn:

- diolch i'r cyfranogwyr ac yn pwysleisio pwysigrwydd eu cyfraniad
- atgoffa'r cyfranogwyr i gysylltu mewn e-bost neu ar y rhif a ddarperir os oes ganddyn nhw unrhyw broblemau, cwestiynau, sylwadau neu adborth
- rhoi trosolwg byr o'r camau nesaf, yn cynnwys pryd i ddisgwyl y cymhelliant
- diolch i'r cyfranogwyr a chau

### 10. Ar ôl y gweithdy

Yr hyrwyddwyr i lwytho'r nodiadau a gymerwyd a'r recordiadau a wnaed o sesiwn diwrnod 2.

## Atodiad G: Pecyn Gwaith 3 – Ymgynghori: enghraifft o gwestiwn arolwg y model cymdeithasol

Isod mae enghraifft o gwestiwn wedi'i alinio â'r model cymdeithasol a ddefnyddwyd yn y gweithdai ymgynghori.  Rhoddwyd gwybod i'r rhai sy'n mynychu mai dim ond enghraifft yw hon ac nid y fersiwn terfynol.

Nawr rydym eisiau i chi feddwl am y rhwystrau neu'r diffyg addasiadau sy'n eich atal rhag gwneud pethau, neu'n eich cyfyngu wrth wneud pethau, yn eich bywydau pob dydd. Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi wynebu unrhyw rai o'r canlynol:

- rhwystrau rhag mynd i mewn a defnyddio adeilad cyhoeddus e.e. ysgolion, llyfrgelloedd, ysbytai
- rhwystrau rhag defnyddio a mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus
- dim gwybodaeth hawdd ei chyrraedd
- dim technoleg addas neu offer priodol a fyddai'n eich helpu yn eich bywyd o ddydd i ddydd
- ymddygiad gwahaniaethol tuag atoch oherwydd eich cyflwr / cyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol, niwrowahaniaeth neu ddefnydd o BSL
- pethau eraill sy'n eich rhwystro rhag cymryd rhan mewn cymdeithas – fel agweddau cymdeithasol (er enghraifft, disgwyl i bobl anabl fethu gwneud rhywbeth), neu rwystrau yn y cartref (fel peidio cael wynebau isel yn y gegin neu ddrysau digon llydan)
- dim o'r rhain